# Agenda - Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

Lleoliad:
**Hybrid - Ystafell Bwyllgora 4 Tŷ Hywel a fideogynadledda drwy Zoom**
Dyddiad: Dydd Mercher, 8 Mai 2024
Amser: 09.00

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:
**Naomi Stocks**
Clerc y Pwyllgor
0300 200 6565
SeneddPlant@senedd.cymru

# Hybrid

## Cyfarfod cyhoeddus

(09.00)

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

(09.00)

## 2 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o eitem 6 ac eitem 8 ar agenda'r cyfarfod hwn, ac o'r cyfarfodydd cyfan ar 15 Mai ac 23 Mai

(09.00)

## Cyfarfod preifat

(09.00 - 09.30)

## 3 Gweithredu diwygiadau addysg - diweddariad ar weithgareddau ymgysylltu â theuluoedd

(09.00 - 09.30) (Tudalennau 1 - 25)

Dogfennau atodol:
Data wedi'u hailddadansoddi o Gyfweliadau Teuluol
Grŵp Cynghori Ar-lein

## Cyfarfod cyhoeddus

(09.30 - 10.45)

## 4 Gweithredu diwygiadau addysg - sesiwn dystiolaeth

(09.30 - 10.45) (Tudalennau 26 - 77)

Lynne Neagle AS, Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg
Hannah Wharf, Dirprwy Gyfarwyddwr yr Is-adran Cymorth i Ddysgwyr, Llywodraeth Cymru
Lloyd Hopkin, Dirprwy Gyfarwyddwr Cwricwlwm ac Asesu, Llywodraeth Cymru

Dogfennau atodol:
Briff Ymchwil
Papur - Llywodraeth Cymru
Papur Preifat - Papur Briffio ar Gwricwlwm Cymru gan y Sefydliad Ffiseg (Saesneg yn unig)

## 5 Papurau i'w nodi

(10.45)

### 5.1 Comisiynydd y Gymraeg: Addysg ôl-orfodol a'r Gymraeg

(Tudalen 78)

Dogfennau atodol:
Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol

### 5.2 Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2024-25

(Tudalennau 79 - 81)

Dogfennau atodol:
Llythyr gan y Cadeirydd at Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid

### 5.3 P-06-1406 Cosbau ariannol i Awdurdodau Addysg Lleol nad ydynt yn cydymffurfio â'r amserlenni ar gyfer ADY

(Tudalen 82)

Dogfennau atodol:
Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Deisebau

### 5.4 Gwasanaethau i blant sydd â phrofiad o ofal: trafod diwygio radical

(Tudalennau 83 - 84)

Dogfennau atodol:
Llythyr gan y Gweinidog Gofal Cymdeithasol

**5.5 Bil Addysg Awyr Agored Breswyl (Cymru)**

(Tudalennau 85 - 91)

Dogfennau atodol:
Llythyr gan Sam Rowlands AS, yr Aelod sy'n Gyfrifol

**5.6 Bil Addysg Awyr Agored Breswyl (Cymru)**

(Tudalennau 92 - 100)

Dogfennau atodol:
Llythyr at Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid gan Sam Rowlands AS, yr Aelod sy'n Gyfrifol

**5.7 Bil Addysg Awyr Agored Breswyl (Cymru)**

(Tudalennau 101 - 106)

Dogfennau atodol:
Llythyr at Gadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad gan Sam Rowlands AS, yr Aelod sy'n Gyfrifol

**5.8 Arolygiaeth Gofal Cymru: Craffu blynyddol**

(Tudalennau 107 - 109)

Dogfennau atodol:
Llythyr gan Prif Arolygydd Arolygiaeth Gofal Cymru

**5.9 Gwybodaeth gan randdeiliaid**

(Tudalennau 110 - 112)

Dogfennau atodol:
Llythyr gan Cymwysterau Cymru

**5.10 A yw plant a phobl ifanc anabl yn cael mynediad cyfartal at addysg a gofal plant?**

(Tudalennau 113 - 114)

Dogfennau atodol:
Llythyr gan y Cadeirydd at Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg, Ysgrifennydd y Cabinet dros Ddiwylliant a Chyfiawnder Cymdeithasol a'r Gweinidog Iechyd Meddwl a'r Blynyddoedd Cynnar

**5.11 Gweithredu diwygiadau addysg**

(Tudalennau 115 - 118)

Dogfennau atodol:
Llythyr gan y Cadeirydd at Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg ynghylch pryderon am weithredu'r system Anghenion Dysgu Ychwanegol

**5.12 Gwybodaeth gan randdeiliaid**

(Tudalennau 119 - 120)

Dogfennau atodol:
Llythyr gan y Cadeirydd at Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg ynghylch cyfranogiad mewn Addysg Uwch

**5.13 Llythrennedd iechyd**

(Tudalennau 121 - 122)

Dogfennau atodol:
Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Iechyud a Gofal Cymdeithasol at Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

**5.14 A yw plant a phobl ifanc anabl yn cael mynediad cyfartal at addysg a gofal plant?**

(Tudalennau 123 - 124)

Dogfennau atodol:
Llythyr gan Gymdeithas Genedlaethol Plant Byddar Cymru at Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg (Saesneg yn unig)

**5.15 Craffu cyffredinol ar waith Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg a gwaith Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a'r Gymraeg**

(Tudalennau 125 - 126)

Dogfennau atodol:
Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol at Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg ac Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a'r Gymraeg

**5.16 Gwybodaeth gan Randdeiliaid**

(Tudalennau 127 - 162)

Dogfennau atodol:
Nodyn ymchwil gan Ganolfan Gyfreithiol y Plant Cymru, Cymdeithas y Plant, Sefydliad Bevan a'r Groes Goch Brydeinig ynglŷn â Gwasanaeth Gwarcheidiaeth i bob Plentyn ar eu Pen eu Hunain yng Nghymru

**5.17 Rheoliadau Hawliadau Iechyd (Dirymu) 2024**

(Tudalen 163)

Dogfennau atodol:
Llythyr gan y Gweinidog Iechyd Meddwl a'r Blynyddoedd Cynnar at Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

## Cyfarfod preifat

(10.45 - 11.15)

## 6 Gweithredu diwygiadau addysg - trafod y dystiolaeth

(10.45 - 11.00)

## 7 Adolygu rolau a chyfrifoldebau partneriaid addysg yng Nghymru a chyflwyno trefniadau i wella ysgolion [Eitem wedi'i gohirio i'w thrafod mewn cyfarfod yn y dyfodol]

Yr Athro Dylan E Jones, Awdur yr Adolygiad a Dirprwy Is-ganghellor Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant
Owain Lloyd, Cyfarwyddwr y Gymraeg ac Addysg

## 8 Adolygu rolau a chyfrifoldebau partneriaid addysg yng Nghymru a chyflwyno trefniadau i wella ysgolion - trafod aildrefnu'r eitem

(11.00 - 11.15)

# Eitem 3

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

# Eitem 4

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

## Papur tystiolaeth Llywodraeth Cymru

## Ar gyfer ymchwiliad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg i weithredu diwygiadau addysg

# 1. Cyflwyniad

1.1. Yng Nghymru, Addysg yw ein Cenhadaeth Genedlaethol. Bydd gweithredu ein diwygiadau addysg yn cyflawni safonau uchel a dyheadau i bawb. Ein nod yw bod pob dysgwr, beth bynnag fo'u cefndir, yn cael eu cefnogi i fod yn ddinasyddion iach, mentrus a moesegol sy'n ymgysylltu ac sy'n barod i fod â rhan lawn mewn bywyd a gwaith.

1.2. Mae system addysg gynhwysol yn un lle mae anghenion dysgwyr yn cael eu clywed, yn derbyn ymateb, ac mae pob dysgwr yn cael ei gefnogi i gymryd rhan lawn mewn addysg gyda dull ysgol gyfan yn cael ei ddefnyddio i ddiwallu eu hanghenion. Gyda'i gilydd, mae'r diwygiadau i'r Cwricwlwm i Gymru (CiG) a'r system Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) yn gweithredu fel sbardun ar gyfer newid.

1.3. Paratowyd y papur tystiolaeth hwn ar gyfer y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg. Mae'n cyfuno amrywiaeth o dystiolaeth ar y cynnydd i weithredu diwygiadau addysg yng Nghymru ac yn crynhoi'r camau y mae Llywodraeth Cymru’n eu cymryd i gefnogi gweithredu.

1.4. Mae cefnogaeth eang o hyd i ddiwygio'r cwricwlwm ac ADY yng Nghymru, i'r ffordd newydd o weithio, ac ymrwymiad ar draws y sector i'w gael yn iawn. Mae hyn wedi'i osod yn erbyn cefndir o ddiwygiadau ehangach gan gynnwys dull ysgol gyfan o ymdrin ag iechyd meddwl a lles, y dull newydd o werthuso, gwella ac atebolrwydd ysgolion, ac fe'i cefnogir gan y dull o ymdrin â Dysgu Proffesiynol cenedlaethol. Mae'r diwygiadau hyn yn digwydd hefyd yng nghyd-destun heriau parhaus, gan gynnwys gwaddol parhaus effaith y pandemig ar ddysgu a lles, heriau gyda phresenoldeb, a chynnydd mewn plant a phobl ifanc ag anghenion cymhleth. Yn ogystal â phwysau gweithlu, recriwtio a chyllidebol. Yn rhagair ei adroddiad blynyddol, dywedodd Prif Arolygydd Estyn dros Gymru fod 'brwdfrydedd addysgwyr ar draws y sectorau i wneud cynnydd a goresgyn yr heriau sy'n eu hwynebu yn galonogol, ac mae enghreifftiau o ymarfer sy'n dod i'r amlwg yn cyfiawnhau rhywfaint o optimistiaeth ar gyfer y dyfodol.’

# 2. Gweithredu Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018

2.1. Mae'n ddyddiau cynnar o hyd wrth weithredu ein diwygiadau ADY sy'n newid systemig a diwylliannol mewn ymarfer i nodi a chefnogi dysgwyr ag Anghenion Dysgu Ychwanegol.

2.2. Caiff fframwaith deddfwriaethol ADY ei greu gan Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 (ALNET), Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol Cymru 2021 (y Cod) a'r rheoliadau a wneir o dan y Ddeddf. Drwy'r fframwaith statudol hwn, nod Llywodraeth Cymru yw sicrhau bod pob dysgwr ag ADY yn cael ei gefnogi i oresgyn rhwystrau i ddysgu ac yn gallu cyflawni ei botensial yn llawn.

2.3. Mae'r gwaith o Weithredu ALNET yn y drydedd flwyddyn erbyn hyn, a bydd yn cael ei gwblhau ym mis Medi 2025. Mae dull graddol yn cael ei ddefnyddio i gyflwyno'r system ADY, dros bedair blynedd gyda phlant yn symud o'r system AAA i'r system ADY mewn grwpiau. Dechreuodd pobl ifanc y nodwyd bod ganddynt ADY, fynd i mewn i addysg ôl-16 ar y system ADY ym mis Medi 2023.

2.4. Fe wnaeth Gweinidog y Gymraeg ac Addysg roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Senedd am y cynnydd hyd yma a'r camau i fwrw ymlaen â gweithredu Diwygio ADY mewn datganiad llafar ar 28 Tachwedd 2023.

2.5. Mae awdurdodau lleol, ysgolion a lleoliadau yn gwneud cynnydd cyson i symud dysgwyr i'r system ADY, nodi a chynllunio ar gyfer eu ADY. Bydd datganiad ystadegol cyfrifiad ysgolion 2024 yn cael ei gyhoeddi ym mis Gorffennaf 2024 a bydd yn rhoi cipolwg mwy diweddar ar statws dysgwyr a newidiadau yn y system.

2.6. Mae Llywodraeth Cymru wedi buddsoddi £62 miliwn o refeniw a £40 miliwn o gyfalaf rhwng 2020 a 2024 i gefnogi gweithredu. Mae hyn yn cynnwys adnoddau ychwanegol mewn ysgolion i weithredu'r system ADY ac arwain strategaethau ysgol gyfan i sefydlu addysg gynhwysol.

2.7. Er mwyn cefnogi'r gwaith parhaus o weithredu diwygio ADY, rydym yn parhau i flaenoriaethu ein buddsoddiad yn unol â blynyddoedd blaenorol, gyda chyllideb 2024-25 yn diogelu buddsoddiad o £56.3 miliwn a mwy o gyllid refeniw. Bydd y cyllid hwn yn cael ei ddyrannu'n uniongyrchol i ysgolion a lleoliadau, darpariaeth ôl-16 ac Awdurdodau Lleol.

2.8. Mae'r dystiolaeth a gynhyrchwyd dros y naw mis diwethaf wedi amlygu'r angen i gryfhau cysondeb wrth gymhwyso ALNET a'r Cod. Mae tystiolaeth wedi dangos meysydd yn y system y mae angen eu gwella ac mae Llywodraeth Cymru’n cydweithio â rhanddeiliaid i weithredu a chyd-gynhyrchu atebion.

## 3. Monitro cynnydd ar weithredu ADY

3.1. Mae'r adran hon yn rhoi crynodeb o'r ffynonellau tystiolaeth y mae Llywodraeth Cymru wedi'u comisiynu, gan gynnwys gwerthusiad ffurfiannol pedair blynedd o weithredu'r system ADY a'r defnydd o amrywiaeth o dystiolaeth, gwybodaeth a data rhanddeiliaid i fonitro gweithredu. Mae'r rhain yn cynnwys Grŵp Llywio Cenedlaethol Diwygio ADY, Estyn yn ei rôl fel arolygiaeth addysg a hyfforddiant i Gymru, Tribiwnlys Addysg Cymru (ETW), Arweinwyr Gweithredu ADY Cenedlaethol, Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol Cymru, SNAP Cymru, Cynghrair Anghenion Ychwanegol y Trydydd Sector (TSANA), Cymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru ac ymgysylltu â chynrychiolwyr y sector ac Undebau Llafur.

### *Gwerthusiad*

3.2. Cyhoeddwyd adroddiad cwmpasu gwerthusiad ffurfiannol o'r system ADY ar 15 Rhagfyr 2023. Mae'r adroddiad yn cyflwyno canfyddiadau cam cyntaf y gwerthusiad pedair blynedd, yn cynnwys damcaniaeth newid ar gyfer y diwygiadau, yn crynhoi canfyddiadau o synthesis o dystiolaeth bresennol ar weithredu system ADY, ac yn mynegi'r cynlluniau a'r blaenoriaethau ar gyfer camau nesaf y gwerthusiad.

3.3. Mae'r gwerthusiad ffurfiannol yn asesu effeithiolrwydd gweithredu'r system, gan nodi unrhyw rwystrau neu hwyluswyr i'w gweithredu, ac unrhyw effeithiau cynnar neu ddisgwyliedig y system newydd neu effeithiau sy'n dod i'r amlwg. Bydd adroddiad yn cael ei gyhoeddi ar ddiwedd pob cam o'r gwerthusiad.

3.4. Bydd gwerthusiad o'r Cwricwlwm i Gymru (CiG) yn ystyried effaith CiG ar ddysgwyr ADY hefyd. Mae ymchwil dealltwriaeth gynnar a gyhoeddwyd ym mis Ebrill a mis Medi 2023 yn tynnu sylw at y ffaith bod uwch arweinwyr ysgolion wedi gweld bod y CiG wedi rhoi mwy o gyfle i bersonoli dysgu a theilwra darpariaeth i ganolbwyntio ar gynwysoldeb i bob dysgwr, gan gynnwys y rhai ag ADY.

### *Estyn, arolygiaeth addysg a hyfforddiant i Gymru*

3.5. Ar gais Gweinidog y Gymraeg ac Addysg, adolygodd Estyn gynnydd ysgolion ac Awdurdodau Lleol ar weithredu'r system ADY a chefnogi dysgwyr ag ADY. Amlygodd yr adroddiad thematig enghreifftiau o arferion effeithiol a meysydd pwysig i'w gweithredu gan Awdurdodau Lleol ac ysgolion.

3.6. Fe wnaeth Estyn ganmol brwdfrydedd arferion sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, aliniad â'r CiG a sut mae wedi cryfhau cynllunio sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn a'r berthynas rhwng ysgolion a theuluoedd.

3.7. Nododd Estyn feysydd i’w gwella gan gynnwys cysondeb o ran sicrhau ansawdd ymarfer a darpariaeth i gefnogi cynllunio sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn a datblygu Cynlluniau Datblygu Unigol (CDU). Fe wnaethant nodi hefyd yr angen am ddisgwyliadau cliriach o ran cydbwysedd y cyfrifoldeb rhwng ysgolion ac Awdurdodau Lleol, gan sicrhau bod ysgolion yn gwbl ymwybodol o ddyletswyddau ALNET ac eglurder ynghylch beth yw darpariaeth ddysgu ychwanegol. Mae safbwyntiau gan Dribiwnlys Addysg Cymru yn atgyfnerthu'r angen am benderfyniadau a chyfathrebu tryloyw, gan leihau amrywioldeb a chymhwyso ALNET a'r cod mewn dull anghyson.

3.8. Gofynnodd Llywodraeth Cymru i Estyn archwilio a oedd anghenion dysgwyr yn cael eu diwallu drwy gydol eu harolygiad a'u gweithgareddau thematig. Canfu Estyn fod gan ysgolion, ac yn enwedig Cydlynwyr ADY, ddealltwriaeth gyffredinol sicr o'r ddarpariaeth y maent yn ei gwneud i ddysgwyr a’u bod wedi addasu hyn yn dda fel arfer i ddiwallu eu hanghenion.

3.9. Canfu Estyn hefyd, o'r ysgolion a adolygwyd, fod disgyblion yn derbyn y gefnogaeth sydd ei hangen arnynt, er iddynt weld bod lleoliadau unigol yn dehongli ac yn defnyddio'r ddeddfwriaeth mewn gwahanol ffyrdd.

3.10. Cafodd Awdurdodau Lleol eu cynnull ddechrau mis Hydref 2023 i rannu canfyddiadau Estyn, dealltwriaeth gan Dribiwnlys Addysg Cymru a thueddiadau data cenedlaethol. Ysgrifennodd Gweinidog y Gymraeg ac Addysg at Awdurdodau Lleol ar 16 Hydref 2023 yn gofyn iddynt adolygu'r adroddiad, ystyried yn ofalus a bwrw ymlaen â'r argymhellion a nodwyd ar gyfer Awdurdodau Lleol ac ysgolion yn eu hardal leol.

3.11. Mae ail adolygiad thematig o'r system ADY ar y gweill i adeiladu ar ganfyddiadau blaenorol ac i ystyried gweithredu'r system ADY mewn ysgolion cynradd, uwchradd, ysgolion pob oed a lleoliadau meithrin a ariennir nas cynhelir. Bydd yn adrodd ym mis Rhagfyr ac yn ymdrechu i ddarparu adnodd mwy ymarferol i ysgolion rannu arfer effeithiol, gan eu galluogi i hunanwerthuso a gwella lle bo angen.

***Data ar symud plant o system AAA i system ADY***

3.12. Er bod nifer y dysgwyr y nodwyd bod ganddynt ADY neu AAA wedi lleihau, mae cynnydd cyson i nodi'r angen am Ddarpariaeth Ddysgu Ychwanegol (DDdY) a chyhoeddi Cynlluniau Datblygu Unigol statudol (CDUau). Mae Estyn yn tynnu sylw at y ffaith bod nifer y CDUau a'r datganiadau a gyhoeddwyd yn 2023 yn uwch na nifer y datganiadau a gyhoeddwyd ar gyfer pob un o'r pum mlynedd diwethaf o leiaf.

3.13. Roedd y [cyfrifiad ysgolion blynyddol ar lefel disgyblion diwethaf (PLASC)](#) ym mis Ionawr 2023, a dangosodd bryd hynny fod 10,499 o ddysgwyr â CDU o dan y system ADY newydd. Roedd hyn yn cynrychioli 16.6% o ddysgwyr ag ADY neu AAA. Bydd prif ystadegau PLASC 2024 yn cael eu cyhoeddi ym mis Gorffennaf ac maen nhw'n rhoi cipolwg mwy diweddar o statws dysgwyr a'r newidiadau yn y system.

3.14. Mae data PLASC yn dangos tuedd barhaus ar i lawr yn nifer y dysgwyr ag AAA/ADY. Ym mis Ionawr 2023 roedd 63,089 o ddysgwyr ag ADY neu AAA mewn ysgolion a gynhelir (13.4% o'r holl ddysgwyr), i lawr o 92,688 o ddysgwyr (19.5% o'r holl ddysgwyr). Mae hyn yn ostyngiad o 31.9% (29,599 o ddysgwyr) ers mis Ebrill 2021, ychydig cyn dechrau'r flwyddyn gyntaf o weithredu.

### *Adolygiad Cydlynwyr Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cydlynwyr ADY)*

3.15. Mae rôl Cydlynwyr ADY yn hanfodol i gyflawni'r system ADY, o ran cyfrifoldebau statudol y Cydlynwyr ADY eu hunain ac fel ffynhonnell arweiniad a chefnogaeth i ymarferwyr eraill. Fodd bynnag, nodir heriau yn y dystiolaeth, yn enwedig o ran llwyth gwaith Cydlynwyr ADY, a'r anawsterau a adroddwyd mewn achosion lle nad yw Cydlynwyr ADY yn aelodau o uwch-dimau rheoli ysgolion.

3.16. Yn 2023, mewn ymateb i argymhelliad 6 o bedwerydd adroddiad Corff Adolygu Cyflogau Annibynnol Cymru, comisiynodd Llywodraeth Cymru adolygiad annibynnol o amser digyswllt a chyflogau Cydlynwyr Anghenion Dysgu Ychwanegol. Mae'r adroddiad yn darparu nifer o argymhellion ac wedi cael ei rannu gyda Chorff Adolygu Cyflogau Annibynnol Cymru.

## Tystiolaeth thematig

3.17. Isod mae tystiolaeth sy'n gysylltiedig ag amcanion allweddol y diwygiad.

### *Blynyddoedd cynnar*

3.18. Nododd adroddiad blynyddol Estyn fod lleoliadau meithrin a ariennir nas cynhelir yn adnabod plant a allai fod ag ADY yn gywir, gyda systemau effeithiol i'w cefnogi nhw a'u teuluoedd. Roedd llawer o ymarferwyr yn gwneud defnydd effeithiol o gymorth gan yr Awdurdod Lleol.

3.19. Canfu Estyn fod arweinwyr wedi gwneud defnydd effeithiol o gyllid yn y rhan fwyaf o leoliadau i wella'r ddarpariaeth ar gyfer dysgu a datblygiad plant. Cafodd y defnydd o Grant Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a grantiau eraill effaith gadarnhaol ar sgiliau corfforol, cymdeithasol a chyfathrebu plant. Roedd ambell leoliad wedi rhoi cefnogaeth ddefnyddiol hefyd i'r dysgwyr hynny ag anghenion ychwanegol, er enghraifft trwy ddarparu byrddau gwyn synhwyraidd i'w helpu i ddatblygu sgiliau gwneud marciau yn gynnar.

3.20. Fe wnaeth y rhan fwyaf o leoliadau barhau i fod â chysylltiadau cryf â rhieni a gofalwyr, gan ddarparu gwybodaeth werthfawr iddynt gefnogi dysgu eu plant gartref a deall y cynnydd yr oedd eu plentyn yn ei wneud yn y lleoliad.

3.21. Mae'r Awdurdodau Lleol wedi adrodd cynnydd yn nifer y dysgwyr ag anghenion cymhleth. Nodwyd hyn ar draws pob grŵp oedran, ond mae hyn

wedi bod yn destun pryder arbennig yn y blynyddoedd cynnar (0-7) mewn perthynas â lleferydd, iaith a chyfathrebu (SLC), ac yn enwedig cyfathrebu cymdeithasol.

3.22. Bydd cynnydd ar weithredu ADY yn y blynyddoedd cynnar yn rhan allweddol o adolygiad thematig ADY nesaf Estyn. Yn y cyfamser, mae Awdurdodau Lleol yn adrodd bod angen mwy o gymorth ar gyfer gofal plant craidd Dechrau'n Deg a gofal plant ehangu Dechrau'n Deg er mwyn galluogi pob plentyn dwy oed i gael mynediad i leoliadau gofal plant. Ar hyn o bryd mae'r angen hwn yn cael ei ddiwallu gan y Grant Plant a Chymunedau ar gyfer plant dwy oed.

### *Gweithredu ôl-16*

3.23. Mae'r Arweinydd Gweithredu Cenedlaethol Ôl-16 yn adrodd bod Sefydliadau Addysg Bellach wedi'u paratoi'n dda wrth i'r broses o weithredu ôl-16 ddechrau ym mis Medi 2023. Er, mae tystiolaeth o brosesau pontio effeithiol ar gyfer trosglwyddo dysgwyr a rhannu gwybodaeth rhwng ysgolion a sefydliadau addysg bellach yn anghyson.

3.24. Mae timau ADY wedi addasu i'w dyletswyddau newydd ac mae CDUau wedi'u diweddaru i adlewyrchu deilliannau a chefnogaeth fwy priodol o fewn addysg a hyfforddiant ôl-16. Mae llawer iawn o waith i'w wneud o hyd er mwyn sicrhau profiad dysgwyr rhwydd a llwyddiannus yn ystod y cyfnod pontio o'r ysgol i'r coleg.

### *Cyfranogiad plant a phobl ifanc*

3.25. Mae ALNET yn ei gwneud yn ofynnol i ystyried barn dysgwyr bob amser fel rhan o'r broses gynllunio, ynghyd â barn eu rhieni/gofalwyr. Mae Estyn yn adrodd bod consensws gan ysgolion bod ymarfer sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn (PCP) yn dod â gwelliant sylweddol ac angenrheidiol i gefnogi dysgwyr ag ADY a'u teuluoedd. O ganlyniad, mae'r berthynas rhwng ysgolion a rhieni wedi cael ei chryfhau. Mae gan gydlynwyr anghenion dysgu ychwanegol mewn ysgolion ddealltwriaeth dda o'r gofynion newydd ac maen nhw'n gadarnhaol am y dull PCP.

3.26. Mae yna anghysondebau o hyd yn y broses gyffredinol o sicrhau ansawdd ar gyfer PCP, ac er gwaethaf buddion amlwg y dull PCP, mae llawer o ddarparwyr sy'n cymryd rhan wedi mynegi pryderon am y llwyth gwaith ychwanegol y mae'n ei olygu.

### *Eiriolaeth a chefnogaeth*

3.27. Mae gan Awdurdodau Lleol gyfrifoldeb i sicrhau bod gan rieni fynediad at wybodaeth a chyngor diduedd ynghylch darpariaeth AAA/ADY ac ynghylch trefnu gwasanaethau datrys anghydfod ac eirioli. Mae SNAP Cymru’n darparu cefnogaeth ddiduedd i blant a phobl ifanc, rhieni a gwasanaethau datrys anghytundebau annibynnol i'r rhan fwyaf o Awdurdodau Lleol yng Nghymru. Mae rhai yn darparu gwasanaethau mewnol diduedd.

3.28. Mae Estyn a Thribiwnlys Addysg Cymru (ETW) yn adrodd ar yr heriau sy'n wynebu teuluoedd o ganlyniad i dryloywder Awdurdodau Lleol ynghylch eu penderfyniadau. Mae hyn yn golygu nad yw nifer o deuluoedd yn deall y rhesymau y tu ôl i benderfyniad yr Awdurdod Lleol ynghylch plentyn neu berson ifanc sydd ag ADY. Maen nhw'n rhannu hefyd bod yr wybodaeth a ddarperir gan ysgolion ac Awdurdodau Lleol mewn perthynas ag eiriolaeth, cyfeillion achos a gwasanaethau datrys anghydfod yn wan ac o ganlyniad, efallai na fydd teuluoedd mor ymwybodol ag y dylent fod o'u hawliau i apelio.

3.29. Mae ETW yn mynegi cynnydd hefyd yn nifer yr hawliadau gwahaniaethu ar sail anabledd sy'n cael eu cofrestru ac yn awgrymu bod hyn o ganlyniad i eglurder ynghylch y penderfyniad a wnaed gan Awdurdodau Lleol a dryswch ynghylch pa gymorth y dylai plentyn ei gael yn yr ysgol.

***System ddwyieithog***

3.30. Mae'r system ADY yn cefnogi uchelgeisiau [Strategaeth Cymraeg 2050] i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg, a chefnogi'r seilwaith i gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Fodd bynnag, mae darparwyr a theuluoedd cyfrwng Cymraeg yn parhau i fynegi pryderon ynghylch nifer y gweithlu, asesiadau ac adnoddau Cymraeg sydd ar gael i gefnogi'r broses o adnabod Anghenion Dysgu Ychwanegol a darparu ar eu cyfer.

3.31. Mae cyhoeddiadau gan Estyn, Comisiynydd Plant Cymru a Chomisiynydd y Gymraeg yn adrodd bod rhai Awdurdodau Lleol wedi gweld bod recriwtio staff sy'n siarad Cymraeg gyda'r sgiliau arbenigol perthnasol yn anodd. Mae hyn, ochr yn ochr â diffyg gwasanaethau arbenigol, deunyddiau asesu ac ymyriadau sydd ar gael yn y Gymraeg yn heriau allweddol i'r sector.

3.32. Mae Awdurdodau Lleol wedi nodi yn eu Cynlluniau Strategol 10 mlynedd Cymraeg mewn Addysg (WESPs) sut y byddant yn cefnogi twf y gweithlu ac yn gwella'r ddarpariaeth Gymraeg i ddysgwyr ag ADY. Yn eu hadroddiadau, mae pob Awdurdod Lleol wedi dangos mwy o ffocws ar ddarpariaeth ADY cyfrwng Cymraeg, o ganlyniad i'w rhwymedigaethau a63 o dan ALNET i adolygu'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg ar gyfer dysgwyr ag ADY. Mae pob WESP wedi'i gymeradwyo a'i weithredu ers mis Medi 2022.

3.33. Mae pwysigrwydd cael nifer digonol o athrawon, gweithwyr cymorth ac ymarferwyr eraill sy'n gallu gweithio trwy gyfrwng y Gymraeg i gefnogi dysgwyr ag ADY yn cael ei gydnabod yng Nghynllun y Gweithlu Cymraeg mewn Addysg. Mae'n cynnwys camau i ddatblygu gallu ac arbenigedd o fewn y gweithlu i gefnogi dysgwyr ag ADY yn y sector cyfrwng Cymraeg.

***Cydweithio a mewnbwn amlasiantaethol***

3.34. Mae'r system ADY yn annog gwell cydweithredu a phrosesau gwell o rannu gwybodaeth rhwng asiantaethau. Mae'r ymdrech gydweithredol hon yn hollbwysig er mwyn adnabod anghenion yn gynnar a sicrhau bod cymorth priodol yn cael ei ddarparu, gan alluogi plant a phobl ifanc i gyflawni deilliannau cadarnhaol.

3.35. O dan y System ADY, bydd Awdurdodau Lleol yn gofyn am gyngor a chymorth gan weithwyr iechyd proffesiynol i ystyried a oes triniaeth neu wasanaeth perthnasol sy'n debygol o fod o fudd wrth fynd i'r afael ag ADY y dysgwr. Pan fydd triniaeth neu wasanaeth perthnasol wedi'i nodi, bydd yn cael ei gynnwys fel DDdY o fewn y CDU.

3.36. Mae adroddiad thematig Estyn ac adroddiad cwmpasu Arad yn tynnu sylw at anawsterau wrth sicrhau presenoldeb gweithiwr iechyd proffesiynol mewn cyfarfodydd adolygu CDU, neu os nad yw'n bresennol, derbyn adroddiadau ysgrifenedig i gefnogi'r drafodaeth a hysbysu'r DDdY. Mae dehongliadau amrywiol hefyd ynghylch rolau a chyfrifoldebau wrth gyfrannu at y broses CDU, diogelu a hyrwyddo iechyd a lles plant ag angen meddygol. Yn ogystal ag amseroedd aros cyffredinol ar gyfer asesu a mynediad at wasanaethau arbenigol.

3.37. Ni ddylai amseroedd aros hir ar gyfer rhai asesiadau a diagnosis o yn y GIG olygu bod plant a phobl ifanc ag ADY yn cael eu gadael heb CDUau. Mae capasiti ymarferwyr iechyd ac amseroedd aros ar gyfer diagnosis yn broblem barhaus i Fyrddau Iechyd. Mae'n bwysig bod partneriaid darparu mewn ysgolion, Awdurdodau Lleol a byrddau iechyd lleol yn mabwysiadu'r model cymdeithasol o anabledd. Gellir mabwysiadu mesurau i leihau rhwystrau i ddysgu a dylid gwneud hyn tra bod asesiadau a thriniaethau meddygol ar y gweill.

3.38. Mae angen ymdrech unedig i alinio disgwyliadau rhwng Awdurdodau Lleol a byrddau iechyd. Y nod yw sicrhau cydweithredu rhyngbroffesiynol effeithiol ymhlith cyrff sy'n atebol ar y cyd ym meysydd addysg ac iechyd.

## 4. Trefniadau cymorth

### *Cymorth strategol*

4.1. Mae Grŵp Llywio Cenedlaethol Diwygio ADY yn dwyn partneriaid a rhanddeiliaid allweddol ynghyd i ddarparu cyfeiriad, cyngor a chymorth strategol. Mae hyn yn llywio'r broses o weithredu, monitro a gwella a gwerthuso'n barhaus y broses o weithredu ALNET.

4.2. Mae swyddogion a'r tri arweinydd Gweithredu ADY Cenedlaethol ar gyfer Ôl-16, ac arweinydd strategol arbenigol a'r Gymraeg yn gweithredu fel y cyfrwng rhwng y sector a Llywodraeth Cymru. Maen nhw'n darparu her a chefnogaeth i Awdurdodau Lleol fel y gellir rhannu dysgu ac ymarfer effeithiol ledled Cymru.

4.3. Wrth i'r rhaglen Gweithredu ADY symud i'w chamau olaf, mae'r ddeialog weithredol gyda phartneriaid cyflawni allweddol yn cael ei chryfhau i greu llif gwybodaeth dwyffordd, i gefnogi a herio'r broses o weithredu ac ailadrodd cyfrifoldebau statudol a bwriad cyfreithiol/polisïau.

4.4. Mae swyddogion yn parhau i gydweithio â phartneriaid allweddol i archwilio problemau a gyflwynir yn y system a'r cam gweithredu. Mae hyn yn cynnwys gweithdai i hwyluso dealltwriaeth gyffredin o dueddiadau cenedlaethol a thystiolaeth sy'n dod i'r amlwg o achosion Tribiwnlys yn Nhribiwnlys Addysg Cymru.

4.5. Mae Llywodraeth Cymru wedi cynhyrchu casgliad o ganllawiau anstatudol sydd ar gael ar dudalennau gwe Llywodraeth Cymru gan gynnwys: Canllawiau Plant, Pobl Ifanc a Rhieni, taflenni ffeithiau, adnoddau hawdd eu deall ac adnoddau rhyngweithiol. Rydym yn adolygu'r canllawiau anstatudol ar gyfer rhieni a gofalwyr gyda phlant a phobl ifanc ag ADY.

### *Cydweithrediad iechyd ac addysg*

4.6. Ym mis Rhagfyr 2023, sefydlodd Llywodraeth Cymru Weithgor Cydweithio Amlasiantaethol ADY. Nod y grŵp yw gwella cydweithio a datblygu dull cyson o ymdrin â materion sy'n dod i'r amlwg sy'n gysylltiedig â'r rhyngwyneb rhwng addysg ac iechyd o dan y system ADY.

4.7. Mae'r grŵp yn cynnwys cynrychiolaeth o Swyddogion Arweiniol Clinigol Dynodedig Addysg (DECLO), Awdurdodau Lleol, y trydydd sector a Llywodraeth Cymru i ddatblygu atebion ac argymell camau gweithredu ar broblemau sy'n dod i'r amlwg sy'n deillio o weithredu'r diwygiadau ADY. Yn benodol:

- gwella dealltwriaeth o adran 20 (*Darpariaeth dysgu ychwanegol: Byrddau Iechyd Lleol ac Ymddiriedolaeth y GIG*) ac adran 65 (*Dyletswyddau i ddarparu gwybodaeth a chymorth* arall) ALNET
- rheoli'r berthynas a'r disgwyliadau a datblygu dulliau a gytunwyd o ran y rôl sydd gan weithwyr iechyd proffesiynol wrth ddatblygu cynlluniau datblygu unigol (CDUau)
- adolygu'r ffordd y mae Cynlluniau Gofal Iechyd Unigol a Chynlluniau Datblygu Unigol yn gweithio gyda'i gilydd i ddarparu cymorth i ddysgwyr mewn ysgolion
- datblygu Dangosyddion Perfformiad Allweddol (DPA) newydd, yn seiliedig ar ddyletswyddau byrddau iechyd lleol o dan ALNET, i gasglu data gwerthfawr, gwella gwaith monitro a gwelliant ledled Cymru.

### *Cryfhau gwaith gwella ysgolion*

4.8. Mae ADY yn flaenoriaeth allweddol yn yr adolygiad o bartneriaid addysg a threfniadau gwella ysgolion. Rydym yn symud i ail gam y gwaith hwn sy'n canolbwyntio ar archwilio'r ffordd orau o gefnogi gwaith gwella ysgolion ar bob

lefel o'r system addysg. Yn sail i'n holl waith mae cefnogaeth gref ar gyfer cydweithredu ar draws ysgolion, clystyrau ac Awdurdodau Lleol.

### *Dysgu proffesiynol*

4.9. Mae safonau proffesiynol ar gyfer addysgu ac arweinyddiaeth yn nodi'n glir y cyfrifoldeb ar bob athro ac arweinydd i sicrhau bod anghenion pob dysgwr yn cael eu diwallu, mae gan bob aelod staff sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc ag ADY gyfrifoldeb dros sicrhau bod anghenion eu dysgwyr yn cael eu nodi ac y darperir ar eu cyfer.

4.10. Mae datblygiadau diweddar yn cynnwys canllawiau gwerthuso statudol cryfach, meini prawf achredu ADY wedi'u hatgyfnerthu ar gyfer hyfforddiant cychwynnol athrawon, cynlluniau ar gyfer Dysgu Proffesiynol niwrowahaniaeth a Maes Dysgu Proffesiynol newydd ar Hwb i wella hygyrchedd i Ddysgu Proffesiynol, gan gynnwys darpariaeth ADY.

4.11. Mewn cydweithrediad â sefydliadau'r trydydd sector, datblygwyd cyfres o ddeunyddiau dysgu electronig ac mae ar gael ar blatfform Dysgu Digidol Cenedlaethol Llywodraeth Cymru (Hwb) gan gynnwys Llwybr Dysgu Proffesiynol Cenedlaethol ar gyfer ADY, hyfforddiant ar-lein i ymarferwyr mewn rolau statudol, dysgu proffesiynol i benaethiaid a deall gwahanol fathau o anawsterau dysgu neu anableddau.

4.12. Gall ymarferwyr addysg ddewis gwella eu gwybodaeth broffesiynol am ADY hefyd trwy ddilyn y llwybr ADY ar y cwrs MA Cenedlaethol (Meistr) mewn Addysg (Cymru). Mae hyfforddiant ar y system ADY ar gael i'r rhai sydd mewn rolau arweinyddiaeth statudol ac uwch.

4.13. Mae Llywodraeth Cymru'n parhau i fuddsoddi £6.2 miliwn i hyfforddi 10 o fyfyrwyr newydd Doethuriaeth mewn Seicoleg Addysgol (DEdPsy) y flwyddyn am dair blynedd rhwng 2022 a 2025, gyda chytundeb cysylltiedig newydd yn sicrhau cyflogaeth barhaus i raddedigion yng Nghymru.

4.14. Fel rhan o'r ymrwymiad ehangach i sicrhau bod pob ymarferydd yn cael mynediad at Ddysgu Proffesiynol cyson o ansawdd uchel trwy gydol ei yrfa, byddwn yn parhau i adolygu Dysgu Proffesiynol ADY wrth i'r agenda ddiwygio fynd yn ei blaen.

### *Galluogi cyllid*

4.15. Mae cyllid gweithredu wedi'i ddefnyddio trwy Grant Diwygio Addysg Awdurdodau Lleol (LAEG) i gefnogi'r broses o weithredu, gan gydnabod pwysau gweithredu wrth reoli system AAA gyfochrog, gyda £62 miliwn a mwy o gyllid refeniw wedi'i fuddsoddi rhwng 2020 a 2024. Mae cyllideb 2024-25 yn diogelu ymhellach ac yn parhau i flaenoriaethu buddsoddiad o £56.3 miliwn a mwy ar gyfer diwygio ADY ac yn rhoi hwb i adnoddau i gefnogi dysgwyr ADY ar draws dysgu cyn 16 ac ôl-16.

4.16. Fel y nodwyd yn ein [cynigion cyllideb ar gyfer 2024-25] ym mis Rhagfyr, fe wnaethom ddatblygu dull symlach a mwy tryloyw o ariannu grant addysg Awdurdodau Lleol, gan flaenoriaethu cyllid i ysgolion i gynyddu dros dro gapasiti ac amser ysgolion a lleoliadau i ddarparu dull ysgol/lleoliadau cyfan o ddiwallu anghenion dysgwyr ADY. Mae hyn yn cynnwys disgwyliadau i Awdurdodau Lleol ddatblygu prosiectau cydweithio a phartneriaeth i baratoi ar gyfer pontio a gwella darpariaeth ddysgu ychwanegol ôl-16 yn lleol.

4.17. Mae grant pellach i Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn 23-24 wedi cyflwyno ymchwil ar ddarpariaeth addysg ôl-16 ledled y Gogledd i baratoi ar gyfer trosglwyddo cyfrifoldeb am ddarpariaeth addysg ôl-16 arbenigol, a £700k o gyllid i sefydliadau addysg bellach i baratoi ar gyfer pontio dysgwyr.

***Ystafelloedd dosbarth, cyfleusterau a thechnoleg***

4.18. Mae Llywodraeth Cymru wedi gwneud buddsoddiad o £2.646 biliwn yn yr ystad ysgolion ledled Cymru drwy ei Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy ers 2012. Ar hyn o bryd, mae'r rhaglen yn symud i'w thrydydd cam, rhaglen dreigl naw mlynedd a gyflwynir mewn cydweithrediad â phartneriaid darparu mewn Awdurdodau Lleol a sefydliadau addysg bellach. Yn ogystal, buddsoddwyd £40 miliwn dros y ddwy flynedd ddiwethaf i gefnogi'r gwaith o wella neu greu gofodau a chyfleusterau cynhwysol ar gyfer dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol.

4.19. Mae hyn wedi cynnwys addasiadau ac ailwampio er mwyn sicrhau darpariaeth ar gyfer dysgu cyfrwng Cymraeg, uwchraddio canolfannau adnoddau ac offer synhwyraidd, creu ardaloedd synhwyraidd a darganfod, ardaloedd ychwanegol o fewn ysgolion i ddarparu darpariaeth Awtistiaeth arbenigol ar gyfer disgyblion oedran uwchradd, ehangu darpariaeth gymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol ar gyfer disgyblion oedran cynradd, yn enwedig y rhai â chyflyrau niwroamrywiol.

***Y Blynyddoedd Cynnar***

4.20. Drwy ein Rhaglen Trawsnewid Integreiddio'r Blynyddoedd Cynnar, mae swyddogion braenaru wedi bod yn treialu ac yn profi gwahanol fodelau a dulliau cyflawni i archwilio sut i ddarparu gwasanaethau'r blynyddoedd cynnar mewn ffordd fwy systematig, gan sicrhau bod plant a'u teuluoedd yn gallu cael gafael ar y cymorth sydd ei angen arnynt ar yr adeg gywir, yn y lle cywir, ac yn y ffordd gywir. Mae swyddogion braenaru wedi treialu darpariaeth hyfforddiant ac adnoddau i weithlu'r blynyddoedd cynnar i gefnogi anghenion dysgu ychwanegol a rhai sy'n dod i'r amlwg, parodrwydd ar gyfer ALNET, asesu a darparu cymorth i unigolion sy'n cyflwyno ar y llwybr diagnostig niwroddatblygiad, a chryfhau cefnogaeth i rieni sydd â babanod/plant ag ADY.

4.21. Mae ein Cynllun Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar a gyhoeddwyd ar 15 Mawrth yn dwyn ynghyd, am y tro cyntaf, ein holl bolisïau a rhaglenni sy'n ymwneud â chwarae, dysgu a gofal plentyndod cynnar er mwyn datblygu a chyflwyno dull cyson o feithrin, dysgu a datblygu, trwy ddarparu cyfleoedd gofal plant ac addysg cynhwysol, sy'n seiliedig ar chwarae ac o ansawdd uchel i bob baban a phlentyn ifanc 0-5 oed ac er mwyn sicrhau proses ddi-dor o bontio rhwng lleoliadau ac ysgolion. Mae Cynnig Gofal Plant Cymru wedi'i ategu gan Grant Cymorth Ychwanegol gwerth £2 filiwn i alluogi mynediad at ofal plant ac ymateb i anghenion plant ag anghenion ychwanegol.

4.22. Anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu yw'r math mwyaf cyffredin o ADY ymhlith plant yng Nghymru, felly rydym yn blaenoriaethu datblygiad iaith, lleferydd a chyfathrebu plant trwy fuddsoddi yn Siarad Gyda Fi, gyda buddsoddiad o £1.5 miliwn yn y 'Prosiect Pengwin'. Mae hwn yn offeryn gwyliadwriaeth SLC dwyieithog pwrpasol ar gyfer Cymru a fydd yn cefnogi'r gwaith adnabod a chefnogi cynnar, ac uwchsgilio gweithlu'r blynyddoedd cynnar yn unol â llwybr hyfforddi iaith, lleferydd a chyfathrebu Cymru gyfan.

### *Ymarfer cynhwysol*

4.23. Mae'r adran 'Galluogi dysgu' o ganllawiau CiG yn cefnogi ymarferwyr i gynllunio, dylunio a gweithredu cwricwlwm cynhwysol sy'n briodol yn addysgegol er mwyn i bob dysgwr symud ymlaen, ar ei gyflymder ei hun, tuag at wireddu pedwar diben y cwricwlwm. Yn sylfaenol i hyn mae sicrhau bod galluogi oedolion, profiadau apelgar ac amgylcheddau effeithiol ar waith, a all gefnogi dysgwyr ADY.

4.24. Blaenoriaeth dros y flwyddyn nesaf yw rhannu arferion effeithiol sy'n dod i'r amlwg. Mae cyfres o astudiaethau achos yn cael eu datblygu gyda'r sector sy'n cynnwys cyfweliadau gydag ymarferwyr a rhieni i arddangos ymarfer effeithiol wrth gynllunio ar gyfer dysgwyr ADY a'u cefnogi.

4.25. Yn ddiweddar, fe wnaeth Sgwrs Rhwydwaith Cenedlaethol ar-lein greu lle i ymarferwyr fyfyrio ar sut gall y CiG gefnogi tegwch a chynhwysiant, goresgyn rhwystrau a all gyfyngu ar gynnydd dysgwyr, a sicrhau bod addysg pob dysgwr yn cael ei hystyried yn un sydd â phwysigrwydd cyfartal drwy gydol y continwwm 3-16. Roedd hyn yn cyd-fynd â rhyddhau cyfres o astudiaethau achos yn rhannu arferion effeithiol ar draws lleoliadau amrywiol.

4.26. Bydd adolygiad thematig nesaf Estyn yn canolbwyntio ar ddarparu adnodd ymarferol i ysgolion rannu arferion effeithiol i'w galluogi i hunanwerthuso.

### *Darpariaeth ddwyieithog*

4.27. Er mwyn cryfhau cymorth yn y Gymraeg a darpariaeth ddysgu ychwanegol, penodwyd Arweinydd Gweithredu Cenedlaethol y Gymraeg i gynghori ar fylchau yn y ddarpariaeth a'r adnoddau presennol, hwyluso digwyddiadau i rannu arferion effeithiol ar lefel Awdurdod Lleol, ysgol/lleoliad ac ar lefel amlasiantaethol a darparu cefnogaeth i'r sector. Mae problemau sy'n ymwneud â darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn cael eu hystyried wrth baratoi ar

gyfer adolygiad pum mlynedd, ac rydym yn cydweithio â'r sector trwy Grŵp Rhanddeiliaid Cymraeg ADY.

4.28. Trwy'r cwmni adnoddau addysgol dwyieithog, 'Adnodd', bydd adnoddau cyfrwng Cymraeg newydd yn cefnogi dysgu ac addysgu o dan y CiG ac yn nodi a chomisiynu adnoddau i gefnogi dysgwyr ADY yn well. Rydym yn y camau cynnar o weithio gyda phartneriaid hefyd i ddatblygu offer asesu penodol yn y Gymraeg, ac mae adolygiad o ymyriadau ar sail tystiolaeth ar gyfer iaith, lleferydd a chyfathrebu yn y blynyddoedd cynnar yn cefnogi opsiynau i sicrhau bod ymyriadau ar gael yn Gymraeg.

***Gweithredu ôl-16***

4.29. Mae'r arweinydd gweithredu Cenedlaethol Addysg Bellach yn darparu her a chefnogaeth strategol i bob Sefydliad Addysg Bellach ledled Cymru sy'n cynnwys ymgysylltu ag Awdurdodau Lleol fel y gellir rhannu arferion effeithiol. Mae'r arweinydd wedi trefnu a hwyluso amrywiaeth eang o grwpiau a digwyddiadau, yn lleol ac yn genedlaethol, i nodi a monitro heriau wrth weithio i'w gwella.

4.30. Bydd sefydlu'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil (CTER) yn darparu cyfleoedd ychwanegol i sicrhau ac ariannu cyfleusterau ar gyfer addysg bellach a hyfforddiant, ac i sicrhau cyfleusterau cyffredinol, priodol a rhesymol i ddysgwyr ag ADY o ddechrau 2025. Sefydlwyd y Comisiwn fel y corff rheoleiddio sy'n gyfrifol am ariannu, goruchwylio a rheoleiddio addysg drydyddol ac ymchwil yng Nghymru.

4.31. Mae'r cynnydd ym mhenodiadau swyddogion ôl-16 awdurdodau lleol wedi cyflymu gwaith partneriaeth rhwng Awdurdodau Lleol a Sefydliadau Addysg Bellach, ac mae cytundebau lleol yn dechrau dod i'r amlwg. Mae Awdurdodau Lleol yn ymgysylltu hefyd â'u dyletswyddau newydd ar gyfer cefnogi lleoliadau coleg arbenigol annibynnol (ISPI). Mae'r Grŵp ADY Ôl-16 awdurdodau lleol cenedlaethol sy'n cyfarfod unwaith y mis yn hyrwyddo dull cyson mewn perthynas â phenderfyniadau a wneir am geisiadau ISPI.

4.32. Ar gyfer pobl ifanc sydd ag ADY cymhleth iawn ac a allai fod angen mynychu sefydliadau ôl-16 arbennig annibynnol ('ISPIs'), bydd y cyfrifoldeb dros sicrhau ac ariannu darpariaeth arbenigol yn trosglwyddo i Awdurdodau Lleol ar 31 Awst 2025. Mae trefniadau interim a roddwyd ar waith ar gyfer 2023-25 wedi galluogi Awdurdodau Lleol i wneud penderfyniadau ar ddarpariaeth arbenigol i bobl ifanc yn ystod y cyfnod hwn. Cynigir y bydd y gyllideb ar gyfer lleoliadau ISPI yn cael ei throsglwyddo i Awdurdodau Lleol yn ystod blwyddyn academaidd 24/25, cyn mis Awst 2025, er bod hyn yn dal i gael ei ystyried.

***Gwybodaeth/Cyfranogiad plant, pobl ifanc a'u teuluoedd***

4.33. Yn ddiweddar, ariannodd Llywodraeth Cymru SNAP Cymru i gynnal cyfres o ddigwyddiadau rhieni a gofalwyr am ddim i deuluoedd plant anabl a'r rhai ag ADY 0-25 oed. Fe wnaeth bron i 300 o bobl gymryd rhan mewn 14 sesiwn a

gynhaliwyd mewn lleoliadau lleol ledled Cymru ac ar-lein. Roedd y sesiynau'n cynnig cyfleoedd i rieni a gofalwyr a oedd yn bresennol ddysgu mwy am y broses o weithredu'r system ADY yng Nghymru; rhannu eu profiadau o'r diwygiadau ADY â Llywodraeth Cymru, a chael mynediad at gymorth a chyngor annibynnol gan dîm SNAP Cymru. Roedd y digwyddiadau wyneb yn wyneb yn annog rhieni a gofalwyr i gyfarfod a chysylltu â theuluoedd eraill sydd â phrofiad byw cyffredin o ADY hefyd.

4.34. Mae Llywodraeth Cymru’n cynhyrchu canllawiau anstatudol i rieni a gofalwyr hefyd ar y system gymorth ar gyfer plant a phobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol. Rydym wedi comisiynu Plant yng Nghymru hefyd i sefydlu rhaglen Cyfranogiad ADY Plant a Phobl Ifanc ar draws amrywiaeth o leoliadau yng Nghymru, er mwyn sicrhau bod llais a hawliau plant wrth wraidd y gwaith o gynllunio a datblygu polisïau.

## 5. Cyflwyno’r Cwricwlwm i Gymru

5.1. Mae ysgolion a lleoliadau ledled Cymru’n parhau i gyflwyno'r CIG. Yn y flwyddyn academaidd hon, mae dysgwyr hyd at ac yn cynnwys Blwyddyn 8 yn dysgu o dan y CiG bellach.

5.2. Mae cyfleoedd datblygu ar y cyd gan gynnwys sgyrsiau Rhwydwaith Cenedlaethol a'r grŵp polisi ymarferwyr yn galluogi mewnbwn uniongyrchol rheolaidd gan y proffesiwn ar ddatblygiadau a heriau parhaus. Yn yr un modd, roedd yr adolygiad o'r haen ganol yn nodi'n glir bod asesu, cynllunio'r cwricwlwm a dilyniant dysgwyr yn parhau i fod yn brif flaenoriaethau i benaethiaid. Ochr yn ochr ag ymchwil, adroddiadau gan wasanaethau gwella ysgolion, Estyn a gwaith comisiwn fel y prosiect Camau i'r Dyfodol, mae hyn yn darparu sylfaen gadarn ar gyfer datblygu polisi a chymorth parhaus i ysgolion.

5.3. O ran cynnydd, gwyddom fod llawer o ysgolion wedi datblygu gweledigaeth glir o ran y CiG sy'n berthnasol i'w cyd-destun. Yn gyffredinol, mae arweinwyr yn rhannu'r weledigaeth hon yn briodol â'u staff, dysgwyr, rhieni a rhanddeiliaid eraill. Mae ymarferwyr yn amlinellu'n rheolaidd y newidiadau yn eu ffordd o feddwl a'u hymarfer o dan y CiG. Mae hyn yn cynnwys sut maen nhw'n parhau i ddatblygu profiadau dysgu dilys gan ddefnyddio'r datganiadau gorfodol o'r hyn sy'n bwysig i ddatblygu dealltwriaeth gysyniadol a chefnogi dysgwyr i ddod yn fwy effeithiol.

5.4. Er bod gweithio mewn clystyrau yn edrych yn wahanol ar draws gwahanol ysgolion a lleoliadau, mae ymarferwyr yn parhau i nodi pwysigrwydd cydweithio i ddatblygu dealltwriaeth gyffredin o gynnydd, a phwysigrwydd meithrin perthynas gref rhwng ysgolion i hwyluso deialog broffesiynol. Datblygu dealltwriaeth o gynnydd a beth yn union yw natur cynnydd effeithiol dysgwyr yw'r agwedd ar ddylunio'r cwricwlwm (ochr yn ochr â dulliau asesu) sydd fwyaf heriol i ysgolion ar hyn o bryd.

5.5. Mae llawer o ymarferwyr yn cymryd perchnogaeth o waith cynllunio a chyflwyno'r cwricwlwm, gan groesawu'r ymreolaeth a'r cyfleoedd a gyflwynir. Fodd bynnag, mae ansicrwydd ymhlith rhai athrawon ynghylch symud oddi wrth arferion a dulliau sydd wedi hen ennill eu plwyf, yn enwedig mewn perthynas ag asesu.

5.6. Mae heriau o ran gallu dyrannu digon o amser ac adnoddau i wireddu'r cwricwlwm yn broblem i ysgolion, fel y mae ymgysylltu'n llawn â'r cynnig dysgu proffesiynol a chael mynediad ato. Mae pryderon ynghylch effaith presenoldeb ar gynnydd dysgwyr ac, os nad eir i'r afael â'r mater, ar ddeilliannau ac uchelgeisiau tymor hwy y CiG.

**Llythrennedd a rhifedd**

5.7. Ym mis Tachwedd 2023, cyhoeddodd y Gweinidog Addysg a'r Gymraeg Ddatganiad Ysgrifenedig ar waith sydd ar y gweill gyda'r bwriad o godi safonau llythrennedd a rhifedd i bob dysgwr ledled Cymru. Cyhoeddwyd bod pecyn cymorth llefaredd a darllen diwygiedig wedi'i gyhoeddi gan wella'r pecyn o gymorth sydd ar gael i ysgolion a lleoliadau i ddatblygu ac ymgorffori eu dull ysgol gyfan eu hunain o gyflawni safonau uchel o lefaredd a darllen. Mae'r pecyn cymorth yn pwysleisio pwysigrwydd cymuned gyfan yr ysgol yn gweithio gyda'i gilydd mewn ffordd gydlynol, gyson a pharhaus lle mae siarad, gwrando a darllen yn rhan o bob agwedd ar fywyd yr ysgol neu'r lleoliad.

5.8. Rydym yn ariannu prosiectau sy'n cael eu rhedeg gan Booktrust Cymru a Chyngor Llyfrau Cymru i hyrwyddo llythrennedd a darllen er pleser a darparu cymorth i ddatblygu adnoddau a chymorth wedi'i dargedu i ysgolion ar ddysgu ac addysgu sgiliau llythrennedd. Rydym yn parhau i weithio gyda'r proffesiwn i gwmpasu a datblygu cefnogaeth bellach ar gyfer llythrennedd, a gwyddom ei fod yn borth hanfodol ar gyfer cyrchu'r cwricwlwm yn ei gyfanrwydd.

5.9. Yn yr un modd, cyhoeddwyd y cynllun Mathemateg a rhifedd hefyd yn y datganiad sy'n nodi camau gweithredu Llywodraeth Cymru i gefnogi'r sector i sicrhau dysgu mathemateg a rhifedd mewn ffordd ystyrlon.

5.10. Mae gweithredoedd y cynllun, sy'n cynnwys creu cynnig Dysgu Proffesiynol cenedlaethol ar gyfer mathemateg a rhifedd, yn cael eu datblygu ar y cyd ag ymarferwyr a phartneriaid gwella addysg, yn ogystal â chael eu cefnogi gan amrywiaeth o arbenigwyr sy'n arbenigo mewn mathemateg ac addysgu mathemateg:

- **Grŵp ymarferwyr** i gyd-ddatblygu a threialu cymorth, gan sicrhau ei fod yn ymarferol i athrawon ei ddefnyddio wrth gynllunio'r cwricwlwm neu yn yr ystafell ddosbarth. Mae'n defnyddio aelodau o'r grŵp polisi ymarferwyr presennol.
- **Grŵp rhanbarthau a phartneriaethau,** sy'n cynnwys aelodau o gonsortia rhanbarthol ac awdurdodau lleol. Mae'r grŵp hwn wedi bod yn coladu deunyddiau dysgu proffesiynol presennol ar fathemateg a rhifedd. Mae'n ystyried sut gallwn drawsnewid y deunyddiau hyn yn gynnig Dysgu Proffesiynol cenedlaethol cynhwysfawr a hawdd ei ddefnyddio.
- **Grŵp Tystiolaeth ac Ymchwil**, y mae ei aelodaeth yn cynnwys arbenigedd mewn mathemateg ac addysgu mathemateg o bob cwr o'r DU. Bydd y grŵp hwn yn nodi bylchau yn y cynnig presennol ac yn awgrymu deunyddiau Dysgu Proffesiynol sy'n seiliedig ar dystiolaeth y gall ymarferwyr eu profi, gyda'r bwriad o gynnwys y deunyddiau hyn fel rhan o'r cynnig Dysgu Proffesiynol cenedlaethol.

## 6. Trefniadau cymorth

### *Cymorth Dylunio Cwricwlwm*

6.1. Fel y nodir yn ein cynigion Cyllideb, mae ein cyfanswm arfaethedig sydd wedi'i briodoli'n uniongyrchol ar gyfer gweithredu CiG, sy'n cynnwys cyllid i ysgolion, tua £31 miliwn yn 2024-25. Mae amrywiaeth o raglenni ar y gweill gydag ysgolion ledled Cymru i ddatblygu gwell cydlyniant a dealltwriaeth fanylach o ddatblygu'r cwricwlwm, gan gynnwys Dysgu Proffesiynol. Bydd y cymorth hwn yn dod yn fwyfwy hanfodol wrth gefnogi ysgolion i godi safonau a deall safonau eu dysgwyr.

6.2. Ym mis Medi 2023, cyhoeddwyd canfyddiadau Cam 2 prosiect Camau i'r Dyfodol ar ddeall cwricwlwm a chynnydd. Defnyddiwyd y casgliad eang hwn o ddeunyddiau ategol a gynhyrchwyd gan ymarferwyr yn y rhaglenni dysgu proffesiynol rhanbarthol a chenedlaethol i gefnogi dealltwriaeth o ddylunio'r cwricwlwm ac asesu. Ar yr un pryd, cyhoeddwyd rhestr chwarae o flogiau, podlediadau ac astudiaethau achos fideo gan ysgolion a lleoliadau sy'n ymwneud â chynllun peilot dylunio'r cwricwlwm. Cefnogodd y dull llwyddiannus hwn 30 o ysgolion a lleoliadau ledled Cymru i ddeall sut i ddylunio dysgu sy'n bwrpasol i ddysgwyr ac sy'n cefnogi dealltwriaeth ddyfnach a chynnydd dysgwyr.

6.3. Mae ymarferwyr yn dweud bod deunyddiau ategol yn ddefnyddiol, ond mae pwysau ar eu hamser i ymgysylltu a gwella eu dealltwriaeth yn parhau i fod yn her barhaus. Mae cydweithio gan ysgolion yn cymryd amser, ond mae'n rhywbeth angenrheidiol er mwyn newid diwylliant ysgolion ar ddylunio, dilyniant ac asesu'r cwricwlwm. O ganlyniad, rydym yn ymgorffori deunyddiau ategol i ddysgu proffesiynol rhanbarthol a chenedlaethol presennol ac wedi'i gynllunio.

6.4. Yng ngham 3 prosiect Camau i'r Dyfodol eleni mae amrywiaeth o ysgolion a lleoliadau'n cael eu cefnogi gan ymchwilwyr ac arbenigwyr cwricwlwm er mwyn ddeall cynnydd yn well, yn ogystal â gweithio gyda phartneriaid addysgol i gefnogi'r broses o ymgorffori'r dulliau hyn ar draws y system. Bydd canlyniadau hyn ar gael i bob ymarferydd ledled Cymru ac yn cael eu cynnwys mewn dysgu proffesiynol sydd ar gael yn genedlaethol. Yn hollbwysig, bydd y dystiolaeth o'r prosiect yn parhau i lywio'r gwaith o ddatblygu cymorth pellach i ysgolion.

6.5. Gan adeiladu ar gynllun peilot llwyddiannus ar gyfer dylunio'r cwricwlwm, rydym yn datblygu dysgu proffesiynol pwrpasol fel rhan o raglen genedlaethol ar gyfer dylunio'r cwricwlwm ac asesu. Gan gydweithio ag arbenigwyr rhyngwladol ar ddylunio'r cwricwlwm, bydd y rhaglen hon yn cael ei datblygu ar y cyd ag ymarferwyr a phartneriaid addysg ledled Cymru a bydd ar gael yn genedlaethol o'r haf hwn ymlaen. Byddwn yn datblygu casgliad o gymorth hefyd ar gyfer dylunio asesiadau ac iaith a all gyfleu cynnydd dysgwyr yn effeithiol i rieni a gofalwyr a rhwng ymarferwyr wrth ddatblygu dealltwriaeth gyffredin o gynnydd dysgwyr.

### *Dysgu Proffesiynol*

6.6. Ar 12 Rhagfyr 2023, fe wnaeth Gweinidog y Gymraeg ac Addysg Ddatganiad Llafar ar ddatblygiadau allweddol er mwyn sicrhau bod gan bob ymarferydd addysg fynediad teg at ddysgu proffesiynol o ansawdd uchel i gefnogi ei ddatblygiad parhaus. Mae ein dull sicrhau ansawdd yn cynnwys trefniadau newydd i gymeradwyo darpariaeth dysgu proffesiynol sy'n cyd-fynd â'n blaenoriaethau cenedlaethol. Arweiniwyd hyn gan y Panel Cymeradwyo Dysgu Proffesiynol Cenedlaethol, dan gadeiryddiaeth yr Athro Ken Jones.

6.7. Bydd darpariaeth gymeradwy'n cael ei hyrwyddo trwy'r Porth Dysgu Proffesiynol a lansiwyd ar Hwb ym mis Medi 2023 ac sy'n dwyn ynghyd mewn un man yr amrywiaeth o ddysgu proffesiynol sydd ar gael i ymarferwyr. Mae'r porth yn hyrwyddo darpariaeth hefyd sy'n cyd-fynd â Rhaglen Datblygu genedlaethol y Cwricwlwm i Gymru. Yn ystod 2023/24, mae'r rhaglen hon wedi cynnwys ffocws craidd ar asesu a chynnydd, a dylunio'r cwricwlwm.

### *Mireinio canllawiau'r Cwricwlwm i Gymru*

6.8. Ym mis Ionawr, fe wnaethom gyhoeddi adran 'Ymlaen â'r Daith' wedi'i diweddaru o ganllawiau statudol y Cwricwlwm i Gymru, a ddatblygwyd ar y cyd ag amrywiaeth eang o ymarferwyr. Cafodd groeso gan y proffesiwn, mae'n rhoi mwy o eglurder ar ddisgwyliadau statudol ar gyfer cynllunio'r cwricwlwm ac asesu. Yr hyn sy'n bwysig i ysgolion yw bod yr adran hon yn llawer byrrach na'r un y mae'n ei disodli: gan sicrhau ei bod yn eglur ac yn syml i ysgolion. Cyhoeddwyd amrywiaeth o ddeunyddiau ategol ac ymarferol ac aml-ddull hefyd i ddangos defnydd effeithiol o ganllawiau, gan gynnwys cymorth pellach ar weithio mewn clystyrau, defnyddio fframwaith y cwricwlwm ac astudiaethau achos. Mae'r gwaith o fireinio'r canllawiau yn parhau er mwyn ymateb i anghenion ysgolion wrth i'r cwricwlwm gael ei gyflwyno.

6.9. Ym mis Chwefror, cyhoeddwyd canllawiau statudol drafft ar Ddysgu 14 i 16 ar gyfer ymgynghori (yn dod i ben ar 8 Mai). Mae'r canllawiau drafft yn egluro ein polisi ar gyfer dysgu ac addysgu ym mlynyddoedd 10 ac 11, ynghyd â'r gofynion cyfreithiol ar gyfer ysgolion, a bydd yn rhan o ganllawiau statudol fframwaith y CiG. Rydym yn cynnig gofyn i ysgolion sicrhau bod pob dysgwr yn gwneud cynnydd mewn perthynas â phedair elfen yr Hawl i Ddysgu 14 i 16. Mae hyn er mwyn helpu i ddarparu tegwch a chysondeb yn y profiad a geir o'r cwricwlwm ledled Cymru, gyda phob ysgol yn gwerthfawrogi'r un pethau sy'n cyfrannu at gynnydd dysgwr a phontio ymlaen.

6.10. Bydd yr Hawl i Ddysgu yn llywio ein cynigion ar yr hyn y dylid ei gynnwys yn yr ecosystem wybodaeth newydd i ysgolion, sy'n cynnwys y gofynion gwybodaeth a fydd yn disodli'r mesurau perfformiad interim (wedi'u capio 9. Gan gyfeirio at y canllawiau 14-16 yr ydym yn bwriadu eu cyhoeddi ym mis Gorffennaf, bydd cynigion ar gyfer yr ecosystem wybodaeth yn cael eu datblygu eleni. Mae'r gwaith yn parhau gydag ymarferwyr ac arweinwyr, a byddwn yn rhannu cynigion gyda'r sector gyda'r bwriad o gwblhau trefniadau

newydd erbyn haf 2025, yn barod ar gyfer addysgu dysgwyr blwyddyn 10 am y tro cyntaf o dan y CiG.

### *Adnoddau cwricwlwm a deunyddiau ategol*

6.11. Trwy ein platfform addysg Hwb, rydym yn parhau i gomisiynu a darparu amrywiaeth gynyddol o ddeunyddiau ategol cwricwlwm dwyieithog ar gyfer ysgolion a lleoliadau – yn seiliedig ar ein hymrwymiadau ac asesiadau anghenion parhaus gyda'r proffesiwn. Er enghraifft, fel rhan o gyfres o ddeunyddiau ategol aml-ddull ychwanegol i'w rhyddhau trwy gydol 2024 a 2025, byddwn yn dangos sut y dylai ysgolion a lleoliadau fod yn defnyddio'r fframwaith CiG yn gyson i ddewis cynnwys ar gyfer eu dysgwyr sy'n cefnogi datblygiad tuag at y pedwar diben. Mae'r enghreifftiau hyn, ar draws y chwe Maes Dysgu a Phrofiad, yn cael eu cynllunio i ddangos y broses o ddewis cynnwys sy'n bwrpasol, sy'n ymateb i anghenion dysgwyr a nodwyd ac sy'n cefnogi cynnydd dysgwyr. Mae'r enghreifftiau hyn sydd wedi'u rhoi ar waith yn ymateb uniongyrchol i'r galw gan ymarferwyr am fodelu'r gwaith o gynllunio'r cwricwlwm yn effeithiol o fewn disgwyliadau cenedlaethol ar gyfer cynnydd dysgwyr.

6.12. Mae ysgolion wedi nodi y byddai dealltwriaeth ehangach y cyhoedd o ddiwygio'r cwricwlwm yn helpu i ymgysylltu â'r gymuned a chyfleu'r newidiadau y maen nhw'n eu gwneud i'r ystafell ddosbarth o ganlyniad i'r CiG. Er mwyn cefnogi hyn, bydd fideos hyrwyddo sy'n amlinellu'r newidiadau y gall rhieni a gofalwyr ddisgwyl eu gweld o ganlyniad i'w plant yn dysgu o dan y CiG ar gael yn yr haf. Bwriad hyn yw cefnogi ysgolion i fagu hyder y cyhoedd yn y ddarpariaeth addysg gan ein bod yn gwerthfawrogi pob dysgwr a chynnydd y dysgwyr hynny tuag at y pedwar diben.

6.13. Gan gydweithio ag ymarferwyr, rydym yn parhau i adolygu'r cynnwys presennol ar Hwb er mwyn sicrhau ei fod yn cyd-fynd â'r CiG, ac rydym yn cysylltu'n agos ag Adnodd ynghylch prosesau comisiynu ymlaen a sicrhau ansawdd a fydd yn cael eu rhoi ar waith dros y flwyddyn i ddod.

### *Grant Addysg Awdurdod Lleol: Diwygio*

6.14. Mae ein dull symlach o ariannu grant awdurdodau lleol drwy'r Grant Addysg Awdurdod Lleol, fel y nodir yn ein cynigion cyllidebol ar gyfer 2024-25, wedi arwain at gynnal trafodaethau ar delerau'r grant ar gyfer 2024-25 gyda'r holl Awdurdodau Lleol. Mae hyn yn cynnwys y disgwyl y bydd trefniadau cyflwyno presennol ar gyfer elfennau dysgu proffesiynol a diwygio'r cwricwlwm yn cael eu cynnal yn ystod 2024-25. Mae hyn er mwyn cynnal cefnogaeth i ysgolion ar ddiwygio'r cwricwlwm gan ganiatáu ar gyfer unrhyw waith o gynllunio prosesau pontio sydd, o reidrwydd, yn deillio o ganlyniad i adolygiad diweddar o rolau a chyfrifoldebau partneriaid addysg yng Nghymru (gweler isod).

Rydym yn parhau i gydweithio ag Awdurdodau Lleol a darparwyr er mwyn sicrhau bod cymorth a gwerth am arian yn cyd-fynd.

***Rhaglen Partneriaeth Gwella Ysgolion***

6.15. Mae'r adolygiad diweddar, dan arweiniad yr Athro Dylan Jones, wedi darparu safbwyntiau cyson a chlir gan arweinwyr ysgolion y byddai'n well ganddynt system gefnogaeth leol ynghyd ag arweinyddiaeth genedlaethol gref. Yn sail i hyn oll mae cefnogaeth gref i gydweithredu, ar draws ysgolion, clystyrau ac awdurdodau lleol.

6.16. Ar 31 Ionawr, cyhoeddodd Gweinidog y Gymraeg ac Addysg ddatganiad ysgrifenedig a chyhoeddodd gam newydd i'r gwaith hwn gan adlewyrchu cyfnod o ddatblygu ar y cyd gyda'n holl bartneriaid addysg ar sut y gellir gweithredu unrhyw newid. Yn y cam hwn, rydym yn canolbwyntio ar archwilio sut y gellir cefnogi'r broses o wella ysgolion yn y ffordd orau yn y system addysg ar dair lefel - yn lleol, yn uwch-leol ac yn genedlaethol. Mae'r trefniadau newydd hyn yn canolbwyntio ar wella safonau addysgol, lleihau llwyth gwaith a gwella gwerth am arian.

## 7. Monitro cynnydd diwygio'r Cwricwlwm

***Gwerthuso a monitro***

7.1. Mae ein Cynllun Gwerthuso yn nodi dwy elfen waith allweddol ac uniongyrchol er mwyn deall ein cynnydd o ran gweithredu'r cwricwlwm, a'r effaith y mae'n ei chael ar ysgolion, ymarferwyr a dysgwyr.

7.2. Mae'r elfen gyntaf, y Gwerthusiad Ffurfiannol o'r CiG, ar y gweill. Mae'n rhaglen ar raddfa fawr sy'n archwilio sut mae'r diwygiadau'n gweithio, sut mae ymarfer yn newid mewn ysgolion a lleoliadau a sut mae'r newidiadau hyn yn cael eu profi gan ymarferwyr, dysgwyr a'u teuluoedd. Fel y disgrifir yn y Cynllun Gwerthuso, cwestiwn allweddol ar gyfer y Gwerthusiad Ffurfiannol yw'r graddau y mae'r diwygiadau'n gweithio i bob dysgwr waeth beth fo'u cefndir neu eu gallu. Bydd y gwerthusiad yn ystyried sut mae ymarferwyr yn defnyddio'r CiG i fabwysiadu dull dysgu unigol er mwyn darparu ar gyfer dysgwyr o bob gallu ac ar wahanol gamau cynnydd.

7.3. Bydd ymchwil gyda rhieni a dysgwyr yn sicrhau bod eu safbwyntiau ar effaith y CiG yn cael eu casglu a'u hystyried drwy gydol y gwerthusiad hefyd. Bydd y gwerthusiad yn adrodd ar unrhyw wahaniaethau mewn profiad ar gyfer gwahanol grwpiau o ddysgwyr hefyd. Yn ystod tymor yr haf hwn, mae rhaglen o ymchwil ansoddol ‘archwiliad dwfn’ ar y gweill i gael dealltwriaeth gynhwysfawr a manwl ar rannau penodol o'r cwricwlwm, gan gynnwys ffocws ar ddulliau ysgolion a lleoliadau o ymdrin â thegwch a chynhwysiant. Bydd arolygon gydag uwch arweinwyr, ymarferwyr, dysgwyr a'u teuluoedd yn dilyn.

Disgwylir y canfyddiadau o ddechrau 2025 ymlaen a byddant yn llywio canfyddiadau a nodir yn Adroddiad Blynyddol cwricwlwm 2025.

7.4. Yr ail elfen yw'r rhaglen arfaethedig o asesiadau Monitro Cenedlaethol yn Seiliedig ar Samplau. Bydd hyn yn cynnwys rhaglen dreigl o asesiadau o samplau o ddysgwyr ledled Cymru i greu darlun o safonau dysgu dros amser, gan leihau'r baich ar ysgolion a'r system. Mae'r astudiaeth ddichonoldeb ar gyfer y gwaith hwn, sy'n cynnwys gwaith ymgysylltu eang â rhanddeiliaid, arweinwyr ysgolion ac ymarferwyr ar y gweill, a bydd yn darparu opsiynau i'w hystyried. Bydd yr astudiaeth yn gorffen ym mis Mehefin, gan lywio'r camau nesaf ynghylch sut bydd cynnydd yn cael ei fonitro yn y tymor hir. Byddwn yn parhau i gyhoeddi canlyniadau o'r gwaith hwn mewn modd amserol.

***Adroddiad Blynyddol a'r camau nesaf***

7.5. Rydym yn parhau i grynhoi ac adrodd ar gynnydd ar ddiwygio'r cwricwlwm drwy ein dull adrodd blynyddol, gyda'r Adroddiad Blynyddol nesaf ar ddechrau mis Gorffennaf. Rydym yn disgwyl i hynny egluro'r sefyllfa ddiweddaraf o ran cyflwyno'r cwricwlwm ar draws y system yn seiliedig ar dystiolaeth amrywiol.

7.6. Ynghyd â hyn, rydym yn parhau i gydweithio'n agos ag ysgolion a'r system a defnyddio hyn i lywio'r camau cymorth nesaf. Mae'r cwricwlwm wedi'i gynllunio i godi safonau, gan ganolbwyntio ar yr wybodaeth a'r sgiliau y mae angen eu cael wrth iddynt symud ymlaen, ac mae'n hanfodol bod camau nesaf y cymorth yn darparu cefnogaeth bellach i alluogi ysgolion i wneud hynny.

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

**Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol**

—

**Culture, Communications, Welsh Language, Sport, and International Relations Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDiwylliant@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDiwylliant
0300 200 6565

—

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddCulture@senedd.wales
senedd.wales/SeneddCulture
0300 200 6565

Jayne Bryant AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

20 Mawrth 2024

**Ymchwiliad yn ymwneud â ddatblygu'r ddarpariaeth Gymraeg ôl-16**

Annwyl Jayne

Yn ein cyfarfod ar 14 Mawrth 2024, cytunodd y Pwyllgor gynnal ymchwiliad undydd i ddatblygu'r ddarpariaeth Gymraeg ôl-16. Y rheswm am gynnal yr ymchwiliad yw'r penderfyniad a wnaed i ail-flaenoriaethu cyllid Llywodraeth Cymru yn ei Chyllideb ar gyfer 2024-25.

O ystyried bod hyn yn gorgyffwrdd â chylch gwaith eich pwyllgor chi, byddwn ni'n sicrhau eich bod yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am hynt yr ymchwiliad hwn.

Yn gywir,

**Delyth Jewell AS**
**Cadeirydd y Pwyllgor**

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.



Senedd Cymru
Welsh Parliament

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddCyllid@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddCyllid
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddFinance@senedd.wales
senedd.wales/SeneddFinance
0300 200 6565

## Y Pwyllgor Cyllid
—
## Finance Committee

Cadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg
Cadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith
Cadeirydd y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol
Cadeirydd Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig
Cadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol
Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol
Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Cadeirydd y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai

22 Mawrth 2024

Annwyl Gadeiryddion Pwyllgorau,

Craffu ar y gyllideb ddrafft

Byddwch yn cofio fy mod wedi ysgrifennu y llynedd yn gwahodd Pwyllgorau i fynegi barn ar welliannau y gallai Llywodraeth Cymru eu gwneud i'r dogfennau mae'n eu cynhyrchu ochr yn ochr â'i Chyllideb Ddrafft ac mewn tystiolaeth ysgrifenedig gan y Gweinidog a ddarparwyd i'r pwyllgorau.

Cafodd eich ymatebion eu hystyried gan y Pwyllgor ar 21 Mehefin 2023 ac wedi hynny ysgrifennais at y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol (y Gweinidog) ar 23 Mehefin 2023 yn gofyn am ystyried y pryderon a godwyd cyn rownd cyllideb 2024-25. Roedd rhain yn ymwneud â'r hyn a ganlyn:

- cyhoeddi'r gyllideb ddrafft yn hwyr, gan arwain at broses graffu wedi'i chwtogi;
- diffyg tryloywder ynghylch effaith y gyllideb ddrafft ar feysydd polisi o fewn cylch gwaith pob Pwyllgor;
- ansawdd isel y dystiolaeth ysgrifenedig a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru;
- ni wnaeth Llywodraeth Cymru ddarparu ymatebion i rai argymhellion gan bwyllgorau cyn y ddadl ar y Gyllideb Derfynol.

Codwyd y materion hyn eto yn ystod y gwaith o drafod Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2024-25 yn gynharach eleni. Yn ein adroddiad gwnaed yr argymhellion a'r casgliadau a ganlyn gan adeiladu ar y safbwyntiau a fynegwyd yn flaenorol:

> *Casgliad 2. Bydd y Pwyllgor yn ymgynghori â phwyllgorau'r Senedd sy'n ymwneud â chraffu ar y gyllideb cyn cylch cyllideb 2025-26 i gael gwell dealltwriaeth o'r dystiolaeth a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru i gefnogi'r Gyllideb Ddrafft ac i archwilio ffyrdd o wneud y mwyaf o waith craffu cyllidebol drwy gydol y flwyddyn*
>
> *Argymhelliad 1. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Gweinidog yn cyhoeddi papurau tystiolaeth gweinidogion ar yr un pryd â'r Gyllideb Ddrafft er mwyn rhoi eglurder ar y meini prawf a'r blaenoriaethau sy'n sail i benderfyniadau gweinidogion, gyda'r nod o alluogi rhanddeiliaid i gymryd rhan yn y broses graffu yn fwy effeithiol ac yn gynharach yn y broses.*
>
> *Argymhelliad 2. Mae'r Pwyllgor yn argymell, os caiff y Gyllideb Ddrafft ei gohirio eto yn y dyfodol:*
>
> *▪ bod y Gweinidog a'r swyddogion yn parhau i fynd i sesiwn cyn craffu ar y gyllideb gyda'r Pwyllgor Cyllid; a*
>
> *▪ bod y Gweinidog yn gweithio gyda'r Pwyllgor Cyllid i nodi dulliau gweithredu a all wella cyfleoedd craffu, gan gynnwys darparu dogfennaeth sy'n ymwneud â'r Gyllideb Ddrafft yn gynharach.*

Derbyniwyd yr argymhellion hyn mewn egwyddor, gyda'r Gweinidog yn amlygu'r anawsterau ymarferol wrth ymateb i faint o wybodaeth y gofynnir amdani gan bwyllgorau unigol, ar yr un pryd â chyhoeddi'r Gyllideb Ddrafft.

Gofynnwn felly i chi ystyried y materion canlynol, ac i ddarparu ymateb erbyn dydd Gwener 24 Mai 2024.

- Pa welliannau, os o gwbl, ydych chi wedi'u gweld yn y ddogfennaeth a ddarperir gan Lywodraeth Cymru ochr yn ochr â Chyllideb Ddrafft 2024-25?
- Ydych chi wedi nodi unrhyw welliannau pellach y gellid eu gwneud i'r wybodaeth a ddarperir ochr yn ochr â'r Gyllideb Ddrafft?
- O ystyried yr amser byr sydd ar gael i graffu, pa ystyriaeth, os o gwbl, ydych chi wedi'i rhoi i graffu ar faterion cyllidebol o fewn eich cylch gwaith yn gynharach, er enghraifft ystyried cynllunio strategol tymor hwy, cymryd camau dilynol o ran argymhellion craffu blaenorol neu brosesau penderfynu cyn i'r Gyllideb Ddrafft gael ei chyhoeddi?

- Mae’r Pwyllgor hefyd yn gweithio ar hyn o bryd gyda'r Gweinidog a rhanddeiliaid eraill i adolygu Protocol Proses y Gyllideb i sicrhau bod prosesau cyllidebol y Senedd yn adlewyrchu arferion a ddatblygwyd yn y Chweched Senedd hyd yma. A oes gennych unrhyw farn am weithdrefnau cyllidebol y Senedd yn ehangach?

Rydym yn ddiolchgar i chi am eich ymgysylltiad parhaus â ni ar y materion hyn ac yn croesawu unrhyw ohebiaeth bellach sy'n ymateb i'r pwyntiau uchod.

Ein nod yw codi'r materion hyn ar ran y Pwyllgorau gyda'r Gweinidog cyn y ddadl yn y Cyfarfod Llawn ar flaenoriaethau cyllidebol ar gyfer 2025-26 a fydd yn digwydd cyn toriad yr haf.

Yn gywir,

Peredur Owen Griffiths AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.

**Y Pwyllgor Deisebau**

**Petitions Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
Deisebau@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDeisebau
0300 200 6565

**Senedd Cymru**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
Petitions@senedd.wales
senedd.wales/SeneddPetitions
0300 200 6565

Jayne Bryant AS, Cadeirydd
Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
CF99 1SN

11 Ebrill 2024

Annwyl Jayne

**Deiseb P-06-1406 Cosbau ariannol i Awdurdodau Addysg Lleol nad ydynt yn cydymffurfio â'r amserlenni ar gyfer Anghenion Dysgu Ychwanegol**

Trafododd y Pwyllgor Deisebau y ddeiseb hon yn ein cyfarfod ar 18 Mawrth. Cytunodd y Pwyllgor i dynnu eich sylw at y ddeiseb hon, fel Cadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg. Cytunodd y Pwyllgor Deisebau hefyd i godi'r materion yn y ddeiseb yn ystod y ddadl arfaethedig ar P-06-1392 Diwygio Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol Cymru 2021.

Mae'r manylion llawn am drafodaeth y Pwyllgor ar y ddeiseb, gan gynnwys yr ohebiaeth a'r camau y cytunwyd arnynt gan y Pwyllgor, ar gael yma: https://busnes.senedd.cymru/mgIssueHistoryHome.aspx?IId=42958.

Byddwn yn ddiolchgar pe gallech anfon eich ymateb ar ffurf e-bost at y tîm clercio at deisebau@senedd.cymru..

Yn gywir

Jack Sargeant AS
Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg | We welcome correspondence in Welsh or English.



Senedd Cymru
Welsh Parliament

Gohebiaeth yn ymwneud â'r adroddiad ar ddiwygio radical o ran plant sydd â phrofiad o ofal

Eitem 5.4

**Dawn Bowden AS/MS**
**Y Gweinidog Gofal Cymdeithasol**
**Minister for Social Care**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf: CYPE/PC0424

Naomi Stocks
Clerc y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg
Senedd Cymru
SeneddPlant@senedd.cymru

15 Ebrill 2024

Annwyl Naomi,

Ysgrifennaf mewn ymateb i lythyr y Cadeirydd blaenorol, dyddiedig 11 Mawrth 2024, at y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol blaenorol ynglŷn â phleidlais Cyngor Dinas Casnewydd i gydnabod y profiad o fod mewn gofal fel nodwedd warchodedig wrth wneud penderfyniadau a chynllunio gwasanaethau.

Rwy'n ymwybodol o ymchwiliad blaenorol y Pwyllgor ynghylch gwasanaethau i blant sydd wedi bod mewn gofal: archwilio diwygio radical a'i adroddiad "Os nad nawr, pryd?", ac yn benodol yr argymhelliad i Lywodraeth Cymru bwyso ar Lywodraeth y DU i ddiwygio adran 4 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 i ychwanegu 'profiad o fod mewn gofal' fel nodwedd warchodedig. Fel y nodir gennych, mae newidiadau i Ddeddf Cydraddoldeb (2010) yn fater y tu hwnt i gymhwysedd deddfwriaethol Llywodraeth Cymru.

Yn sgil ein gwaith i gyflawni'r Rhaglen Trawsnewid Gwasanaethau Cymdeithasol Plant yng Nghymru, a'n gwaith uniongyrchol gyda phlant a phobl ifanc â phrofiad o fod mewn gofal yn ystod ein Huwchgynadleddau, rydym yn cydnabod y stigma y gall rhai plant a phobl ifanc â phrofiad o fod mewn gofal ei deimlo yn eu bywydau o ddydd i ddydd. Drwy gynnal y sgyrsiau hyn, rydym hefyd yn ymwybodol bod safbwyntiau gwahanol a chanlyniadau anfwriadol posibl, yn enwedig atgyfnerthu'r stigma presennol ar gyfer rhai pobl ifanc â phrofiad o fod mewn gofal, pan fo nodwedd warchodedig yn cael ei dynodi. Er mwyn deall yr amrywiaeth o safbwyntiau, rwyf wedi ymrwymo i barhau i wrando ar blant a phobl ifanc â phrofiad o fod mewn gofal yn ogystal ag oedolion â phrofiad o fod mewn gofal.

Roedd y llythyr dyddiedig 11 Mawrth yn gofyn tri chwestiwn ynglŷn â'r cynnig a dderbyniwyd gan Gyngor Dinas Casnewydd i gydnabod "profiad o fod mewn gofal" fel nodwedd warchodedig. Gweler ymateb i'r cwestiynau hynny isod:

**Cwestiwn 1:**
**Beth yw eich barn am y cynnig a dderbyniwyd gan Gyngor Dinas Casnewydd?**

Mae Llywodraeth Cymru o blaid cynnig Casnewydd i gynnwys "profiad o fod mewn gofal" fel nodwedd warchodedig yn rhan o'i rôl yn rhiant corfforaethol, a hynny er mwyn sicrhau bod plant a phobl ifanc â phrofiad o fod mewn gofal yn cael yr un cyfleoedd â phlant a phobl

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Dawn.Bowden@llyw.cymru
Correspondence.Dawn.Bowden@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

ifanc eraill. Fodd bynnag, wrth roi'r polisi hwn ar waith, bydd angen i'r awdurdod lleol fod yn ymwybodol bod barn wahanol ar y mater hwn a chanlyniadau anfwriadol posibl, y cyfeirir atynt uchod, yn sgil dynodi profiad o fod mewn gofal fel nodwedd warchodedig.

**Cwestiwn 2:**
**Wrth dderbyn y cynnig, mae Cyngor Dinas Casnewydd wedi cymryd camau i leihau'r stigma a'r gwahaniaethu y mae pobl sydd â phrofiad o fod mewn gofal yn eu hwynebu y tu hwnt i fod yn llofnodwr i Siarter Rhianta Corfforaethol Llywodraeth Cymru. A yw Llywodraeth Cymru yn credu bod y Siarter Rhianta Corfforaethol gwirfoddol ar ei phen ei hun yn ddigon i ddileu'r stigma y mae pobl sydd â phrofiad o fod mewn gofal yn ei wynebu?**

Mae'r Siarter yn rhan o raglen waith gynhwysfawr sy'n cael ei chynnal i wella ac estyn rhianta corfforaethol ar draws yr holl gyrff cyhoeddus a phreifat ledled Cymru.


Byddwn yn defnyddio deddfwriaeth i gryfhau'r canllawiau ar gyfer awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol drwy bennod bwrpasol ar Rianta Corfforaethol yng Nghod Ymarfer Rhan 6 (Plant sy'n derbyn gofal a phlant sy'n cael eu lletya) o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Bydd y bennod yn amlinellu eu dyletswyddau o ran eu rôl yn rhieni corfforaethol yn ogystal â hyrwyddo dull strategol cryfach ar gyfer rhianta corfforaethol. Byddwn yn ymwneud â'r holl randdeiliaid wrth ddatblygu'r bennod a byddwn yn rhannu'r fersiwn ddrafft â phlant a phobl ifanc â phrofiad o fod mewn gofal i gael eu barn nhw.

**Cwestiwn 3:**
**Mae cynnig y Cyngor yn cyfeirio'n gwbl glir at argymhelliad ein Pwyllgor y dylai Llywodraeth Cymru lobïo i sicrhau bod profiad o fod mewn gofal yn dod yn nodwedd warchodedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Gwrthododd Llywodraeth Cymru yr argymhelliad hwn. A wnaiff Llywodraeth Cymru ailystyried ei hymateb os bydd cynghorau eraill yng Nghymru yn ymuno â Chasnewydd i gymryd camau "i drin profiad o fod mewn gofal fel nodwedd warchodedig hyd nes y caiff hynny ei gyflwyno mewn deddfwriaeth"?**

Gwnaethom nodi bod cynnig y Cyngor yn cyfeirio at argymhelliad y Pwyllgor yn ogystal â'i gefnogaeth i'r Siarter Rhianta Corfforaethol. Bydd y Pwyllgor yn sylweddoli bod angen i Lywodraeth Cymru gynrychioli llais yr holl blant a phobl ifanc â phrofiad o fod mewn gofal, a chan ystyried yr ystod o farn ynghylch dynodi nodwedd warchodedig, mae angen inni barhau â'r drafodaeth ynglŷn â hyn. Rwyf felly yn bwriadu gofyn am farn pobl ifanc â phrofiad o fod mewn gofal a rhanddeiliaid ynghylch y mater hwn yn ddiweddarach yn y flwyddyn, ac yn rhan o hyn, byddaf yn cadw llygad manwl ar waith Casnewydd.

Diolch ichi am eich llythyr ac edrychaf ymlaen at weithio gyda'r Pwyllgor i annog ymlaen y gwaith o drawsnewid gwasanaethau cymdeithasol plant yng Nghymru a helpu plant a phobl ifanc yng Nghymru sydd â phrofiad o fod mewn gofal.

Yn gywir



**Dawn Bowden AS/MS**
Y Gweinidog Gofal Cymdeithasol
Minister for Social Care

**Sam Rowlands**
Member of the Welsh Parliament for
North Wales
-
Aelod Senedd dros
Gogledd Cymru

**North Wales Office | Swyddfa Gogledd Cymru**
North Wales Business Park, Abergele LL22 8LJ
-
**Cardiff Office | Swyddfa Caerdydd**
Senedd Cymru, Cardiff Bay, Cardiff CF99 1SN
-
**Tel | Ffôn:** 0300 200 7267
**Email | E-bost:** sam.rowlands@senedd.wales

Cadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

15 Ebrill 2024

Annwyl Gadeirydd,

**Bil Addysg Awyr Agored Breswyl (Cymru): ymateb i adroddiad Cyfnod 1 y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg**

Hoffwn ddiolch i'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg am ei waith craffu ar Fil Addysg Awyr Agored Breswyl (Cymru) yn ystod Cyfnod 1 ac am yr adroddiad a gyhoeddwyd ar 21 Mawrth 2024. Rwyf wedi nodi fy ymateb i gasgliadau ac argymhellion y Pwyllgor yn Atodiad A.

Byddaf hefyd yn ysgrifennu at Gadeiryddion y Pwyllgor Cyllid a'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad mewn perthynas â'u hadroddiadau Cyfnod 1, a byddaf yn anfon copïau o'r llythyrau at Gadeiryddion y tri Phwyllgor.

Yn gywir,

Sam Rowlands AS
Aelod o Senedd Cymru dros Ogledd Cymru

**Atodiad A**

**Ymateb gan Sam Rowlands AS i adroddiad Cyfnod 1 y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ar Fil Addysg Awyr Agored Breswyl (Cymru)**

| |
|---|
| **Argymhelliad 1.** Os caiff y Bil ei basio, dylai Llywodraeth Cymru gomisiynu adolygiad o gapasiti o fewn y sector addysg awyr agored breswyl, y bydd rhaid iddo gynnwys asesiad o gapasiti ar gyfer darpariaeth hygyrch a chynhwysol; a darpariaeth cyfrwng Cymraeg. Dylid cyhoeddi'r adolygiad hwn, a dylid sicrhau bod gwybodaeth am y ddarpariaeth ar gael i ysgolion i'w helpu i lywio eu gwaith o gynllunio a dylunio profiadau addysg awyr agored breswyl. |
| **Ymateb: Nodwyd**<br>Gan mai mater i Lywodraeth Cymru yn hytrach nag i mi fel yr Aelod sy'n gyfrifol am y Bil yw'r argymhelliad hwn, ni fyddai'n briodol imi dderbyn neu wrthod yr argymhelliad hwn.<br>Er i mi wneud llawer o waith yn ystod datblygiad y Bil i ddadansoddi a deall capasiti presennol y sector addysg awyr agored breswyl, byddwn yn cefnogi barn y Pwyllgor y bydd cael gwell dealltwriaeth o gapasiti yng Nghymru yn helpu i gefnogi'r gwaith o weithredu'r Bil os caiff ei basio. Fel y cyfryw, byddwn yn croesawu adolygiad o'r fath. |
| **Argymhelliad 2.** Dylai'r Aelod sy'n Gyfrifol gyflwyno gwelliannau yng Nghyfnod 2 i ehangu'r meini prawf cymhwystra i gynnwys disgyblion sy'n cael addysg heblaw yn yr ysgol. |
| **Ymateb: Derbyn mewn egwyddor**<br>Fel y gŵyr y Pwyllgor, mae hwn yn fater yr wyf wedi rhoi cryn dipyn o ystyriaeth iddo drwy gydol y broses o ddatblygu'r Bil.<br>Ar ddechrau'r broses, roedd y cynnig a gyflwynais, ac y cefais ganiatâd i fwrw ymlaen ag ef, yn ceisio pennu dyletswydd statudol i sicrhau bod pob person ifanc sy'n derbyn addysg a gynhelir yn cael y cyfle i brofi addysg awyr agored breswyl. Wrth ddatblygu'r Bil, y ffordd orau o gyflawni hyn oedd drwy wneud addysg awyr agored breswyl yn rhan o'r cwricwlwm, a hynny drwy wneud diwygiadau perthnasol i Ddeddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021 (Deddf 2021).<br>Wrth imi symud drwy'r broses, a chynnal ymgynghoriadau ar yr amcanion polisi a'r Bil drafft, daeth yn amlwg bod safbwyntiau cryf y dylid ehangu'r Bil i gynnwys disgyblion sy'n cael eu haddysgu heblaw yn yr ysgol (h.y. y rhai y tu allan i leoliadau addysg a gynhelir yr oedd fy nghynnig gwreiddiol yn ymwneud â hwy). |

| |
|---|
| Roeddwn yn cydnabod yn llwyr y gallai plant sy'n cael addysg heblaw yn yr ysgol, fel y rhai mewn Unedau Cyfeirio Disgyblion (UCDau), elwa'n arbennig o brofiad awyr agored preswyl a ddarperir o dan y Bil. Fodd bynnag, wrth ddod â'r Bil gerbron y Senedd, roeddwn i'n credu mai'r ffordd orau o gyflawni'r amcanion gwreiddiol oedd drwy ystyried y ffordd orau i'r Bil weithio, a phenderfynais fwrw ymlaen â'r Bil fel y mae'n ymwneud ag addysg a gynhelir, a hynny drwy'r newidiadau a gynigir i Ddeddf 2021. Wrth wneud hynny, roeddwn yn ymwybodol bod Deddf 2021 yn gosod gofynion cwricwlwm gwahanol mewn Unedau Cyfeirio Disgyblion i'r rhai mewn ysgolion, lle mai dim ond rhai agweddau ar y Cwricwlwm i Gymru sy'n orfodol. Roeddwn felly'n ceisio bod yn ymwybodol o ddull gweithredu Deddf 2021.<br>Fodd bynnag, rwy'n cydnabod y gellid cryfhau'r rhan hon o'r Bil. Mae'r dystiolaeth a glywyd yn ystod proses Cyfnod 1 wedi amlygu hyn ymhellach. Fodd bynnag, roedd angen pennu rhai ystyriaethau sylweddol o ran sut y gellid cyflawni hyn, ac ai'r ffordd orau o gyflawni hynny fyddai drwy'r Bil neu drwy ddulliau eraill dan arweiniad Llywodraeth Cymru.<br>Os bydd y Bil yn symud yn ei flaen, rwy'n ymrwymo i adolygu'r mater hwn, a gweithio gyda Llywodraeth Cymru i weld pa mor ymarferol yw ymestyn y ddarpariaeth i ddisgyblion sy'n cael addysg heblaw yn yr ysgol, ac ai'r Bil fyddai'r lle gorau i hyn neu ddulliau eraill. Fodd bynnag, o ystyried y cyfyngiadau amser, efallai na chaiff y gwaith hwnnw ei gwblhau mewn pryd i gyflwyno gwelliannau yng Nghyfnod 2. |
| **Argymhelliad 3.** Dylai'r Aelod sy'n Gyfrifol gyflwyno gwelliannau yng Nghyfnod 2 i ddileu'r ddarpariaeth y dylai addysg awyr agored breswyl gynnwys pedair noson a phum diwrnod er mwyn sicrhau bod mwy o hyblygrwydd o ran hyd profiad addysg awyr agored breswyl sy'n gysylltiedig ag anghenion plant ac ysgolion unigol. |
| **Ymateb: Gwrthod**<br>Rwy'n deall pryderon y Pwyllgor yn hyn o beth yn llwyr, ac yn cytuno mai mater i ysgolion yw gwneud penderfyniadau sy'n gweddu orau i anghenion eu hysgolion unigol. Fodd bynnag, rwy'n credu bod y Bil fel y'i drafftiwyd eisoes yn caniatáu'r hyblygrwydd hwn.<br>Mae'r Bil yn cynnig bod Adran 64A newydd yn cael ei mewnosod yn Neddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021 (Deddf 2021) sy'n ymwneud â darparu cwrs addysg awyr agored breswyl.<br>Mae'r adran newydd arfaethedig honno yn darparu bod yn rhaid i gwrs addysg breswyl fod yn bedair noson a phum niwrnod o leiaf. Mae'r adran newydd arfaethedig yn mynd ymlaen i nodi y gall y cwrs addysg awyr agored breswyl ddigwydd ar un ymweliad neu ei rannu dros fwy nag un ymweliad. |

| |
|---|
| Byddai hyn yn galluogi ysgol i benderfynu, fel rhan o gwrs addysg awyr agored breswyl, hyd yr ymweliad yr hoffai ei drefnu, a allai amrywio o un noson i bedair noson. Gallai ysgolion hefyd benderfynu trefnu mwy nag un profiad addysg awyr agored breswyl fel rhan o'r 'cwrs addysg awyr agored breswyl' sy'n ofynnol o dan Ddeddf 2021, cyn belled â bod cyfanswm pob profiad yn bedair noson a phum diwrnod o leiaf.<br><br>Rwy'n nodi bod y Pwyllgor yn credu y dylai cyfeiriadau at hyd profiadau fod yn y canllawiau ac na ddylid eu cynnwys ar wyneb y Bil. Fy nghynnig gwreiddiol, y rhoddodd y Senedd ganiatâd i fwrw ymlaen ag ef ym mis Hydref 2022, oedd hawl i "wythnos o leiaf" o addysg awyr agored breswyl. Dyma ran o'r rheswm i mi gynnwys hyn ar wyneb y Bil, ond mae hyblygrwydd i'r cyfnod cyfan hwn gynnwys mwy nag un profiad byrrach, fel yr eglurwyd uchod. Dylid nodi hefyd fod y Bil yn darparu ar gyfer cwrs addysg awyr agored breswyl unwaith. Gallai dweud ar wyneb y Bil mai dim ond unwaith y mae'r cwrs ar gael, ond wedyn dweud mewn canllawiau bod modd ei rannu, arwain at ddiffyg eglurder. Mae datgan yn benodol ar wyneb y Bil ei fod yn gwrs o addysg awyr agored breswyl y mae'n rhaid ei ddarparu unwaith, ond bod modd ei rannu, yn gwneud bwriad y polisi yn gliriach. |
| **Argymhelliad 4.** Dylai'r Aelod sy'n Gyfrifol gyflwyno gwelliannau yng Nghyfnod 2 i nodi ei bod yn rhaid i'r canllawiau nodi y darperir ar gyfer gofynion deietegol pob plentyn. |
| **Ymateb: Derbyn**<br><br>Rwy'n nodi ei bod yn ymddangos bod yr argymhelliad hwn mewn ymateb i un achlysur yr adroddwyd arno i'r Pwyllgor, a byddwn yn gobeithio ac yn disgwyl nad yw hon yn broblem ehangach.<br><br>Mae gan bobl sy'n archebu cyrsiau ddyletswydd gofal tuag at eu myfyrwyr a dylent fod yn gwirio y caiff gofynion deietegol eu bodloni. Mae'r rhan fwyaf (os nad pob un) o'r darparwyr sy'n cynnig bwyd yn gofyn am wybodaeth am ofynion deietegol ac alergeddau cyn unrhyw ymweliad.<br><br>Felly, er na fydd hyn o reidrwydd yn angenrheidiol, byddwn yn hapus i dderbyn yr argymhelliad hwn a chyflwyno'r gwelliant neu welliannau a awgrymir. |
| **Argymhelliad 5.** Dylai'r Aelod sy'n Gyfrifol gyflwyno gwelliannau yng Nghyfnod 2 i nodi ar wyneb y Bil nad yw'n orfodol i blant gymryd rhan yn y ddarpariaeth addysg awyr agored breswyl a gynigir o dan y Bil hwn. |
| **Ymateb: Derbyn** |

Mae’r Bil yn gwneud darparu cwrs addysg awyr agored breswyl yn rhan orfodol o’r cwricwlwm. Felly, byddai'n orfodol i ysgolion ddarparu'r cwrs addysg awyr agored breswyl hwn, ond y bwriad yw na ddylid gorfodi plant i fynd ar gwrs o’r fath. Caiff hyn ei nodi yn y Memorandwm Esboniadol ac rwyf wedi codi’r pwynt hwn drwy gydol proses Cyfnod 1.

Ceir darpariaeth eisoes yn Neddf Cwricwlwm ac Asesu 2021 (Deddf 2021) a rheoliadau a wneir o dan y Ddeddf honno sy’n galluogi penaethiaid ysgolion a gynhelir i benderfynu na ddylai darpariaethau Cwricwlwm i Gymru fod yn gymwys i blentyn neu ddisgybl. Felly, pe na bai plentyn yn dymuno cymryd rhan yn y cwrs addysg awyr agored breswyl a ddarperir o dan y Bil, gallai pennaeth yr ysgol wneud penderfyniad i’r perwyl hwn.

Ynghyd â hyn, mae’r Bil yn gwneud darpariaeth ar gyfer dyroddi canllawiau o dan Adran 71A newydd i Ddeddf 2021, a “rhaid iddynt ddarparu nad yw addysg awyr agored breswyl yn orfodol i ddisgyblion ei mynychu”. Rwy’n sylweddoli na all y canllawiau eu hunain newid effaith gyfreithiol y Bil sy’n gwneud hyn yn rhan orfodol o’r cwricwlwm. Y bwriad yw y byddai’r canllawiau’n nodi’n glir y dylai penaethiaid ddefnyddio eu pŵer o dan y Rheoliadau perthnasol i wneud penderfyniad o’r fath i eithrio plentyn neu ddisgybl o’r cwrs addysg awyr agored breswyl a ddarperir o dan y cwricwlwm.

Er nad wyf yn siŵr bod angen gwelliant i’r Bil o ystyried y mecanweithiau presennol sydd eisoes ar waith, byddwn yn hapus i archwilio a ellid cyflwyno gwelliant o’r fath yng Nghyfnod 2 pe bai hynny’n gwneud y bwriad yn fwy eglur, a’i effaith yn haws ei reoli’n ymarferol.

**Argymhelliad 6.** Dylai’r Aelod sy'n Gyfrifol gyflwyno gwelliannau yng Nghyfnod 2 i roi effaith i welliannau arfaethedig Comisiynydd y Gymraeg, er mwyn sicrhau:

▪ bod digon o ddarpariaeth Gymraeg;

▪ bod darpariaeth addysg awyr agored breswyl yn cynnig cyfleoedd i bob plentyn ddysgu a chael profiadau drwy gyfrwng y Gymraeg; a

▪ bod yn rhaid i addysg awyr agored breswyl hybu dealltwriaeth o’r

Gymraeg a diwylliant Cymru.

**Ymateb: Derbyn yn rhannol.**

Mae Comisiynydd y Gymraeg wedi cynnig tri gwelliant penodol i ddarpariaethau yn y Bil sy’n ymwneud â’r canllawiau y mae’n rhaid i Weinidogion Cymru eu dyroddi. Mae’r darpariaethau hynny wedi’u nodi yn y Bil drwy fewnosod Adran 71A newydd yn Neddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021 (Deddf 2021). Mae’r Comisiynydd yn galw am ddiwygio Adran 71A(3)(d) a (3)(e) arfaethedig, a mewnosod 71A(3)(f) newydd – felly byddai’r darpariaethau’n darllen fel a ganlyn:

"(3)(d) rhaid iddynt ddarparu bod pob darparwr addysg awyr agored breswyl yn gallu darparu trwy gyfrwng y Gymraeg"

"(3)(e) yn unol â gofynion y cwricwlwm i Gymru, rhaid iddynt ddarparu bod addysg awyr agored breswyl yn cynnig cyfleoedd i bob disgybl ddysgu a chael profiadau trwy gyfrwng y Gymraeg"

"(3)(f) rhaid iddynt ddarparu bod addysg awyr agored breswyl yn hybu dealltwriaeth o'r Gymraeg a diwylliant Cymru"

Yn ystod Cyfnod 1 o'r Bil, rwyf wedi ymrwymo i gryfhau'r Bil lle bynnag y bo modd, a lle bo'n briodol, ac rwyf wedi rhoi ymrwymiad penodol i'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg yn hynny o beth mewn perthynas â darpariaeth Gymraeg. Gyda hynny mewn golwg, byddwn yn hapus i dderbyn yr argymhelliad mewn perthynas â'r gwelliannau arfaethedig i (3)(e) a (3)(f) fel y'u nodir uchod.

Fodd bynnag, ni allaf dderbyn y gwelliant arfaethedig fel y'i nodir yn (3)(d) uchod.

Diben adran 71A newydd yw dyroddi canllawiau mewn cysylltiad ag addysg awyr agored breswyl a ddarperir yn unol â dyletswydd a osodir o dan y Ddeddf hon. Nid yw'r Bil yn gosod unrhyw ddyletswyddau ar ddarparwyr addysg awyr agored breswyl, ac felly nid yw'r canllawiau'n gymwys i ddarparwyr. At hynny, nid wyf yn ystyried y byddai byth yn briodol i ganllawiau nodi bod yn rhaid i ddarparwyr 'allu darparu drwy gyfrwng y Gymraeg'. Byddai gallu darparwyr i fodloni'r gofyniad hwn, yn fy marn i, yn mynd ymhell y tu hwnt i ddiben y canllawiau. Gallai hefyd effeithio ar fwriad y Bil, oherwydd y gallai arwain at sefyllfa lle byddai darparwyr nad ydynt yn gallu cynnig profiad drwy gyfrwng y Gymraeg yn gwrthod gwneud unrhyw gynnig o gwbl. Byddai hynny, yn ei dro, yn cyfyngu ar gyfleoedd i blant gael addysg awyr agored breswyl.

**Argymhelliad 7.** Cyn dadl Cyfnod 1, dylai'r Aelod sy'n Gyfrifol ddarparu manylion am sut y mae'n rhagweld y bydd olrhain y ddarpariaeth yn gweithio'n ymarferol.

**Ymateb: Derbyn**

Wrth ddatblygu'r Memorandwm Esboniadol, fe wnaethom ni gynnal gwaith i asesu'r hyn a allai fod yn ofynnol o ran olrhain presenoldeb disgyblion ar ymweliadau addysg awyr agored preswyl.

Fel rhan o'r gwaith hwn, fe wnaethom ni gynnal trafodaethau gyda rhanddeiliaid, gan gynnwys y Panel Ymgynghorwyr Addysg Awyr Agored (OEAP) a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, a gynghorodd y gallai olrhain ar ei ffurf symlaf gael ei integreiddio ym mhob cofnod disgybl sy'n cael ei rhoi ar y system rheoli gwybodaeth briodol. Byddai hyn yn gofyn am fewnbynnu maes ychwanegol i'r gronfa ddata cofnodion disgyblion. Mae hyn eisoes wedi'i amlinellu yn y Memorandwm Esboniadol.

| |
|---|
| Fel rwy’n ei ddeall, mae’r cofnod disgybl hwn yn dilyn disgybl drwy ei fywyd ysgol, ac felly byddai’n dilyn disgybl pe bai’n symud o un ysgol i ysgol arall. Byddai'r cofnod disgybl hwn – drwy gynnwys y maes newydd – yn datgan a yw’r disgybl hwnnw wedi manteisio ar ei brofiad addysg awyr agored breswyl 'am ddim'.<br>Felly, ar sail y trafodaethau hynny, dyna sut rwy’n rhagweld y caiff disgyblion eu holrhain yn ymarferol, yn seiliedig ar y Bil fel y’i cyflwynwyd.<br>Pe bai’r Bil yn symud yn ei flaen, ac os caiff ei ddiwygio i newid y ffordd y caiff addysg awyr agored breswyl ei darparu, efallai y bydd angen ailedrych ar y mecanwaith olrhain. Byddwn yn hapus i wneud gwaith pellach i ddadansoddi dulliau amgen o olrhain os bydd rhaid. |
| **Argymhelliad 8:** Cyn dadl Cyfnod 1, dylai'r Aelod sy'n Gyfrifol ddarparu enghreifftiau lle mae deddfwriaeth wedi gosod gofyniad ar Weinidogion i ariannu math penodol iawn o weithgaredd. |
| **Ymateb: Gwrthod**<br>Rwy’n nodi’r anhawster y cafodd y Pwyllgor o ran canfod enghreifftiau tebyg mewn deddfwriaeth i Adran 2 o’r Bil 'Cyllid ar gyfer addysg awyr agored breswyl’.<br>Wrth ddatblygu’r Bil, roeddwn yn ymwybodol bod hwn yn ddefnydd hynod anarferol o ddeddfwriaeth. Gan mai diben cyfan y Bil (a’m cynnig ar ddechrau un y broses) oedd sicrhau y byddai addysg awyr agored breswyl agored yn cael ei darparu o leiaf unwaith **am ddim**, roedd angen darpariaeth o’r fath i sicrhau bod y Bil yn bodloni’r amcan hwnnw. Rwyf hefyd yn ymwybodol iawn o’r pwysau ariannol ar ysgolion ac awdurdodau lleol ac nid wyf yn bwriadu i gostau’r Bil gael eu talu o gyllidebau presennol darparwyr addysg. Mae Adran 2 hefyd yn adlewyrchu'r amcan hwn.<br>Ni chafodd y gwaith o ddrafftio Adran 2 o’r Bil ei seilio ar unrhyw ddeddfwriaeth bresennol, ac felly nid oes gennyf enghreifftiau o ddeddfwriaeth gyfatebol i’w darparu i’r Pwyllgor. |

**Sam Rowlands**
Member of the Welsh Parliament for
North Wales
-
Aelod Senedd dros
Gogledd Cymru

**North Wales Office | Swyddfa Gogledd Cymru**
North Wales Business Park, Abergele LL22 8LJ
-
**Cardiff Office | Swyddfa Caerdydd**
Senedd Cymru, Cardiff Bay, Cardiff CF99 1SN
-
**Tel | Ffôn:** 0300 200 7267
**Email | E-bost:** sam.rowlands@senedd.wales

Peredur Griffiths AS.
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid

15 Ebrill 2024

Annwyl Peredur,

**Bil Addysg Awyr Agored Breswyl (Cymru): ymateb i adroddiad Cyfnod 1 y Pwyllgor Cyllid**

Hoffwn ddiolch i'r Pwyllgor Cyllid am graffu ar y Bil Addysg Awyr Agored Breswyl (Cymru) ("y Bil") yn ystod Cyfnod 1 ac am yr adroddiad a gyhoeddwyd ar 21 Mawrth 2024. Rwyf wedi nodi fy ymateb i gasgliadau ac argymhellion y Pwyllgor yn Atodiad A.

Nodaf fod y Pwyllgor yn fodlon ar y cyfan ar oblygiadau ariannol y Bil fel y'u nodir yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol. Yr wyf hefyd yn croesawu'n fawr, ac yn gwerthfawrogi, Gasgliad 3 y Pwyllgor ynghylch lefel y manylion a ddarparwyd ar yr amcangyfrifon cost. Wrth ddatblygu'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol, gwnaed llawer o waith, gan gynnwys gyda darparwyr addysg awyr agored breswyl, a chredaf yn wir fod y costau a nodir yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol mor gadarn ac mor gyflawn ag y gallwn fod wedi'u gwneud.

Gyda hynny mewn golwg, nid yw wedi bod yn bosibl i mi dderbyn pob un o argymhellion y Pwyllgor, fel y nodir yn Atodiad A. Hoffwn wneud y pwynt cyffredinol, fodd bynnag, pe bai'r Bil yn symud ymlaen drwy'r broses ddeddfwriaethol, y byddaf yn parhau i ddatblygu'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol a byddaf, wrth gwrs, yn cyhoeddi copi diwygiedig fel y bo'n briodol.

Yn olaf, roeddwn am ichi wybod y byddaf hefyd yn ysgrifennu at Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg a Chadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad mewn cysylltiad â'u Hadroddiadau Cyfnod 1 hwy, a byddaf yn anfon copïau o'r llythyrau at Gadeiryddion y tri Phwyllgor.

Yn gywir,

Sam Rowlands AS
**Aelod o Senedd Cymru dros Ogledd Cymru**

**Atodiad A**

**Ymateb gan Sam Rowlands, AS i Adroddiad y Pwyllgor Cyllid ar y Bil Addysg Awyr Agored Breswyl (Cymru)**

| |
|---|
| **Casgliad 1** Mae'r Pwyllgor yn fodlon, ar y cyfan, ar oblygiadau ariannol y Bil fel y'u nodir yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol, yn ddarostyngedig i'r sylwadau a'r argymhellion yn yr adroddiad hwn. Os bydd newidiadau sylweddol yn cael eu gwneud i'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol o ganlyniad i'r argymhellion a wneir yn yr adroddiad hwn, mae'n bosibl y bydd y Pwyllgor am drafod y newidiadau hynny'n fanylach.<br><br>**Casgliad 2** Mae'r Pwyllgor yn nodi'r pwysau cyllidebol y mae Llywodraeth Cymru yn ei brofi ar hyn o bryd, a hefyd yn nodi'r lefel sylweddol o gyllid sy'n ofynnol ar gyfer y Bil hwn.<br><br>**Casgliad 3** Gwnaeth lefel y manylion a ddarparwyd ar yr amcangyfrifon cost a gynhwyswyd yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol argraff ar y Pwyllgor, ac mae o'r farn bod y dull hwn yn enghraifft dda i Lywodraeth Cymru ac eraill ei dilyn o ran lefel y manylion y dylid eu cynnwys mewn perthynas â chostau deddfwriaeth.<br><br>**Casgliad 4** Mae'r Pwyllgor yn nodi bod y cyfnod arfarnu pum mlynedd ar gyfer y Bil hwn yn briodol, a'i fod yn unol â'r amserlenni a gymhwyswyd gan Lywodraeth Cymru wrth asesu effaith y Biliau y mae'n eu cyflwyno. Disgwyliwn i bob Bil gael ei drin – ac i'r gwaith craffu arno fod – ar sail gyfartal, ac i'r un safon. |
| **Ymateb: Nodwyd**<br>Rwy'n hapus bod y Pwyllgor yn fodlon ar y cyfan ar oblygiadau ariannol y Bil fel y'u nodir yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol. Yr wyf hefyd yn croesawu'n fawr, ac yn gwerthfawrogi, Gasgliad 3 y Pwyllgor ynghylch lefel y manylion a ddarparwyd ar yr amcangyfrifon cost.<br>Wrth ddatblygu'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol, gwnaed llawer o waith, gan gynnwys gyda darparwyr addysg awyr agored breswyl, a chredaf yn wir fod y costau a nodir yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol mor gadarn ac mor gyflawn ag y gallwn fod wedi'u gwneud. |

| |
|---|
| **Argymhelliad 1.** Er bod y Pwyllgor yn fodlon â'r dull a fabwysiadwyd i ddileu chwyddiant wrth gostio'r Bil, mae'r Pwyllgor yn argymell bod yr Aelod sy'n Gyfrifol yn cynnal dadansoddiad pellach o'i effaith bosibl, o ystyried lefel gyfredol chwyddiant a chost sylweddol y Bil. |
| **Ymateb: Derbyn**<br>Os cytunir ar Egwyddorion Cyffredinol y Bil, bydd dadansoddiad pellach o effaith chwyddiant yn cael ei wneud a'i gynnwys mewn Asesiad Effaith Rheoleiddiol diwygiedig. |
| **Argymhelliad 2.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod yr Aelod sy'n Gyfrifol yn cynnal rhagor o waith ar y cynnydd posibl yn y galw am arosiadau preswyl mewn canolfannau gweithgareddau awyr agored o ganlyniad i basio'r Bil. |
| **Ymateb: Derbyn**<br>Wrth ddatblygu'r Bil a'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol, gwnaed llawer o waith i ganfod beth yw'r lefelau cymryd rhan mewn addysg awyr agored breswyl ar hyn o bryd. Roedd hyn yn cynnwys edrych yn fanwl ar ddata EVOLVE a gweithio gyda'r Panel Cynghorwyr Addysg Awyr Agored (OEAP) a gynhaliodd arolwg gydag ysgolion. Mae manylion y canfyddiadau wedi'u cynnwys ym Mhennod 3 o'r Memorandwm Esboniadol – 'Diben y Bil a'r effaith y bwriedir iddo ei chael'.<br>Nod y Bil yw gwneud cynnig o addysg awyr agored breswyl yn orfodol o dan y cwricwlwm, ac mae'r costau felly yn seiliedig ar y dybiaeth y bydd 100 y cant yn manteisio ar y cynnig. Felly, gellir gwneud tybiaeth resymol o ran y cynnydd yn y galw drwy gymharu'r data a sefydlwyd gennym ar y lefel cymryd rhan ar hyn o bryd â'r dybiaeth bod 100 y cant yn cymryd rhan.<br>Yn y dyfodol, gellid dadansoddi ymhellach y cynnydd posibl yn y galw ar ôl i'r Bil gwblhau'r broses ddeddfwriaethol, a chael ei basio. Mae elfennau o'r Bil fel y'i cyflwynwyd a fydd i'w cyflawni gan Weinidogion Cymru, ac a allai gael effaith ar y galw. Bydd hyn oll yn cael ei ystyried wrth i'r Bil barhau ar ei hynt drwy'r broses ddeddfwriaethol.<br>Nodaf mai rhan o bryder y Pwyllgor yw y gallai cynnydd yn y galw arwain o bosibl at gynnydd mewn costau ar gyfer y meysydd hynny. Nid wyf yn rhagweld mai dyma fydd yr achos. Fodd bynnag, pe bai costau'n cynyddu o ganlyniad i'r Bil, byddai'n amhosibl rhagweld beth fyddai'r costau hynny a ble y gallai unrhyw gynnydd ddigwydd. |

| |
|---|
| **Argymhelliad 3.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod yr Aelod sy'n Gyfrifol yn cynnal rhagor o waith i ddadansoddi ac amcangyfrif manteision y Bil, ac i'r wybodaeth honno gael ei chynnwys mewn Asesiad Effaith Rheoleiddiol diwygiedig. |
| **Ymateb: Gwrthod**<br>Wrth ddatblygu'r Bil, y Memorandwm Esboniadol a'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol, gwnaed llawer o waith i ddadansoddi a chasglu manteision posibl addysg awyr agored breswyl. Mae llawer o fanylion am fanteision posibl y Bil wedi'u cynnwys yn y Memorandwm Esboniadol drwyddo draw, nid yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn unig.<br>Mae'r wybodaeth am y manteision sydd wedi'i chynnwys yn y Memorandwm Esboniadol wedi'i llunio yn dilyn trafodaeth faith a manwl gydag amrywiaeth eang o unigolion a sefydliadau. Mae hyn yn cynnwys trafodaeth gyda darparwyr addysg awyr agored ledled y DU ac mewn mannau eraill, yn ogystal â thrwy ddefnyddio tystiolaeth gan arbenigwyr fel y Panel Cynghorwyr Addysg Awyr Agored, a'r Sefydliad Dysgu Awyr Agored.<br>Cyfeiriaf y Pwyllgor yn benodol at:<br>• Bennod 3 – paragraff 18; paragraffau 23 i 25; paragraffau 60 i 69; paragraffau 79 i 101.<br>• Yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol – paragraffau 212 i 224.<br>Er fy mod yn gwrthod argymhelliad y Pwyllgor, nodaf a chytunaf â barn y Pwyllgor bod y "Pwyllgor yn disgwyl i Asesiadau Effaith Rheoleiddiol gynnwys yr amcangyfrif gorau posibl ar gyfer costau yn ogystal â buddion, i'w alluogi i gynnal gwaith craffu llawn ar oblygiadau ariannol cyffredinol Bil". Rwy'n fodlon bod yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol a baratowyd gennyf yn cynnwys yr amcangyfrif gorau posibl.<br>Os caiff y Bil ei basio, a'i ddeddfu, byddwn yn llwyr gefnogi unrhyw waith 'ar ôl deddfu' i ddadansoddi a yw'r Bil wedi cael yr effaith a'r manteision a ddisgwylir. |
| **Argymhelliad 4.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod yr Aelod sy'n Gyfrifol yn diweddaru'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol, i gynnwys dadansoddiad a chostau eitemau heblaw offer arbenigol y gallai fod eu hangen ar ddisgyblion pan fyddant yn cael profiad addysg awyr agored preswyl, megis dillad ac esgidiau addas. |
| **Ymateb: Gwrthod**<br>Mae hwn yn fater y rhoddais lawer iawn o ystyriaeth iddo wrth ddatblygu'r Bil a'r Memorandwm Esboniadol, ac ar ôl pwyso a mesur, nid oeddwn yn credu y dylai cost dillad ac esgidiau nad ydynt yn hanfodol fod yn rhan o'r costau ar gyfer y Bil.<br>Fel y gŵyr y Pwyllgor, diben y Bil yw galluogi pob disgybl mewn ysgolion a gynhelir i gael profiad o addysg awyr agored breswyl. I gyflawni hynny, bydd gan |

| |
|---|
| Weinidogion Cymru ddyletswydd i gymryd pob cam rhesymol i sicrhau bod cwrs addysg awyr agored breswyl yn cael ei ddarparu unwaith i bob disgybl mewn ysgolion a gynhelir, a hynny yn rhad ac am ddim.<br><br>Rwy’n deall yn llwyr y byddai disgwyl i ddisgyblion sy'n cymryd rhan mewn cwrs addysg awyr agored breswyl fynd â dillad addas fel cotiau ac esgidiau gyda hwy. Fodd bynnag, gellir ystyried y rhain fel offer nad ydynt yn hanfodol ar gyfer y gweithgareddau penodol y cânt eu cyflawni fel rhan o’r profiad, ac felly nid ydynt yn unigryw at ddibenion y Bil.<br><br>Wrth drefnu ymweliadau preswyl i ffwrdd, mae ysgolion yn rhoi rhestr i ddisgyblion o'r pethau y byddai angen iddynt fynd â hwy gyda hwy. Yn fy nhrafodaethau â darparwyr, yn aml roedd yn wir bod yr hyn yr oedd ysgolion yn ei ddweud wrth ddisgyblion yr oedd 'ei angen' arnynt y tu hwnt i'r hyn yr oedd y canolfannau eu hunain yn gofyn i ddisgyblion ddod â hwy mewn gwirionedd.<br><br>Wrth dalu am unrhyw eitemau o ddillad nad ydynt yn hanfodol, mae her hefyd o ran gwahaniaethu rhwng yr hyn y gallai fod ei angen ar ddisgyblion a'r hyn y gallent fod 'ei eisiau'. Bydd pwysau cymdeithasol yn anochel yn arwain at ofynion penodol gan ddisgyblion. Gall y dillad y mae rhai disgyblion (os nad y rhan fwyaf) yn dewis eu gwisgo fod yn nwyddau brand na fyddent yn cynnig gwerth am arian pe bai’r gost yn cael ei thalu fel rhan o’r Bil.<br><br>Mae hefyd yn dybiaeth resymol y byddai angen yr eitemau dillad hynny nad ydynt yn hanfodol eisoes ar y rhan fwyaf o ddisgyblion at ddibenion y tu hwnt i ofynion y Bil. Fel y cyfryw, nid yw’r gost wedi’i chynnwys gan nad yw’n rhywbeth y gellir ei briodoli’n uniongyrchol i’r Bil. Byddai'n amhosibl gwybod gydag unrhyw sicrwydd beth fyddai angen talu amdano yn hyn o beth. Penderfynwyd felly mai’r costau i’w cynnwys fel rhan o’r Bil ddylai fod y costau hynny y byddai angen i BOB disgybl sy’n cymryd rhan mewn cwrs addysg awyr agored breswyl eu talu.<br><br>Pan fo eitemau o ddillad nad yw disgyblion yn meddu arnynt efallai, ac eitemau a allai atal plentyn rhag cymryd rhan, gellid defnyddio’r Grant Hanfodion Ysgol i helpu i dalu’r costau hynny. Rwy’n ymwybodol bod y Pwyllgor wedi clywed tystiolaeth yn hyn o beth wrth gasglu tystiolaeth. |
| **Argymhelliad 5.** Mae’r Pwyllgor yn argymell bod yr Aelod sy’n Gyfrifol yn rhoi rhagor o wybodaeth am y modd y bydd canllawiau ynghylch y Bil yn sicrhau bod gwerth am arian yn ystyriaeth allweddol, pan fydd ysgolion yn gwneud dewisiadau am addysg awyr agored breswyl. |
| **Ymateb: Derbyn**<br><br>Mae sicrhau gwerth am arian yn dibynnu ar amrywiaeth o ffactorau. Yn ei hanfod, cydbwysedd ydyw rhwng yr hyn a gynigir a nodau’r ysgol. Mae angen cael darlun |

clir o’r hyn sy’n ofynnol gan ysgol o ymweliad, a’r hyn y bydd y darparwr yn ei ddarparu.

Y peth pwysicaf wrth asesu gwerth am arian yw a yw nodau'r ymweliad wedi'u bodloni. Gellid cyflawni hyn drwy werthusiad o'r ymweliad gan yr athro neu’r athrawes sy'n ei arwain. Byddai gwerthusiad o'r fath hefyd yn galluogi staff i nodi cryfderau a gwendidau, gwelliannau posibl ac i gynllunio ar gyfer ymweliadau preswyl yn y dyfodol. Gellir defnyddio'r gwerthusiad i ddangos defnydd effeithiol o'r cyllid.

Er mwyn cyflawni hyn, mae angen i staff ysgolion sy'n mynd gyda phlant gydnabod beth yn union yw gwerth am arian. Un ffordd o helpu yn hyn o beth yw drwy hyfforddiant ar yr hyn y mae Bathodyn Ansawdd Dysgu y tu allan i'r Ystafell Ddosbarth (LOtC) yn ei gynnwys, gan ei fod yn ymgorffori agweddau ar y ddarpariaeth sy'n annog yr amodau sy'n arwain at ganlyniadau llwyddiannus.

Mae’r Bil eisoes yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ddyroddi canllawiau mewn cysylltiad ag Addysg Awyr Agored Breswyl, a bod yn rhaid i’r canllawiau “wneud darpariaeth mewn cysylltiad â’r costau y byddai’n rhesymol mynd iddynt mewn cysylltiad ag addysg awyr agored breswyl, gan gynnwys costau bwyd a llety a chludiant ond heb fod yn gyfyngedig iddynt”. Dylai hyn roi rhywfaint o ddiogelwch bod yn rhaid i gostau ymweliadau fod yn rhesymol. Fodd bynnag, byddwn yn hapus i edrych a fyddai modd cryfhau’r darpariaethau ynghylch canllawiau yn y Bil i hyrwyddo ymhellach fod angen sicrhau gwerth am arian.

**Argymhelliad 6.** O ystyried anghenion a gofynion amrywiol disgyblion, mae'r Pwyllgor yn argymell bod yr Aelod sy’n Gyfrifol yn darparu dadansoddiad pellach o'r costau amcangyfrifedig ar gyfer disgyblion ag anghenion cymhleth ac Anghenion Dysgu Ychwanegol, a chynnwys y wybodaeth honno mewn Asesiad Effaith Rheoleiddiol diwygiedig.

**Ymateb: Gwrthod**

Mae’r Asesiad Effaith Rheoleiddiol eisoes yn cynnwys yr hyn a ystyriaf yn amcangyfrif cywir o’r costau ar gyfer disgyblion ag anghenion cymhleth i gymryd rhan mewn profiad addysg awyr agored breswyl.

Wrth ddatblygu’r amcangyfrif, rwyf wedi gweithio’n uniongyrchol gydag Ymddiriedolaeth Exmoor Calvert ac Ymddiriedolaeth Bendrigg, sef dau o brif ddarparwyr gwyliau gweithgaredd i bobl ag anableddau ac anghenion arbennig yn y DU.

Roedd y costau a ddarparwyd yn uniongyrchol gan y canolfannau hynny yn cyfateb i oddeutu dwbl cyfartaledd y gost a ddarparwyd gan y canolfannau a ymatebodd i'r arolwg a anfonwyd i gynorthwyo’r gwaith casglu data sy'n gysylltiedig â'r Bil. Mae'r costau hyn wedi'u nodi yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol.

| |
|---|
| **Argymhelliad 7.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod yr Aelod sy'n Gyfrifol yn darparu dadansoddiad pellach o gostau athrawon llanw, a chynnwys y wybodaeth honno mewn Asesiad Effaith Rheoleiddiol diwygiedig. |
| **Ymateb: Gwrthod**<br>Wrth wrthod yr argymhelliad hwn, rwy'n cydnabod bod heriau'n aml o ran dod o hyd i athrawon cyflenwi addas – fel yr amlinellwyd mewn tystiolaeth i'r Pwyllgor.<br>Fodd bynnag, wrth ddatblygu'r costau ar gyfer y Bil yn hyn o beth, rwyf wedi seilio'r amcangyfrif ar y dybiaeth y byddai athrawon cyflenwi ar gael pryd bynnag y bo angen, ac felly dylai hyn ddarparu ar gyfer y costau uchaf sy'n gysylltiedig â'r agwedd hon ar y Bil.<br>Nodaf fod y Pwyllgor wedi seilio'r argymhelliad ar ei bryderon ynghylch argaeledd athrawon cyflenwi. Ni ddylai argaeledd athrawon cyflenwi, fodd bynnag, newid costau gwirioneddol darparu'r gwasanaeth hwnnw ar sail y dybiaeth a amlinellwyd eisoes. Ni chredaf, felly, fod unrhyw danamcangyfrif, gan fy mod wedi seilio'r amcangyfrif gan gymryd bod y gwasanaeth cyflenwi hwnnw ar gael. |
| **Argymhelliad 8:** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod yr Aelod sy'n Gyfrifol yn cynnal rhagor o waith ar y goblygiadau o ran costau mewn perthynas â newidiadau posibl i Ddogfen Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol, o ganlyniad i basio'r Bil. |
| **Ymateb: Gwrthod**<br>Ni fyddai'n briodol i mi, fel Aelod unigol o'r Senedd, wneud gwaith i ystyried newidiadau posibl i Ddogfen Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol.<br>Os bydd angen newid y ddogfen honno o ganlyniad i basio'r Bil, mater i Weinidogion Cymru fyddai gweithio gydag athrawon, ac undebau, i ganfod i ba raddau y mae angen unrhyw newidiadau. |

| |
|---|
| **Argymhelliad 9.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod yr Aelod sy'n Gyfrifol yn rhoi rhagor o wybodaeth am y costau sy'n gysylltiedig ag olrhain a monitro presenoldeb disgyblion mewn profiad addysg awyr agored breswyl mewn Asesiad Effaith Rheoleiddiol diwygiedig. |
| **Ymateb: Gwrthod**<br>Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol eisoes yn cynnwys yr amcangyfrif gorau ar gyfer costau olrhain disgyblion – yn seiliedig ar drafodaethau gyda rhanddeiliaid ar y ffordd debygol y gallai'r gwaith olrhain hwnnw weithio'n ymarferol.<br>Nododd y trafodaethau hyn y gellid cynnwys gwaith olrhain ym mhob cofnod disgybl a gofnodir ar y system rheoli gwybodaeth briodol, a goblygiadau hynny fyddai mewnbynnu maes ychwanegol i'r gronfa ddata cofnodion disgyblion.<br>Nid yw'r costau hyn yn hysbys ar hyn o bryd oherwydd byddai angen i'r awdurdodau lleol holi datblygwyr y feddalwedd i gael gwybod beth fyddai'r gost. Gan fod awdurdodau lleol eisoes yn defnyddio systemau rheoli gwybodaeth, fodd bynnag, ni chredir y byddai fawr ddim costau trosiannol yn gysylltiedig â chynnwys maes ychwanegol. |
| **Argymhelliad 10.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod yr Aelod sy'n Gyfrifol yn rhoi eglurhad ar unrhyw ofynion arolygu posibl sy'n gysylltiedig â'r Bil – gan gynnwys unrhyw rôl i Estyn – a rhagor o fanylion am y modd y caiff y Bil ei fonitro'n effeithiol. |
| **Ymateb: Derbyn**<br>Bydd y Bil yn ei gwneud yn ofynnol i arian cyhoeddus gael ei ddefnyddio i ariannu cwrs addysg awyr agored breswyl fel rhan o addysg, ac rwy'n cydnabod y gellir dadlau bod angen rhyw fath o ddull rheoli ansawdd, ac asesu, i sicrhau ei fod yn cyflawni'r canlyniadau addysgol a ddymunir.<br>Gan mai'r ysgol ei hun fydd yn gosod amcanion yr ymweliad, dylai hefyd ddilyn mai'r ysgol sydd â'r cyfrifoldeb am asesu a yw'r amcanion hyn wedi'u cyflawni.<br>Cadarnhaodd Estyn ei hun mewn tystiolaeth, pe bai'r Bil yn mynd yn ei flaen ac os daw cyrsiau addysg awyr agored breswyl yn ofyniad statudol, y byddai hynny'n cael ei ystyried pan fydd Estyn yn arolygu addysgu a dysgu ysgol. Fodd bynnag, drwy ei arolygiadau arferol, ni fyddai Estyn yn edrych ar yr ymweliadau gwirioneddol y mae ysgolion yn eu cynnal nac yn llunio barn ar y rhain. Pe dymunid hyn, byddai angen i Lywodraeth Cymru roi'r dasg i Estyn i gynnal adolygiad thematig, y gallai ei wneud fel rhan o'i llythyr cylch gwaith blynyddol. Felly, ni fydd unrhyw rôl ychwanegol i Estyn fel mater o drefn. |

| |
|---|
| Mae'r fframweithiau ansawdd gwirfoddol y gall darparwyr addysg awyr agored gael mynediad atynt ar hyn o bryd yn cynnwys asesiadau o brosesau addysgu a dysgu, yn ogystal ag amrywiaeth o 'gydrannau darpariaeth' eraill, gan gynnwys diogelwch, gweinyddiaeth, ac ati. Mae systemau arolygu statudol ac anstatudol yn bodoli eisoes a chânt eu cynnal ar gost y darparwr. |
| **Argymhelliad 11.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod yr Aelod sy'n Gyfrifol yn cynnwys adolygiad ôl-weithredu mewn Asesiad Effaith Rheoleiddiol diwygiedig, ac y dylai'r adolygiad hwnnw gynnwys gwybodaeth ynghylch y modd y bydd costau a buddion cyffredinol y Bil yn cael eu monitro. |
| **Ymateb: Derbyn**<br>Fel yr amlinellwyd yn fy ymateb i Argymhelliad 3, os caiff y Bil ei basio, a'i ddeddfu, byddai angen darn sylweddol o waith i ddadansoddi a yw'r Bil yn cael yr effaith, a'r manteision, a ddisgwylir.<br>Os bydd y Bil yn symud ymlaen i Gyfnod 2, byddaf yn edrych yn fanwl ar y posibilrwydd o gynnwys adolygiad ôl-weithredu, a allai fod wedi'i osod yn well ar wyneb y Bil yn hytrach nag yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol. |

**Sam Rowlands**
Member of the Welsh Parliament for
North Wales
-
Aelod Senedd dros
Gogledd Cymru

**North Wales Office | Swyddfa Gogledd Cymru**
North Wales Business Park, Abergele LL22 8LJ
-
**Cardiff Office | Swyddfa Caerdydd**
Senedd Cymru, Cardiff Bay, Cardiff CF99 1SN
-
**Tel | Ffôn:** 0300 200 7267
**Email | E-bost:** sam.rowlands@senedd.wales

Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

15 Ebrill 2024

Annwyl Gadeirydd,

**Y Bil Addysg Awyr Agored Breswyl (Cymru): ymateb i adroddiad Cyfnod 1 y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**

Hoffwn ddiolch i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad am graffu ar y Bil Addysg Awyr Agored Breswyl (Cymru) yn ystod Cyfnod 1 ac am yr adroddiad a gyhoeddwyd ar 21 Mawrth 2024. Rwyf wedi nodi fy ymateb i gasgliadau ac argymhellion y Pwyllgor yn Atodiad A.

Byddaf hefyd yn ysgrifennu at Gadeiryddion y Pwyllgor Cyllid a'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg mewn perthynas â'u Hadroddiadau Cyfnod 1, a byddaf yn anfon copi o'r llythyrau at Gadeiryddion y tri Phwyllgor.

Yn gywir

Sam Rowlands AS
Aelod o Senedd Cymru dros Ogledd Cymru

**Atodiad A**

**Ymateb Sam Rowlands AS i adroddiad y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad ar y Bil Addysg Awyr Agored Breswyl (Cymru)**

| **Argymhelliad 1:** Er mwyn bodloni bwriad polisi'r Aelod sy'n gyfrifol ac i roi eglurder ar wyneb y Bil, dylid ei ddiwygio i gynnwys mecanwaith a fyddai'n galluogi disgybl, neu ei riant, i ddewis peidio â chael cwrs addysg awyr agored breswyl. |
|---|
| **Ymateb: Derbyn**<br>Mae'r Bil wedi'i ddrafftio i ddiwygio Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021 ("Deddf 2021") i wneud cwrs addysg awyr agored breswyl yn rhan orfodol o'r cwricwlwm, ond nodir yn y Memorandwm Esboniadol nad oes bwriad i orfodi plant i ddilyn cyrsiau o'r fath os nad ydynt yn dymuno gwneud hynny. Rwyf wedi gwneud y pwynt hwn drwy gydol proses Cyfnod 1.<br>Nid yw'r Bil yn darparu ar gyfer unrhyw elfen "optio allan" neu ddewisol gan fod darpariaeth yn Neddf 2021 eisoes, ac mewn rheoliadau a wnaed o dan y Ddeddf honno, sy'n galluogi penaethiaid ysgolion a gynhelir i benderfynu na ddylai darpariaethau'r Cwricwlwm ar gyfer Cymru fod yn gymwys i blentyn neu ddisgybl penodol. Pe na bai plentyn yn dymuno cymryd rhan yn y cwrs addysg awyr agored breswyl a ddarperir o dan y Bil, byddai'r mecanweithiau sy'n bod eisoes yn galluogi pennaeth yr ysgol i wneud penderfyniad at y diben hwnnw.<br>Mae'r Pwyllgor yn nodi y byddai hyn yn ei gwneud yn ofynnol i'r disgybl neu ei riant roi rhesymau i'r pennaeth pan fyddent  yn gofyn am benderfyniad o'r fath, ond ystyriaf fod hyn yn fanteisiol gan y byddai'n galluogi'r pennaeth i ystyried a ellid gwneud unrhyw beth i fynd i'r afael â'r pryderon cyn gwneud y penderfyniad. Yn yr un modd, mae'r Pwyllgor yn nodi mai dim ond am chwe mis y mae'r penderfyniad yn para, ond mae hyn yn rhoi cyfle i'r disgybl ailystyried a yw'n dymuno manteisio ar unrhyw gyfleoedd yn y dyfodol neu a oes angen penderfyniad arall yn y cyswllt hwn.<br>Mae'r Bil yn cadarnhau na ddylai disgyblion gael eu gorfodi i fynychu cwrs addysg awyr agored breswyl drwy ddarparu ar gyfer cyhoeddi canllawiau o dan adran 71A newydd o Ddeddf 2021. Rhaid i'r canllawiau ddarparu "nad yw addysg awyr agored breswyl yn orfodol i ddisgyblion ei mynychu". Rwy'n sylweddoli na all y canllawiau eu hunain newid effaith gyfreithiol y Bil, sy'n gwneud addysg awyr agored breswyl yn rhan orfodol o'r cwricwlwm. Fodd bynnag, y bwriad yw y byddai'r canllawiau'n nodi'n glir y dylai penaethiaid ddefnyddio eu pŵer o dan y Rheoliadau perthnasol i benderfynu nad yw'r gofyniad i ddarparu cwrs addysg awyr agored breswyl fel rhan o'r cwricwlwm yn berthnasol i blant nad ydynt yn dymuno cymryd rhan ynddo. |

| |
|---|
| O ystyried y mecanweithiau sydd eisoes ar waith, fel y nodir uchod, nid oes angen diwygio'r Bil i allu datgymhwyso'r gofyniad i ddarparu cwrs addysg awyr agored breswyl. Fodd bynnag, byddwn yn hapus i ystyried a ellid cyflwyno gwelliant o'r fath yng Nghyfnod 2 pe bai hynny'n gwneud y bwriad yn gliriach, a'i effaith yn haws i'w rheoli'n ymarferol. |
| **Argymhelliad 2:** Dylid diwygio'r Bil i gynnwys diffiniad o 'addysg awyr agored breswyl'. |
| **Ymateb: Gwrthod**<br>Yn ystod y broses o ddatblygu'r Bil a'r dystiolaeth a gasglwyd yn ystod Cyfnod 1, cafwyd safbwyntiau amrywiol ynghylch a ddylid diffinio addysg awyr agored breswyl ar wyneb y Bil ac, os felly, beth y dylid ei gynnwys mewn diffiniad o'r fath.<br>O ystyried y safbwyntiau amrywiol ar hyn, rwyf o'r farn y gallai cynnwys diffiniad ar wyneb y Bil gyfyngu ar ei weithrediad yn y dyfodol, oherwydd pe bai angen diwygio'r diffiniad hwnnw i adlewyrchu newidiadau mewn arfer neu yn y galw am rai elfennau o addysg awyr agored, byddai angen deddfwriaeth sylfaenol bellach neu ddefnyddio pŵer Harri VIII (a fyddai, yn yr achos olaf wrth gwrs, yn galluogi Llywodraeth Cymru i newid deddfwriaeth sylfaenol gyda chyfleoedd cyfyngedig i'r Senedd graffu arni).<br>Rwyf o'r farn bod y cysyniad o addysg awyr agored breswyl wedi'i nodi'n ddigonol yn y Memorandwm Esboniadol i'r Bil. Mae'r Bil hefyd yn darparu ar gyfer Cod addysg awyr agored breswyl, a allai roi llawer mwy o fanylion am yr hyn y dylai cwrs addysg awyr agored breswyl ei gynnwys yn ymarferol. Byddai hyn yn rhoi mwy o hyblygrwydd i unrhyw ddiffiniad ymateb i newidiadau mewn arfer a rhoi mwy o hyblygrwydd i ysgolion benderfynu ar y math o brofiad sy'n briodol i'w disgyblion. |

| |
|---|
| **Argymhelliad 3:** Dylid diwygio’r Bil i:<br>▪ ddileu'r cyfeiriadau at ofynion rhagnodedig y mae'n rhaid eu nodi mewn canllawiau o adran 71A newydd o Ddeddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru)2021, i'w mewnosod gan adran 1(3); a<br>▪ mewnosod y gofynion rhagnodedig hynny, ar ffurf briodol, yn adran 64Anewydd o Ddeddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021, i'w mewnosod gan adran 1(2). |
| **Ymateb: Derbyn mewn egwyddor**<br>Dyma’r cyfeiriadau yn yr adran 71A newydd at y gofynion rhagnodedig y mae’n rhaid eu nodi mewn canllawiau:<br>- darparu nad yw addysg awyr agored breswyl yn orfodol i ddisgyblion ei mynychu;<br>- darparu bod addysg awyr agored breswyl yn addas ar gyfer oedran, gallu a dawn disgybl, ac unrhyw anghenion dysgu ychwanegol sydd ganddo;<br>- darparu y caiff addysg awyr agored breswyl ei darparu yn Gymraeg, cyn belled â’i bod ar gael, os yw ysgol yn gwneud cais am hynny;<br>- gwneud darpariaeth mewn perthynas â’r costau y byddai’n rhesymol eu hysgwyddo mewn cysylltiad ag addysg awyr agored breswyl, gan gynnwys costau bwyd a llety a chludiant ond heb fod yn gyfyngedig iddynt.<br>Nodaf bryderon y Pwyllgor ynghylch y modd y mae’r Bil yn mynd i’r afael â’r gofynion hyn. Weithiau, fodd bynnag, er enghraifft, mewn perthynas â gwneud darpariaeth ynghylch costau rhesymol, efallai y byddai’n rhy ragnodol nodi’r manylion hyn ar wyneb y Bil.<br>Fodd bynnag, gallaf dderbyn yr argymhelliad mewn egwyddor. Os bydd y Bil yn symud ymlaen i Gyfnod 2, rwyf yn fodlon ystyried pob un o’r gofynion a nodir uchod i benderfynu a ellir eu rhagnodi neu a ellir ymdrin â nhw mewn ffordd wahanol er mwyn lleddfu pryderon y Pwyllgor. |

| |
|---|
| **Argymhelliad 4:** Yn sgil argymhelliad 3, dylai'r Aelod sy'n gyfrifol ystyried a oes angen i adran 71A(1) newydd o Ddeddf 2021 osod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i ddyroddi canllawiau ar addysg awyr agored breswyl.  Os bernir bod angen dyletswydd i ddyroddi canllawiau, dylid cynnwys dyletswydd o'r fath fel darpariaeth annibynnol yn Neddf 2021, nad yw'n gysylltiedig ag adran 71, a dylid diwygio'r Bil yn unol â hynny. |
| **Ymateb: Derbyn**<br>Er gwaethaf unrhyw newidiadau a wneir i'r Bil yng Nghyfnod 2 i adlewyrchu argymhelliad 3, rwyf yn dal o'r farn y dylai Gweinidogion Cymru fod â dyletswydd i gyhoeddi canllawiau i fynd i'r afael â'r materion eraill a nodir yn adran 71A arfaethedig o Ddeddf 2021. Fodd bynnag, byddwn yn fodlon cyflwyno gwelliant i gynnwys y ddyletswydd hon fel darpariaeth annibynnol nad yw'n gysylltiedig ag adran 71 o Ddeddf 2021. |
| **Argymhelliad 5:** Er mwyn sicrhau effeithiolrwydd darpariaethau'r Bil, dylai'rAelod sy'n gyfrifol ystyried a ddylid diwygio'r Bil i ddileu'r cyfeiriadau at "cyn belled â'i bod ar gael" a "pan fo ysgol yn gwneud cais am hynny" o adran 71A(3)(d)newydd o Ddeddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021, fel y'i mewnosodwyd ganadran 1(3) o'r Bil. |
| **Ymateb: Gwrthod**<br>Os caiff ei ddiwygio fel yr awgrymir uchod, byddai adran 71A(3)(d) o Ddeddf 2021 yn nodi bod yn rhaid i ganllawiau ddarparu bod addysg awyr agored breswyl yn cael ei darparu yn Gymraeg. Byddai'n dilyn wedyn y byddai'n rhaid i ysgol sy'n ceisio cynnig cwrs addysg awyr agored breswyl o dan Ddeddf 2021 roi sylw dyledus i'r gofyniad yn y canllawiau i'w ddarparu yn Gymraeg. Gallai hyn arwain at y canlyniad anfwriadol y byddai ysgolion nad ydynt yn dymuno i'r cwrs gael ei ddarparu yn Gymraeg yn cael eu hatal rhag ystyried darparwyr sy'n cynnig darpariaeth Gymraeg, ar y sail y gallai fod angen iddynt wedyn dderbyn y cynnig hwnnw hyd yn oed os nad yw'n addas ar gyfer disgyblion nad ydynt yn siarad Cymraeg. Gallai hefyd arwain at sefyllfa lle byddai darparwyr nad ydynt yn gallu cynnig profiad drwy gyfrwng y Gymraeg yn gwrthod gwneud unrhyw gynnig o gwbl. Byddai hynny, yn ei dro, yn cyfyngu ar gyfleoedd i blant gael  addysg awyr agored breswyl.<br>Diben cynnig bod y ddarpariaeth hon yn amodol ar yr hyn sydd ar gael ac ar y galw yw sicrhau mai'r ysgolion fydd yn penderfynu beth yw'r profiad gorau i'w gynnig i'w disgyblion, gan ystyried y gofynion mewn perthynas â'r Gymraeg a'r diwylliant Cymraeg a nodir yn y canllawiau. Bwriedir hefyd sicrhau nad yw darparwyr sy'n gallu cynnig darpariaeth Gymraeg yn cael eu llethu gan y galw neu, |

| |
|---|
| i’r gwrthwyneb, nad yw ysgolion yn ystyried na allant gynnig cyfle sy’n cydymffurfio â’r canllawiau oherwydd nad yw’r ddarpariaeth ar gael yn Gymraeg. |
| **Argymhelliad 6:** Yn sgil sylwadau’r Gweinidog, dylai’r Aelod sy’n gyfrifol ystyried addylid diwygio’r Bil i estyn y dyddiad erbyn pryd y mae’n rhaid dyroddi’r Cod Addysg Awyr Agored Breswyl a’r canllawiau cyntaf. |
| **Ymateb: Derbyn**<br>Fy nod yn y Bil hwn yw sicrhau bod Llywodraeth Cymru yn darparu cwrs addysg awyr agored breswyl yn rhad ac am ddim, unwaith, i ddisgyblion mewn ysgolion a gynhelir. Os yw’r Gweinidog o’r farn y byddai angen mwy o amser i sicrhau bod Cod a chanllawiau llawn a defnyddiol ar gael i gefnogi’r ddarpariaeth hon, byddwn yn fodlon ystyried cyflwyno gwelliannau at y diben hwn yng Nghyfnod 2. Fodd bynnag, byddwn yn gosod cafeat mewn perthynas â hyn, sef y byddwn yn disgwyl i’r Gweinidog bennu amserlen benodol ac y byddwn am i hyn gael ei hadlewyrchu ar wyneb y Bil. |

# Eitem 5.8

Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg
SeneddPlant@Senedd.Cymru

Eich cyf/Your ref:

Ein cyf / Our ref:

Dyddiad / Date: 16 Ebrill 2024

Annwyl aelodau'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg,

**Tŷ Cariad**

Diolch i chi am y cyfle i siarad ger bron y pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ar 20 Mawrth fel rhan o'i rhaglen graffu flynyddol. Gobeithio bod hynny wedi bod o fudd i'r aelodau.

Fel cam gweithredu, gofynnwyd i Arolygiaeth Gofal Cymru ddarparu nodyn yn amlinellu ei hymateb mewn perthynas â chartref plant Tŷ Cariad. Caiff ei atodi at sylw aelodau'r pwyllgor.

Yn gywir

Gillian Baranski
**Prif Arolygydd**
Arolygiaeth Gofal Cymru

Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)
Swyddfa Merthyr Tudful
Llywodraeth Cymru
Adeiladau'r Llywodraeth
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ
www.arolygiaethgofal.cymru

0300 7900 126
ciw@gov.wales

Care Inspectorate Wales (CIW)
Merthyr Tydfil Office
Welsh Government
Government Buildings
Rhydycar Business Park
Merthyr Tydfil
CF48 1UZ
www.careinspectorate.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**Cartref Plant Tŷ Cariad sy'n cael ei weithredu gan New Possibilities in Living and Learning Ltd**

**Diddordeb yn y cyfryngau**

Ar 3 Mawrth 2024, cyhoeddwyd erthygl ar Wales Online:
*Children's home hit by damning inspection and fears for safety - Wales Online*

Roedd yr erthygl yn sôn am gartref gofal plant Tŷ Cariad, sy'n cael ei weithredu gan New Possibilities in Living and Learning Ltd. Mae'r gwasanaeth wedi'i gofrestru i ddarparu llety ar gyfer hyd at 3 phlentyn/person ifanc.

**Arolygiadau AGC, camau gorfodi a chamau gwella**

Dylai aelodau'r pwyllgor nodi'r canlynol:

Mawrth 2022
Cynhaliodd AGC arolygiad a nododd achosion o ddiffyg cydymffurfio â'r rheoliadau yn y meysydd canlynol:

- Rheoliad 6 - Y gofynion mewn perthynas â darparu'r gwasanaeth hwn
- Rheoliad 7 - Methu â darparu'r gwasanaeth yn unol â'r Datganiad o Ddiben
- Rheoliad 14 (1) - Addasrwydd y gwasanaeth
- Rheoliad 26 - Methu â sicrhau bod y plant yn cael eu diogelu

O ganlyniad, cyhoeddodd AGC bedwar Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

4 Ionawr 2023
Cynhaliodd AGC arolygiad pellach. Bu oedi rhwng yr arolygiadau gan nad oedd unrhyw blant yn byw yn y cartref am gyfnodau hir yn ystod 2022.

Yn ystod yr arolygiad, nododd AGC na fu llawer o gynnydd o ran ceisio sicrhau cydymffurfiaeth er mwyn gwella'r canlyniadau i blant. Penderfynwyd y dylai'r pedwar hysbysiad barhau'n weithredol, a nodwyd pedwar maes ychwanegol fel Meysydd i'w Gwella. Roedd hyn yn cynnwys cynlluniau personol, trefniadau asesu, darparu canllaw cywir i'r gwasanaeth a safonau'r gofal a'r cymorth.

9 Mawrth 2023
Oherwydd methiant parhaus y darparwr i wneud gwelliannau, dilynodd AGC ei phroses gorfodi a gwella. Penderfynwyd y dylid cynnal arolygiad arall o'r gwasanaeth.

26 Medi 2023
Yn dilyn y penderfyniad a wnaed ym mis Mawrth i gynnal arolygiad arall o'r gwasanaeth, cynhaliwyd arolygiad pellach yn ystod mis Medi er mwyn rhoi amser i'r gwasanaeth wneud y gwelliannau a nodwyd. Gwelsom welliannau mewn dau faes, ond nid oedd y gwasanaeth wedi ymdrin â dau faes arall. O ran y meysydd i'w gwella, roedd un wedi cael ei gyflawni ond nid ymdriniwyd â'r tri arall mewn modd boddhaol. Nodwyd maes ychwanegol i'w wella hefyd mewn perthynas â rheoli meddyginiaethau.

Hydref 2023
Yn dilyn cyfarfod arall gan y Panel Gorfodi a Gwella Gwasanaeth, yn sgil y diffyg gwelliannau, cyhoeddwyd Hysbysiad Gwella i ganslo cofrestriad y gwasanaeth ar 23 Hydref 2023. Rhoddir cyfle i'r darparwr gyflwyno tystiolaeth o welliannau, a phennwyd dyddiad o 1 Chwefror 2024 ar gyfer gwneud hynny.

Chwefror 2024
Cyflwynwyd tystiolaeth gan y darparwr, a gwnaethom ei hadolygu. Roedd Unigolyn Cyfrifol newydd wedi cael ei gymeradwyo ar gyfer y gwasanaeth, ac roedd y rheolwr a'r dirprwy reolwr blaenorol wedi gadael. Cafodd gwybodaeth ei chyflwyno gan yr Unigolyn Cyfrifol i gefnogi'r gwelliannau a wnaed.

Bwriedir cynnal adolygiad dirybudd yn y dyfodol agos er mwyn canfod a yw darparwr y gwasanaeth wedi cymryd camau priodol.

**Cais Rhyddid Gwybodaeth**

Cyhoeddwyd yr erthygl yn y cyfryngau yn dilyn cais Rhyddid Gwybodaeth mewn perthynas â nifer o wasanaethau lle roedd AGC wedi cyflwyno hysbysiadau gweithredu â blaenoriaeth.

cymwysterau.cymru
qualifications.wales

QW180424

18 Ebrill 2024

Annwyl gydweithiwr,

Yn dilyn ein gohebiaeth ar 13 Mawrth 2024, dyma'r wybodaeth ddiweddaraf am y gyfres newydd o Cymwysterau Cenedlaethol 14-16 isod. Gan adlewyrchu egwyddorion cynnydd a phedwar diben Cwricwlwm i Gymru, bydd y cymwysterau hyn yn paratoi pobl ifanc ar gyfer bywyd, dysgu a gwaith, gan eu helpu i fod yn gymwys ar gyfer y dyfodol.

Mae safbwyntiau rhanddeiliaid yn parhau i lywio ein syniadau a'n penderfyniadau, ac mae gennym ddau ymgynghoriad byw yr hoffem i chi gwblhau.

**Ymgynghoriad ar Gymwysterau Cenedlaethol 14-16 mewn amgylchedd adeiledig, iechyd a gofal cymdeithasol, a gofal plant a pheirianneg**

Yr wythnos hon, gwnaethom gyhoeddi ein hymgynghoriad ar Gymwysterau Cenedlaethol 14-16 mewn amgylchedd adeiledig, iechyd a gofal cymdeithasol, a gofal plant a pheirianneg ac rydym yn gofyn am eich barn ynghylch a ddylid cynnig y cymwysterau fel TAAU neu fel TGAU.

Fel rhan o'n hymgynghoriad TGAU Gwneud-i-Gymru, gwnaethom gadarnhau y byddai cymwysterau TGAU mewn amgylchedd adeiledig, iechyd a gofal cymdeithasol a gofal plant a pheirianneg.

Ers hynny, rydym wedi datblygu'r cynnig Cymwysterau Cenedlaethol 14-16 ymhellach, gan gynnwys creu brand TAAU newydd ac rydym bellach yn gofyn am eich barn ynghylch a allai'r pynciau hyn gael eu cynllunio'n well fel TAAU.

Darganfyddwch fwy drwy ddarllen ein dogfen ymgynghori a'n hasesiad effaith integredig a chwblhau'r arolwg byr.

Bydd ein hymgynghoriad yn rhedeg am ychydig o dan wyth wythnos, ac yn cau ddydd Llun 10 Mehefin 2024.

**Ymgynghoriad ar y dull arfaethedig o ddynodi cymwysterau 14-16**

Wrth i Gymwysterau Cenedlaethol 14-16 cymeradwy newydd gael eu haddysgu o 2025, byddant yn disodli'r rhan fwyaf o'r cymwysterau cyn-16 eraill a ariennir yn gyhoeddus sydd ar gael ar hyn o bryd. Felly, dim ond mewn rhai amgylchiadau eithriadol y byddwn ni'n dynodi cymwysterau i bobl ifanc 14-16 oed.

Mae ein hymgynghoriad yn cynnwys cwestiwn a fydd o ddiddordeb i chi a'ch cydweithwyr, sy'n gofyn am enghreifftiau o gymwysterau yr ydych yn eu hystyried yn hanfodol i ddysgwyr a'r dystiolaeth y dylem eu hystyried wrth benderfynu gwneud eithriadau i'n hegwyddorion arweiniol.

Fedrwch ddweud eich dweud a helpu i lywio ein penderfyniadau drwy gwblhau'r arolwg ymgynghori yma. Bydd yr ymgynghoriad yn cau ddydd Mawrth 14 Mai 2024.

**Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru**

Ochr yn ochr â'n hymgynghoriadau, mae Llywodraeth Cymru hefyd yn edrych am farn ar ganllawiau drafft ar ddysgu 14 i 16 o dan y Cwricwlwm i Gymru.

Maent yn ymgynghori ar ganllawiau drafft:

- esbonio'r gofynion cyfreithiol ar gyfer cwricwlwm ysgol ar gyfer dysgwyr 14-16 oed o dan y Cwricwlwm i Gymru
- cefnogi ysgolion i ddylunio cynnig cwricwlwm sy'n bodloni'r gofynion hynnyblaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer dysgu ac addysgu ym mlwyddyn 10 ac 11

Daw'r ymgynghoriad hwn i ben ar ddydd Mercher 8 Mai 2024.

Mewn newyddion eraill, rydym wedi cyhoeddi'r canlynol:

**Meini prawf cymeradwyo ar gyfer TGAU Gwyddoniaeth Integredig Gwneud-i-Gymru newydd(Dyfarniad Unigol)**

Bydd y cymhwyster TGAU hwn yn sefyll ochr yn ochr â TGAU newydd i Gymru - TGAU y Gwyddorau (Gwobr Ddwbl) - sydd wedi'i gynllunio i fod y prif gymhwyster gwyddoniaeth a gymerwyd gan y mwyafrif o bobl ifanc 14-16 oed yng Nghymru. Darganfyddwch fwy drwy glicio yma.

**Rasio BMX, sglefrfyrddio a saethu wedi eu hychwanegu at rhestr chwaraeon a gweithgareddau corfforol**

Mae'r rhestr wedi'i diweddaru wedi'i chynllunio i gynnwys ystod ddiddorol a chynhwysol o chwaraeon a gweithgareddau corfforol unigolion a thîm priodol i ddysgwyr ddewis ohonynt. Darllenwch y stori newyddion llawn yma.

**Pryd fydd dysgwyr yn dechrau cymryd y cymwysterau hyn?**

Bydd yr ystod lawn o Gymwysterau Cenedlaethol 14-16 ar gael erbyn mis Medi 2027, a byddant yn cynnwys TGAU, TAAU (Tystysgrif Alwedigaethol Addysg Uwchradd), cymwysterau Sylfaen a'r Cyfres sgiliau (cynnwys cymwysterau Sgiliau ar gyfer Gwaith a Sgiliau am Oes, a chymhwyster Prosiect Personol).

Bydd Cymwysterau Cenedlaethol 14-16 yn cael eu cyflwyno'n raddol dros dair blynedd, gan ddechrau gyda TGAU mewn dau gam yn 2025 a 2026. Yna bydd TGAU Iaith Arwyddion

Prydain (BSL), TAAU, cymwysterau sgiliau a chymwysterau Sylfaen yn cael eu cyflwyno yn 2027, a bydd ysgolion, athrawon a dysgwyr yn cael eu cefnogi drwy'r cyfnod pontio.

**Beth fydd yn digwydd nesaf?**

Rydym yn parhau i gynnwys ymarferwyr a rhanddeiliaid yn ein gwaith ar Cymwysterau Cenedlaethol 14-16,  gydag ymgysylltiad pellach ac ymgynghoriad TGAU Iaith Arwyddion Prydain wedi'i gynllunio ar gyfer diwedd 2024. Byddwn yn parhau i weithio'n agos, eleni ac yn 2025, gyda chyrff dyfarnu wrth iddynt ddatblygu'r cymwysterau TAAU, cyfres sgiliau a cymwysterau sylfaen. Bydd y cymwysterau hyn yn cael eu cymeradwyo erbyn mis Medi 2026, gan roi blwyddyn academaidd lawn i ysgolion baratoi ar gyfer addysgu am y tro cyntaf ym mis Medi 2027.

Bydd pecyn o adnoddau addysgu a dysgu ar gael i gefnogi'r cyfnod pontio, a gellir cael mynediad at yr holl wybodaeth am y Cymwysterau Cenedlaethol 14-16 drwy ein porth Dweud Eich Dweud.


**Darganfyddwch fwy**

Mae rhagor o fanylion a chyhoeddiadau hefyd ar gael ar y Gwefan Cymwysterau Cymru.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am y Cymwysterau Cenedlaethol 14-16, yna cysylltwch â ni a phostiwch eich cwestiynau ar y dudalen Cwestiynau ac Ateb.

Diolch unwaith eto am eich cefnogaeth a byddwn yn parhau i'ch hysbysu a'ch cynnwys wrth i ni symud ymlaen ar y daith Cymwysterau Cenedlaethol 14-16.

Yn gywir,



**Cassy Taylor** –

*Cyfarwyddwr Gweithredol Polisi a Diwygio Cymwysterau*

**Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg**
—
**Children, Young People and Education Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddPlant@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddPlant
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddChildren@senedd.wales
senedd.wales/SeneddChildren
0300 200 6565

Lynne Neagle AS
Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg

Lesley Griffiths AS
Ysgrifennydd y Cabinet dros Ddiwylliant a Chyfiawnder Cymdeithasol

Jayne Bryant AS
Y Gweinidog Iechyd Meddwl a'r Blynyddoedd

22 Ebrill 2024

**A yw plant a phobl ifanc anabl yn cael mynediad cyfartal at addysg a gofal plant?**

Annwyl Lynne, Lesley, a Jayne,

Fel y gwyddoch efallai, rydym wedi bod yn cynnal ymchwiliad eang ei gwmpas i weld a oes gan blant a phobl ifanc anabl a niwroamrywiol fynediad cyfartal at addysg a gofal plant. Mae'r dystiolaeth rydym wedi'i chasglu yn ystod yr ymchwiliad hwn gan weithwyr proffesiynol a phlant, pobl ifanc a'u teuluoedd wedi bod yn ddifrifol iawn, a chafwyd enghreifftiau niferus o hawl sylfaenol plant a phobl ifanc i addysg yn cael ei wrthod. Mae'r holl dystiolaeth rydym wedi'i chasglu ar gael ar-lein.

Daeth ein gwaith o gasglu tystiolaeth i ben ddiwedd y llynedd pan gynhaliwyd sesiwn dystiolaeth gyda'ch rhagflaenwyr, y Gweinidog Addysg a'r Gymraeg a'r Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Prif Chwip ar y pryd; a'r Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol ar y pryd. Ar hyn o bryd rydym yn paratoi ein hadroddiad i'w gyhoeddi cyn diwedd tymor yr haf, ac rydym yn ymwybodol y byddwn yn defnyddio tystiolaeth eich rhagflaenwyr.

Roeddem felly am roi cyfle i chi roi unrhyw wybodaeth ychwanegol y credwch y byddai'n ddefnyddiol i ni ei chael wrth baratoi'n hadroddiad a'n casgliadau. Efallai y byddwch yn teimlo nad oes angen i chi ddiweddaru'r dystiolaeth. Os felly, byddwn yn ddiolchgar pe baech yn cadarnhau hynny.

Mae'r dystiolaeth ysgrifenedig a gafwyd gan Lywodraeth Cymru yn flaenorol ar gael ar ein tudalen we; ynghyd â'r trawsgrifiad o'r sesiwn tystiolaeth lafar.

Byddwn yn ddiolchgar pe gallech ymateb erbyn 22 Mai.

I gloi, edrychaf ymlaen at weithio gyda chi i gyd yn fy rôl newydd fel Cadeirydd y Pwyllgor. Rwy’n bwriadu adeiladu ar y gwaith rhagorol rydym wedi’i wneud ers 2021 o dan ein Cadeirydd blaenorol, Jayne; gwaith rwy’n falch o fod wedi bod yn rhan ohono o’r dechrau.

Yn gywir

Buffy Williams AS,

Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.

**Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg**
—
**Children, Young People and Education Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddPlant@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddPlant
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddChildren@senedd.wales
senedd.wales/SeneddChildren
0300 200 6565

Lynne Neagle AS
Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg

23 Ebrill 2024

**Pryderon am weithredu'r system Anghenion Dysgu Ychwanegol**

Annwyl Lynne,

Llongyfarchiadau ar eich penodiad i swydd Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg. Edrychaf ymlaen at weithio'n adeiladol gyda chi a'ch swyddogion ledled y Senedd er budd plant a phobl ifanc ledled Cymru.

Ar 20 Mawrth 2024, clywodd cydweithwyr sy'n aelodau o'r Pwyllgor hwn dystiolaeth gan y Barnwr Jane McConnell, Llywydd Tribiwnlys Addysg Cymru. Roedd y sesiwn dystiolaeth yn rhan o'n hymchwiliad drwy gydol y Senedd hon i weithredu'r cwricwlwm newydd a'r diwygiadau Anghenion Dysgu Ychwanegol ("ADY").

Cododd y Barnwr Jane McConnell nifer o bwyntiau hollbwysig ynghylch cyflwyno'r diwygiadau ADY. Yn dilyn y sesiwn dystiolaeth, cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu at Lywodraeth Cymru i godi rhai o bryderon allweddol y barnwr, a oedd yn atseinio'n arbennig o gryf â'r hyn yr oedd aelodau'r Pwyllgor wedi'i glywed gan arweinwyr ysgolion a rhieni.

**Nid yw'r diffiniad o Anghenion Dysgu Ychwanegol fel y'i nodir yn Neddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 ("y Ddeddf ADY") yn cael ei ddehongli'n gyson gywir gan awdurdodau lleol, ysgolion a cholegau Addysg Bellach ("AB") drwyddynt draw. O ganlyniad, mae gan rai awdurdodau lleol ac ysgolion bolisïau ADY sy'n anghyfreithlon**.

Dywedodd y Barnwr Jane McConnell wrthym nad oes gwahaniaeth rhwng y diffiniad o ADY o dan y system newydd a'r diffiniad o Anghenion Addysgol Arbennig ("AAA") o dan yr hen system. Er nad

yw’r diffiniad sylfaenol hwn wedi newid, mae’r Ddeddf yn cael ei chamddehongli gan rai ysgolion ac awdurdodau lleol:

> *“We are three to four years into this transition. I think I am concerned, based on the cases that are coming to us, that there are still some very basic concepts that are not being understood uniformly across Wales. And when I say across Wales, I'm talking about not just local authorities, but schools, FE colleges.”*

Esboniodd wrthym y bydd y gyfraith bob amser yn drech na’r polisi. Er enghraifft, dywedodd wrthym fod rhai sefydliadau’n nodi nad oes angen Cynllun Datblygu Unigol (“CDU”) ar blentyn oherwydd bod modd diwallu ei anghenion drwy ddarpariaeth gyffredinol. Fodd bynnag:

> *“…there's no such thing as universal provision in the law. It's not in the ALN Act, it's not in the regulations, it's not mentioned in the code.… The legal tests are a child compared with the ordinary developing child, or provision that's provided in mainstream schools across Wales, so it's not specific to a particular local authority area, or a particular school even…”*[1]

Drwy ei waith ymgysylltu, mae’r Pwyllgor hefyd wedi clywed gan arweinwyr ysgolion a rhieni, fod Cynlluniau Datblygu Unigol wedi’u gwrthod ar gyfer plant oherwydd bod yr ysgol yn credu y gellir diwallu eu hanghenion drwy ddarpariaeth gyffredinol.

**Nid yw awdurdodau lleol bob amser yn darparu Cynlluniau Datblygu Unigol sy’n seiliedig ar awdurdodau lleol ar gyfer plant sy’n bodloni’r trothwy ar gyfer Cynllun o’r fath.**

Amlinellodd y Barnwr Jane McConnell duedd wrthym mewn achosion fel a ganlyn:

- “there is a fundamental dispute whether the child has ALN or not, when the child has previously had a statement of SEN. Now, legally—and, remember, I can only apply, or we can only apply, the law to the evidence we've got—there'd be absolutely no reason why that child shouldn't have not only an IDP, but an IDP that's actually a local authority-based IDP.”[2]

- “children are placed in special schools, but they don't have an IDP that's maintained by the local authority. That just doesn't stack up as far as the law is concerned…”[3]

---

[1] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion: 20/03/24, paragraff 150

[2] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg Cofnod y Trafodion: 20/03/24, paragraff 147

[3] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg Cofnod y Trafodion: 20/03/24, paragraff 149

Ychwanegodd ei bod wedi ei "synnu" ynglŷn â'r dryswch yma o ystyried nad yw'r "trothwy ynglŷn â phryd mae'n angenrheidiol yn wahanol iawn, os yw'n wahanol o gwbl, i'r diffiniad o dan y ddeddfwriaeth Anghenion Dysgu Arbennig."[4]

Mae'r Pwyllgor hefyd wedi clywed tystiolaeth anecdotaidd debyg gan rieni ac arweinwyr ysgolion am awdurdodau lleol yn amharod i roi Cynlluniau Datblygu Unigol ar sail ysgolion a gynhelir gan awdurdodau lleol i blant â lefelau uchel o Anghenion Dysgu Ychwanegol.

**Mae'r Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol Cymru 2021 ("y Cod") yn "ddeallusol heriol".**

Pwysleisiodd y Barnwr Jane McConnell wrthym nad oedd yn meddwl bod unrhyw un mewn swyddfa awdurdod lleol neu ysgol sy'n eistedd yno'n bwrpasol yn gwneud hyn yn anghywir, ond dywedodd fod camddehongli yn digwydd.[5] Dywedodd wrthym ei bod yn gweld y Ddeddf ADY a'r Cod yn "her ddeallusol", ac y gallai rhieni, swyddogion awdurdodau lleol a hyd yn oed Gydlynwyr ADY hefyd ei chael yn her ddeallusol.[6]

Mae'r dystiolaeth hon, ochr yn ochr â'r gwaith ymgysylltu yr ydym wedi'i wneud, yn dangos mai un rheswm allweddol pam fod y Ddeddf a'r Cod yn cael eu dehongli'n anghyson ac yn anghywir yw eu bod wedi'u drafftio'n aneglur.

**Nid oes unrhyw fecanwaith y gall y tribiwnlys ei ddefnyddio i nodi'n ffurfiol yr awdurdodau lleol sy'n 'droseddwyr mynych': h.y., awdurdodau lleol sy'n cymhwyso'r Ddeddf a'r Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol yn gyson yn anghywir.**

Dywedodd y Barnwr Jane McConnell wrthym:

> *"There's one local authority that has really been clear to their schools. The message to schools has been that any child who had a statement previously will now have an IDP maintained by the school. Anybody on school action or school action plus will have nothing, and the only children that will have an IDP that is to be maintained by the local authority are those who are in the categories under the code for looked-after children, children who require EOTAS, their education otherwise than at school, et cetera, et cetera."*[7]

---

[4] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg Cofnod y Trafodion: 20/03/24, paragraff 155

[5] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg Cofnod y Trafodion: 20/03/24, paragraff 147

[6] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg Cofnod y Trafodion: 20/03/24, paragraff 153


[7] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg Cofnod y Trafodion: 20/03/24, paragraff 165

Dywedodd wrthym fod y rhan fwyaf o awdurdodau lleol yng Nghymru yn barod i dderbyn dyfarniadau’r tribiwnlys, ac maent yn newid y ffordd y maent yn cymhwyso’r Ddeddf yn unol â hynny. Mae rhai yn benderfynol iawn, fodd bynnag, mai eu polisi nhw yw’r ffordd orau i weithredu, ac rydym wedi eu gweld, droeon, yn dod atom gyda’r un broblem. Fodd bynnag, dywedodd wrthym nad oes unrhyw fecanwaith ar gyfer adrodd yn ôl ar y ffaith bod awdurdod lleol penodol, neu ran o awdurdod lleol hyd yn oed, yn cymhwyso’r gyfraith yn anghywir yn gyson, a fyddai’n awgrymu, o bosibl, nad yw polisi’n cael ei ddeall neu nad yw’n cydymffurfio’n gyfreithiol.”[8]

Cododd y Barnwr Jane McConnell gyfres o bryderon pwysig eraill, y byddwn yn parhau i’w hystyried yn fanwl drwy gydol ein gwaith craffu. Roedd y Pwyllgor mor bryderus, fodd bynnag, ynghylch pa mor sylfaenol y mae rhai awdurdodau lleol ac ysgolion yn cam-gymhwyso’r Ddeddf fel bod Aelodau’r Pwyllgor am ddwyn y pwyntiau allweddol hyn i’ch sylw cyn gynted â phosibl.

Edrychwn ymlaen at drafod y materion hyn ac eraill yn fwy manwl gyda chi pan fyddwch yn ymddangos gerbron y Pwyllgor ddydd Mercher 8 Mai. Yn y cyfamser, gobeithio y bydd y wybodaeth hon yn ddefnyddiol i chi.

Yn gywir,



Buffy Williams AS,

Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.

[8] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg Cofnod y Trafodion: 20/03/24, paragraff 186

**Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg**
—
**Children, Young People and Education Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddPlant@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddPlant
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddChildren@senedd.wales
senedd.wales/SeneddChildren
0300 200 6565

Lynne Neagle MS

Cabinet Secretary for Education

23 April 2024

**Concerns about participation in higher education**

Dear Lynne,

During its meeting on 20 March 2024, the Children, Young People and Education Committee noted and discussed a letter to the then Committee chair, Jayne Bryant MS, from Universities Wales about the participation of Welsh young people in higher education.

The letter stated the following:

- The percentage of Welsh domiciled 18 year olds entering higher education in 2023/24 was 29.9%, compared to 49.5% in London, 40.2% in Northern Ireland and 38.5% in South East England.
- In the UK overall, those in IMD category Quintile 1 (the most deprived) enter at a rate of 26% whereas in Wales it's 18.9%. There is significant regional disparity too: quintile 1 young people in South Wales are more likely to access higher education than quintile 1 young people in North Wales.
- Increasing numbers of students from England choosing to study in Wales is masking participation challenges among Welsh domiciled young people.


We have also noted a recent BBC news article announcing that almost 200 jobs are being cut at Swansea University, and that both Cardiff University and Cardiff Metropolitan University were "facing financial problems and redundancies could yet be on the cards". The article quotes Professor Dylan Jones-Evans as calling for a review of the way that Welsh higher education is funded.



Senedd Cymru
Welsh Parliament

The Committee would be grateful for your initial views on the above, and what action, if any, your department is taking – or you plan to take - to address the concerns set out above. We would be grateful for a response no later than 7 June.

Yours sincerely,



Buffy Williams MS,

Chair

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.

**Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol**
—
**Health and Social Care Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddIechyd@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddIechyd
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddHealth@senedd.wales
senedd.wales/SeneddHealth
0300 200 6565

Buffy Williams MS
Cadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

24 Ebrill 2024

Annwyl Buffy

Llongyfarchiadau ar gael eich penodi'n Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg.

Rwy'n ysgrifennu atoch i roi gwybod bod y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol wedi nodi 'llythrennedd iechyd' fel Maes o Ddiddordeb Ymchwil, ac wedi gofyn i Dr Emily Marchant o Brifysgol Abertawe wneud gwaith ar ein rhan yn y maes hwn.

Cyflwynodd Dr Marchant ei hadroddiad cyntaf, sef 'Iechyd, Addysg a Ffyniant i Bawb: Profi Llythrennedd Iechyd yng Nghymru', i'r Pwyllgor ar 6 Rhagfyr 2023, ac mae bellach wedi cwblhau ei hail adroddiad, a'r olaf, ar y pwnc, sef 'Llythrennedd iechyd yn yr ysgol ar gyfer plant a phobl ifanc yng Nghymru'. Mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio ar lythrennedd iechyd plant a phobl ifanc, gan eirioli o blaid integreiddio llythrennedd iechyd i'r cwricwlwm ysgol i ymdrin ag anghydraddoldebau iechyd. Mae Dr Marchant yn gwneud nifer o argymhellion, gan gynnwys pwysigrwydd ymwreiddio llythrennedd iechyd fel fframwaith damcaniaethol, ystyried meysydd beirniadol ochr yn ochr â llythrennedd swyddogaethol, a blaenoriaethu hyfforddiant a datblygiad proffesiynol athrawon.

Trafododd y Pwyllgor yr adroddiad yn ei gyfarfod ar 17 Ebrill, a chytunwyd y dylid ei ddwyn i sylw eich Pwyllgor. Byddwn hefyd yn ysgrifennu at Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg i ofyn iddynt am wybodaeth am y camau i integreiddio llythrennedd iechyd ym mholisïau Llywodraeth Cymru. Byddaf yn rhannu'r ymatebion gyda chi pan fyddant yn dod i law.

Yn gywir



Russell George AS
Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu yn Saesneg. We welcome correspondence in Welsh or English.

National Deaf Children's Society
CYMRU

ndcs.org.uk

Ground Floor South
Castle House
37–45 Paul Street
London EC2A 4LS

T 020 7490 8656 (v/t)
E ndcs@ndcs.org.uk

Freephone helpline
Llinell gymorth rhadffôn
0808 800 8880 (v/t)

Sent by email

Buffy Williams MS
Chair of the Children, Young People and Education Committee
Welsh Parliament
Cardiff Bay
CF99 1SN

30th April 2024

Dear Buffy Williams MS,

**Congratulations on your appointment as Chair of the Children, Young People And Education Committee**

On behalf of the National Deaf Children's Society, we would like to extend a warm congratulations to you following your successful election and subsequent appointment as Chair of the CYPE Committee. We look forward to working with you closely in the years to come to improve the lives of deaf children and young people across Wales.

As you will already be aware, the National Deaf Children's Society contributed to the consultation and evidence giving in the inquiry on the access to education and childcare for disabled children. Whilst we eagerly await the release of the committee's report and its recommendations to the Welsh Government, we have also heard that its findings are heart-wrenching. As the leading charity for Deaf children and young people in Wales and across the UK, we stand ready and willing to continue our work with the committee under your leadership to help improve the standards and outcomes for disabled children in Wales in this spirit of the inquiry.

You may also know that a petition calling for further investment into Teachers of the Deaf (ToDs) has recently finished collecting signatures. We played a pivotal role in supporting the petitioner, Ros Hannam, in the development and promotion of this petition. Given childhood deafness is low incidence and being fully aware of the current landscape in relation to the Additional Learning Needs reforms, we were heartened to see that the petition managed to gain 1,431 signatures – a number equal to roughly 62% of the deaf children in Wales according to our most recent annual Consortium for Research in Deaf Education (CRIDE) report.

Teachers of the Deaf (ToDs) play a vital role in not just supporting the child, but the family and the school in the development of the child's education and social progression. Unlike in England and Scotland, Wales has no specialist schools for deaf

We are the National Deaf Children's Society, the leading charity for deaf children.

Chief Executive: Susan Daniels OBE
Registered Office: Ground Floor South, Castle House, 37–45 Paul Street, London EC2A 4LS
The National Deaf Children's Society is a registered charity in England and Wales (1016532) and in Scotland (SC040779). Company limited by guarantee registered in England no. 2752456

Y Gymdeithas Genedlaethol i Blant Byddar ydyn ni, y brif elusen ar gyfer plant byddar.

Prif Weithredwr: Susan Daniels OBE
Swyddfa gofrestredig: Ground Floor South, Castle House, 37–45 Paul Street, Llundain EC2A 4LS
Mae'r Gymdeithas Genedlaethol i Blant Byddar yn elusen gofrestredig yn Lloegr a Chymru (1016532) ac yn Yr Alban (SCO40779). Cwmni cyfyngedig trwy warant a gofrestrwyd yn Lloegr rhif 2752456

Registered with FUNDRAISING REGULATOR

learners, meaning most deaf children are educated in mainstream schools. ToDs guide both the family and the school in advising what equipment would be best to support the child alongside assisting in their education, which is crucial as every child is different with different needs and preferences. It is a role that is of great importance given most schools and teachers will be unfamiliar in matters relating to deafness and that 90% of deaf children are born into hearing families with no personal experience.

In our evidence to the committee, we noted our concern that the number of ToDs has been dwindling over the years. Compared to 2011 levels, in our 2023 CRIDE report we highlighted that there has been a 17% reduction in ToDs across the country. Additionally, roughly one in three of the ToDs currently in the workforce are also due to hit retirement age over the next decade. Given the length of time it takes to train to become a ToD, if the Welsh Government does not commit to urgent action, there is a very real possibility of deaf children facing a crisis in education that could take years to rectify, alongside needing significant additional investment.

We are mindful of the comments of the former Minister for Education where he stressed that local authorities have access to resources to invest in the ALN workforce. Whilst we are deeply grateful for this investment, ToDs on the ground tell us that LAs appear to use this by trying to keep provisions at the same level as they currently are, rather than expanding them. We worry that this approach, especially given the 17% reduction since 2011, may result in deaf children not being able to access the support they need.

Given the impending release of the committee's report and indeed the petition's development, it is our deeply held hope that the CYPE Committee and the Petitions Committee will work together alongside us to call on the Welsh Government to ensure deaf children are not left behind in the classroom by ensuring there is a sustainable ToD workforce strategy in place.

We are open to meet with you to discuss the report and its findings following its release. In the meantime, the National Deaf Children's Society will also be attending the first "Y Farchnad" on 14th May and we would of course be incredibly grateful should you, and/or other members of the committee, stop by to speak to us in the Oriel.

Looking forward to hearing from you soon.

With very best wishes,

H. Badjie K. Sawdon

Hazel Badjie
Head of Policy and Influencing in Wales

Kieran Sawdon
Wales Policy and Campaigns Officer

**Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol**

—

**Culture, Communications, Welsh Language, Sport, and International Relations Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDiwylliant@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDiwylliant
0300 200 6565

—

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddCulture@senedd.wales
senedd.wales/SeneddCulture
0300 200 6565

Jeremy Miles AS
Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a'r Gymraeg
Lynne Neagle AS
Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg
Llywodraeth Cymru

30 Ebrill 2024

## Craffu cyffredinol ar waith gweinidogion

Annwyl Jeremy a Lynne

Llongyfarchiadau i chi ar gael eich penodi'n ddiweddar i rolau Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a'r Gymraeg ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg.

Byddwch yn ymwybodol, wrth gwrs, o'r heriau sydd ym mhob un o'ch portffolios. Mae llawer o'r materion hyn o ddiddordeb mawr i'r Pwyllgor, a byddem yn croesawu cyfle i drafod y materion hyn, ymhlith eraill, mewn sesiwn graffu gyffredinol gyda chi yn ystod tymor yr haf. Mae'r materion yr ydym efallai yn poeni fwyaf amdanynt yn cynnwys ariannu sgiliau ôl-16 drwy gyfrwng y Gymraeg; deall y rhesymau dros y gostyngiad diweddar yn nifer y siaradwyr Cymraeg a gofnodwyd yng Nghyfrifiad 2021; a'r Bil Addysg Gymraeg sydd ar ddod. Mewn sesiwn graffu, hoffem ddeall yn arbennig sut y bydd y ddau ohonoch yn gweithio gyda'ch gilydd i gyrraedd targed Cymraeg 2050.

Byddaf yn gofyn i'n swyddogion gysylltu â swyddogion Llywodraeth Cymru i nodi amser addas i'r Pwyllgor gwrdd â chi.

Hoffwn gymryd y cyfle hwn i ddymuno'n dda i chi yn eich rolau newydd, ac rydym yn edrych ymlaen at weithio gyda chi wrth i ni geisio cyrraedd y targed Cymraeg 2050.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, er gwybodaeth.

Yn gywir,

**Delyth Jewell AS**
**Cadeirydd y Pwyllgor**

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.

# Gwasanaeth Gwarcheidiaeth i bob Plentyn ar eu Pen eu Hunain yng Nghymru

## Briff Ymchwil

**Awduron**
Tom Davies
Isata Kanneh
Rhian Croke
Naomi White

**Canolfan Gyfreithiol y Plant Cymru**
**Cymdeithas y Plant**
**Sefydliad Bevan**
**Y Groes Goch Brydeinig**

## Ynglŷn â'r briff hwn

Cafodd y briff hwn ei gynhyrchu ar y cyd gan Gymdeithas y Plant, Sefydliad Bevan, Canolfan Gyfreithiol y Plant Cymru, a'r Groes Goch Brydeinig. Mae'n seiliedig ar gyfuniad o wybodaeth gan bob un o'r pedwar partner, eu hymchwil i bwnc Gwarcheidiaeth i Blant ar eu Pen eu Hunain, a chyfweliadau â rhanddeiliaid allweddol.


## Cydnabod

Hoffem ddiolch i bawb sydd wedi cyfrannu at y briff hwn, gan gynnwys (ond heb eu cyfyngu i):

Guardianship Scotland
JustRight Scotland

Cynhyrchwyd yr adroddiad hwn gyda chefnogaeth:
Justice Together


## Cysylltiadau

Os oes gennych unrhyw gwestiynau, neu os hoffech gael rhagor o wybodaeth am y briff hwn, cysylltwch â:


Tom Davies – Tom.Davies@childrenssociety.org.uk
Isata Kanneh – isata.kanneh@bevanfoundation.org
Rhian Croke - rhian.croke@swansea.ac.uk
Naomi White – NaomiWhite@redcross.org.uk

# Cynnwys

**Cynnwys** .... 3
**Crynodeb Gweithredol** .... 4
**1. Cyflwyniad** .... 10
2.1 Nodiadau ar fethodoleg .... 10
**2. Y ddadl dros gael Gwasanaeth Gwarcheidiaeth cenedlaethol** .... 12
2.1 Galwadau niferus a chyson am Wasanaeth Gwarcheidiaeth yng Nghymru ers dyddiau cynnar datganoli .... 13
2.2 Y Cynllun Cenedl Noddfa .... 15
2.3 Cydymffurfio â dyletswyddau cyfreithiol i Blant ar eu Pen eu Hunain .... 17
**3. Gwasanaeth Gwarcheidiaeth cenedlaethol yn ei gyd-destun** .... 19
3.1 Y Ddeddf Mudo Anghyfreithlon .... 19
3.2 Gwasanaethau presennol ar gyfer Plant ar eu Pen eu Hunain yng Nghymru .... 21
3.3 Gwasanaeth Gwarcheidiaeth yr Alban .... 21
3.4 Awdurdodau lleol .... 23
3.5 Mynediad at gyngor mewnfudo a gwasanaethau cyfreithiol .... 25
**4. Sut allai Gwasanaeth Gwarcheidiaeth yng Nghymru edrych?** .... 28
4.1 Ffactorau allweddol .... 28
4.2 Costau .... 30
4.3 Buddiannau .... 31
**5. Casgliad** .... 33

*"Os nad oes gennych warcheidwad, mae fel ceisio gweld yn y tywyllwch"*

Aelod, Comisiwn a Arweinir gan Bobl Ifanc, Cymdeithas y Plant

# Crynodeb Gweithredol

## Argymhelliad: Cyflwyno Gwasanaeth Gwarcheidiaeth ar seiliau statudol a fyddai'n darparu gwarcheidwad i bob Plentyn ar eu Pen eu Hunain[1] yng Nghymru.

Mae plant a phobl ifanc ar eu pen eu hunain ymhlith rhai o aelodau mwyaf agored i niwed ein cymdeithas, sy'n gorfod ymwneud â'r broses gymhleth o geisio lloches. Yn ein hadroddiad, rydym yn dadlau o blaid Gwasanaeth Gwarcheidiaeth cenedlaethol i bob Plentyn ar eu Pen ei Hunain yng Nghymru. Rydym yn dangos yr angen am y gwasanaeth ac yn cyflwyno tystiolaeth o fuddiannau gwasanaeth o'r fath. Yn olaf, rydym yn disgrifio nodweddion gwasanaeth effeithiol ac yn nodi'r prif wasanaethau y byddai Gwarcheidwaid yn eu cynnig.

## Galwadau am Wasanaeth Gwarcheidiaeth

Gwnaed yr alwad gyntaf am Wasanaeth Gwarcheidiaeth i bob plentyn ar eu Pen eu Hunain sawl blwyddyn yn ôl ac mae'r alwad yn cael ei gefnogi gan gyrff uchel eu parch yng Nghymru a thu hwnt.

- Mae sefydlu Gwasanaeth Gwarcheidiaeth wedi bod yn ddisgwyliad pendant gan Bwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn ers dros ugain mlynedd. Yn ei Sylwadau Cloi 2023, argymhellodd Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn unwaith eto y dylai Gwasanaeth Gwarcheidiaeth gael ei gyflwyno ar gyfer pob Plentyn ar eu Pen eu Hunain.
- Mae galwadau am Wasanaeth Gwarcheidiaeth yng Nghymru wedi'u gwneud ers 2005, gyda'r galwad mwyaf diweddar yn 2023 mewn adroddiad a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru ar wasanaethau cynghori i fewnfudwyr yng Nghymru.
- Mae Cynllun Cenedl Noddfa cyfredol Llywodraeth Cymru, a gyhoeddwyd yn 2019, yn cynnwys gweledigaeth sy'n croesawu, yn cynorthwyo, ac yn

[1] Mae "Plant ar ei Pen eu Hunain" yn blant o dan 18 oed sydd wedi'u gwahanu oddi wrth eu dau riant a pherthnasau eraill ac ydynt yn cael gofal gan oedolyn, sydd yn ôl cyfraith neu arferiad, yn gyfrifol am hynny.

integreiddio pobl sy'n chwilio am noddfa yng Nghymru. Wedi'i ategu gan werthoedd Uchel Gomisiynydd y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Ffoaduriaid (UNHCR), mae'r Cynllun Cenedl Noddfa'n gwneud sawl ymrwymiad sy'n arbennig o berthnasol i Blant ar eu Pen eu Hunain yng Nghymru. Mae hefyd wedi ymrwymo i dreialu Gwasanaeth Gwarcheidiaeth yng Nghymru, er nad yw hynny wedi'i wireddu hyd yma.

- Yn ystod y Pumed Senedd, argymhellodd y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau y dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno Gwasanaeth Gwarcheidiaeth yng Nghymru.
- Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae Cymdeithas y Plant wedi gweithio â'r Comisiwn a Arweinir gan Bobl Ifanc, grŵp o bobl ifanc â phrofiad uniongyrchol o ddefnyddio'r system ceisio lloches. Mae'r grŵp hwn yn galw am gyflwyno Gwasanaeth Gwarcheidiaeth yng Nghymru a Lloegr.

## Pryderon a gâi sylw gan Wasanaeth Gwarcheidiaeth

Mae ein hadroddiad yn amlygu bylchau yn y cymorth sydd ar gael i Blant ar eu Pen eu Hunain, yn enwedig o ran eu gallu i gael cyfiawnder ac i ymwneud â'r broses ceisio lloches. Rydym wedi canfod y pryderon canlynol a fyddai'n cael sylw drwy sefydlu Gwasanaeth Gwarcheidiaeth cenedlaethol i Bob Plentyn ar eu Pen eu Hunain yng Nghymru:

- Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i helpu plant i gael cyngor, cymorth neu gefnogaeth a fyddai'n eu helpu i ddiwallu'r anghenion a nodwyd yn eu hasesiadau o anghenion. Yn achos Plant ar eu Pen eu Hunain gallai hyn olygu help i ddilyn y broses o geisio lloches. Mae'r Cod Ymarfer yn ei gwneud yn ofynnol bod gweithwyr cymdeithasol a chynorthwywyr personol yn gweithio â chynrychiolwyr cyfreithiol a gweithwyr achos y Swyddfa Gartref, ac yn darparu cymorth i bobl ifanc sy'n ceisio lloches.
- Yn seiliedig ar ddata a gafwyd drwy ein cais Rhyddid Gwybodaeth, rhwng 2020 a 2023, dim ond 257 o Blant ar eu Pen eu Hunain, neu 43% o'r Plant ar eu Pen eu Hunain a gafodd gymorth a oedd yn ymwneud yn benodol â'r broses o geisio lloches.
- Mewn 38% o ardaloedd awdurdodau lleol yng Nghymru, gweithwyr cymdeithasol yw'r unig weithwyr proffesiynol sy'n helpu Plant ar eu Pen eu Hunain i gael cyngor a chynrychiolaeth gyfreithiol.

- Dim ond 38% o awdurdodau lleol sydd â pherthynas weithio â chyfreithwyr mewnfudo neu ddarparwyr cyngor cyfreithiol yn eu hardal leol, a dim ond 47% o awdurdodau lleol sy'n gweithio â chyfreithwyr mewnfudo neu ddarparwyr cyngor cyfreithiol o fewn neu'r tu allan i'w hardal leol, i helpu Plant ar eu Pen eu Hunain â'u ceisiadau am loches.
- Mae cyflwyno'r Ddeddf Mudo Anghyfreithlon yn fygythiad gwirioneddol i hawliau Plant ar eu Pen eu Hunain. Mi fydd yn golygu anawsterau i awdurdodau lleol yng Nghymru wrth iddynt gyflawni eu dyletswyddau i gynorthwyo Plant ar eu Pen eu Hunain. Byddai Gwasanaeth Gwarcheidiaeth yn sicrhau amddiffyniadau gwirioneddol a hanfodol.

## Buddiannau Gwasanaeth Gwarcheidiaeth

Byddai Gwasanaeth Gwarcheidiaeth yn sicrhau'r buddiannau canlynol:

- Eiriol ar ran y plentyn a hyrwyddo eu buddiannau pennaf.
- Gwella canlyniadau cyfreithiol i Blant ar eu Pen eu Hunain.
- Canfod ac atal camfanteisio, masnachu mewn pobl a radicaleiddio.
- Amddiffyn hawliau a hawliau dynol plant.
- Eu helpu i integreiddio.
- Gwella deilliannau addysgol.
- Buddiannau i weithwyr proffesiynol sy'n gweithio â Phlant ar eu Pen eu Hunain, fel arbed costau a lleihau llwythi gwaith.

## Gwaith Gwarcheidwaid

Rydym wedi nodi rhai o nodweddion allweddol Gwasanaeth Gwarcheidiaeth. Dylai'r Gwasanaeth fod:

- Ar gael i bob Plentyn ar eu Pen eu Hunain yng Nghymru, ac i bob Plentyn ar eu Pen eu Hunain sy'n cyrraedd Cymru.
- Yn annibynnol ar unrhyw gorff statudol. Bydd yn gallu gwarchod hawliau a buddiannau plant yn ddiduedd.
- Wedi'i staffio gan Warcheidwaid sydd wedi'u hyfforddi hyd Lefel 2 OISC neu sy'n cyfateb i IAAS neu sy'n gweithio i gyflawni'r cymwysterau hyn. Byddai hyn yn arwain at fuddiannau enfawr i blant wrth iddynt weithio'u ffordd drwy'r

broses lloches a bydd y lliniaru rhai o effeithiau'r dirywiad difrifol yn y ddarpariaeth gyfreithiol i fewnfudwyr yng Nghymru.

- Gweithio'n glos a chefnogol â gweithwyr cymdeithasol, cynghorwyr cyfreithiol, gweithwyr achos y Swyddfa Gartref, ysgolion, colegau, ac asiantaethau cymorth y trydydd sector ar gyfer ceiswyr lloches sy'n gweithio â phlant.
- Parhau mewn cysylltiad â Phlant ar eu Pen eu Hunain i weithredu fel ffynhonnell barhaus o gymorth a gwarchodaeth, wrth iddynt gyrraedd annibyniaeth ac oedolaeth.
- Wedi'i staffio gan Warcheidwaid sydd wedi'u grymuso i godi llais ar ran y plant maent yn gweithio â hwy, sy'n amddiffyn eu buddiannau, ac yn hybu ac amddiffyn eu hawliau.
- Bod â digon o adnoddau i ddarparu cymorth parhaus a chynhwysfawr i Blant ar eu Pen eu Hunain.
- Yn seiliedig ar anghenion datganedig Plant ar eu Pen eu Hunain, a ddylai gyfrannu at ddatblygiad y gwasanaeth.
- Wedi'i staffio gan Warcheidwaid sy'n darparu'r mathau canlynol o gymorth:
  - Meithrin perthnasoedd â'r plentyn sy'n seiliedig ar ymddiriedaeth a chefnogaeth.
  - Helpu'r plentyn i gyfarwyddo ac addasu'n gymdeithasol.
  - Helpu'r plentyn i gael cyngor a chynrychiolaeth gyfreithiol.
  - Hysbysu'r plentyn am faterion cyfreithiol ac eraill.
  - Gweithio â phlant i'w helpu i ddatblygu datganiadau i ategu eu ceisiadau am loches.
  - Mynychu apwyntiadau â'r Swyddfa Gartref gyda'r plentyn.
  - Cysylltu â chyfreithwyr, gweithwyr cymdeithasol, gweithwyr iechyd proffesiynol, yr heddlu, a swyddogion y Swyddfa Gartref ar ran y plentyn.
  - Egluro prosesau (e.e. cyfreithiol, gofal, addysg), i sicrhau bod y plentyn yn deall beth sy'n digwydd iddynt, y penderfyniadau sy'n cael eu gwneud, a pha opsiynau sydd ganddynt.
  - Sicrhau bod lleisiau a dewisiadau plant yn cael eu clywed a'u parchu.

- Hwyluso presenoldeb ac ymgysylltiad y plentyn mewn cyfarfodydd.
- Darparu cymorth cyfannol i blant i alluogi integreiddio, parhau i gynghori a darparu cymorth emosiynol.
- Gwneud atgyfeiriadau at wasanaethau arbenigol (e.e. i roi sylw i bryderon am iechyd corfforol neu feddyliol, darparu gwasanaethau sy'n ystyriol o drawma, gwasanaethau diwylliannol, neu gymdeithasu a chwarae sy'n briodol i anghenion y plentyn).

## Cyfleoedd

- Mae'r Cynllun Cenedl Noddfa diwygiedig a'r Bil Gofal Cymdeithasol (Cymru) yn gyfleoedd i gyflwyno Gwasanaeth Gwarcheidiaeth yng Nghymru.

*"Mae'n amhosibl gorbwysleisio pa mor bwysig yw Gwarcheidwad i berson ifanc ar eu pen eu hunain. Mae'r bobl ifanc hyn yn mynd drwy sawl proses gyfreithiol gymhleth a thrawmatig ar yr un pryd. Mae eu Gwarcheidwad yno, bob cam o'r ffordd, i wneud yn siŵr bod y person ifanc yn deall ac yn gallu cyfrannu'n effeithiol at y prosesau hyn… Mewn geiriau eraill, rhaid i bob plentyn ar eu pen eu hunain gael un."*

Andy Sirel, Cyfarwyddwr Cyfreithiol a Phartner, JustRight Scotland

# 1. Cyflwyniad

> *"Mae'r bobl ifanc hyn yn y canol rhwng gorffennol trawmatig a dyfodol ansicr. Yn fwy na dim mae angen rhywun arnynt y gallant ymddiried ynddynt i'w hamddiffyn gan na fydd gan eu gweithwyr cymdeithasol yr wybodaeth na'r gallu i ddarparu'r math hwn o gymorth i blant sy'n mynd drwy'r broses fewnfudo, sy'n golygu bod yn rhaid i bobl ifanc ar eu pen eu hunain wynebu system lloches a mewnfudo gymhleth a rhwystredig ar eu pen eu hunain."*
>
> Aelod, Comisiwn a Arweinir gan Bobl Ifanc, Cymdeithas y Plant

Plant ar eu Pen eu Hunain yw rhai o aelodau mwyaf agored i niwed ein cymdeithas, sy'n gorfod ymwneud â'r broses gyfreithiol o geisio lloches, a hynny'n aml wrth brofi trawma ac ansicrwydd. Mae angen help ar blant i weithio'r ffordd drwy'r broses hon sy'n aml yn un gymhleth a dryslyd. Mae angen pwynt cyswllt sy'n cynnig cysondeb a gwybodaeth a chymorth, a chynghorydd y gallant ymddiried ynddynt i amddiffyn ac egluro eu hawliau. Ond yn rhy aml, mae Pen eu Hunain yng Nghymru yn cael eu gadael heb yr wybodaeth, y cymorth a'r eiriolaeth sydd eu hangen arnynt.

Mae'r ddogfen hon yn cyflwyno'r dystiolaeth dros sefydlu Gwasanaeth Gwarcheidiaeth cenedlaethol a fyddai ar gael i bob Plentyn ar eu Pen eu Hunain pan fyddant yn cyrraedd Cymru. Mae'n disgrifio'r cyd-destun cyfreithiol a'r polisi y byddai gwasanaeth o'r fath yn rhan ohono, ac mae'n amlygu'r galwadau niferus am Wasanaeth Gwarcheidiaeth a wnaed gan amrywiaeth o randdeiliaid, dogfennau polisi, a chyrff rhyngwladol dros gyfnod o flynyddoedd. Mae'r ddogfen yn mynd yn ymlaen i edrych ar wasanaethau presennol, modelau posibl ar gyfer Gwarcheidiaeth, a'r sefyllfa yng Nghymru ar hyn o bryd sy'n dangos yr angen am Warcheidiaeth i bob Plentyn ar eu Pen eu Hunain .

Yn olaf, rydym yn cyflwyno ein gweledigaeth ar gyfer Gwasanaeth Gwarcheidiaeth yng Nghymru ac yn edrych ar rai o fuddiannau a nodweddion allweddol gwasanaeth effeithiol sy'n canolbwyntio ar y plentyn.

## 2.1 Nodiadau ar fethodoleg

Daw rhai o ganfyddiadau'r adroddiad hwn o gais Rhyddid Gwybodaeth a anfonwyd at bob un o'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru. Yn y cais, roeddem yn gofyn am wybodaeth am y cymorth a ddarperir gan awdurdodau lleol i Blant ar eu Pen eu Hunain, yn bennaf yng nghyd-destun y broses ceisio lloches. Roeddem yn gofyn hefyd am wybodaeth am berthnasoedd gweithio awdurdodau lleol â

chyfreithwyr mewnfudo yn eu hardaloedd lleol. Cawsom ymateb gan 21 o awdurdodau lleol.

Rydym wedi cynnwys tystiolaeth a dyfyniadau o gyfweliadau a gynhaliwyd â Guardianship Scotland a JustRight Scotland. Gofynnwyd i'r Independent Child Trafficking Guardianship Service hefyd, ond oherwydd pwysau gwaith, nid oedd neb o'r gwasanaeth ar gael i gael eu cyfweld.

Cafodd y dyfyniadau gan bobl ifanc yn y ddogfen hon eu casglu gan Gymdeithas y Plant ac fe'i gwnaed gan bobl ifanc sy'n cymryd rhan yn eu Comisiwn a Arweinir gan Bobl Ifanc.

# 2. Y ddadl dros gael Gwasanaeth Gwarcheidiaeth cenedlaethol

*"Yr unig beth ydym ei eisiau yw byw mewn gwlad ddiogel, mewn amgylchedd diogel. Mae'r holl system yn teimlo'n llethol. Fel bod gormod o bethau'n digwydd ar yr un pryd."*

Aelod, Comisiwn a Arweinir gan Bobl Ifanc, Cymdeithas y Plant

Mae ymrwymiad i barchu, amddiffyn, a chyflawni nodau Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (UNCRC) wedi bod yn elfen ganolog o ddeddfwriaeth a pholisi yng Nghymru ers dyddiau cynnar datganoli.[1]

Ers 2011, o dan Fesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011, rhaid i holl Weinidogion Llywodraeth Cymru roi sylw dyladwy i'r UNCRC a'i brotocolau opsiynol wrth weithredu eu holl swyddogaethau.[2] Mae'r ddyletswydd sylw dyladwy i'r UNCRC yn gymwys hefyd i awdurdodau lleol Cymru o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.[3] Dylai pob plentyn, gan gynnwys rhai sy'n ceisio lloches, gael mwynhau'r holl hawliau a ddisgrifir yn UNCRC, a dylent gael yr un amddiffyniad ag unrhyw blentyn arall sydd wedi'u hamddifadu'n barhaol neu dros dro o amgylchedd eu cartref.

Mae polisi Llywodraeth Cymru'n cydnabod bod Plant ar eu Pen eu Hunain yn agored iawn i niwed, ac y dylai plant gael eu trin fel plant yn gyntaf ac fel mewnfudwyr yn ail.[4] Pan fyddwn yn edrych ar y rhwymedigaethau a'r ymrwymiadau hyn, ochr yn ochr â buddiannau Gwasanaeth Gwarcheidiaeth, mae'n syndod sylweddoli nad oes Gwasanaeth Gwarcheidiaeth i Bob Plentyn ar eu Pen eu Hunain wedi'i sefydlu eto yng Nghymru. Bu galwadau niferus a chyson i sefydlu Gwasanaeth Gwarcheidiaeth statudol ers dyddiau cynnar datganoli ac mae Gwasanaeth Gwarcheidiaeth yn ddisgwyliad amlwg gan Bwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn ers dros 20 mlynedd.

Mae deddfwriaeth sy'n cael ei chyflwyno gan Lywodraeth y DU fel y Ddeddf Mudo Anghyfreithlon, yn fygythiad i hawliau plant, sy'n anghydnaws â chyfraith a pholisi Cymru, ac mae'n dangos angen brys am Wasanaeth Gwarcheidiaeth a fyddai'n helpu i ddiogelu buddiannau pennaf ceiswyr lloches ifanc.[5] Byddai cynllun o'r fath hefyd yn helpu i hybu nodau Cynllun Cenedl Noddfa Llywodraeth Cymru,[6] i amddiffyn hawliau plant sydd wedi'u cynnwys mewn cyfraith ryngwladol a

chyfraith Cymru, ac sy'n cyflawni saith nod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.[7]

## 2.1 Galwadau niferus a chyson am Wasanaeth Gwarcheidiaeth yng Nghymru ers dyddiau cynnar datganoli

Ers 2002, mewn Arsylwadau Cloi i Wladwriaeth y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig sy'n barti, roedd Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn wedi argymell sefydlu Gwasanaeth Gwarcheidiaeth ar gyfer ceiswyr lloches ar eu pen eu hunain. Mae'r galwad hwn yn cael ei ategu gan dystiolaeth ceiswyr lloches ifanc yng Nghymru.

Roedd adroddiad manwl a gyhoeddwyd yn 2005 o'r enw 'Uncertain Futures' gan Achub y Plant Cymru yn tynnu sylw at anghenion sylweddol plant sy'n geiswyr lloches ifanc Nghymru. Roedd yn argymell:

> *"Dylai Llywodraeth Cymru sefydlu system Gwarcheidiaeth i sicrhau bod yr egwyddor lles pennaf yn cael ei chynnal a bod plant sydd wedi'u gwahanu'n cael eu helpu drwy'r system lloches.[8]"*

Gwnaed y galwad hwn yn fwy diweddar gan Grŵp Monitro Cymru'r UNCRC, cynghrair genedlaethol o sefydliadau anllywodraethol ac asiantaethau academaidd, yn 2006[9] mewn cynhadledd Cymru gyfan ac adroddiad ar hawliau plant, ac yn 2007[10] mewn adroddiad amgen gan gyrff anllywodraethol a gyflwynwyd gerbron Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn.

Cafodd y galwad am Wasanaeth Gwarcheidiaeth ei ailadrodd gan Bwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn ei arsylwadau Cloi 2008. Mewn adroddiad a gyhoeddwyd gan Achub y Plant yr un flwyddyn, roedd yn galw eto am Wasanaeth Gwarcheidiaeth gan ddatgan:

> *"Os yw Llywodraeth y DU a Chynulliad Cymru am sicrhau dyletswydd gyfreithiol ar gyfer pob plentyn a wahanwyd rhaid cael Gwarcheidwad statudol i ddarparu cymorth i gynghori ar fuddiannau pennaf y plentyn yn unol ag Arsylwadau Cloi 2008 y Cenhedloedd Unedig[11]."*

Ar yr adeg hon cafwyd ymrwymiad gan Lywodraeth Cymru i edrych ar y posibilrwydd o sefydlu gwasanaeth o'r fath (yn Strategaeth Cynnwys Ffoaduriaid 2008 a'r ddogfen ymgynghori ar y Cynllun Cyflawni), ond ni chwblhawyd y gwaith[12].

Cafwyd galwad eto gan Grŵp Monitro Cymru'r UNCRC yn 2015 yn ei adroddiad i Bwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn[13]. Yn 2016, nododd Argymhelliad: 77 (b) o Arsylwadau Cloi Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig:

> *"Sefydlu gwarcheidwaid annibynnol statudol ar gyfer pob plentyn sydd ar eu pen eu hunain neu a wahanwyd*[14]*."*

Fel rhan o'r Ymchwiliad a gynhaliwyd gan Bwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau'r Cynulliad Cenedlaethol fel yr oedd ar y pryd, yn 2017, o'r enw '"*Roeddwn yn arfer bod yn rhywun: Ffoaduriaid a cheiswyr lloches yng Nghymru*,' argymhellwyd:

> *"Dylai Llywodraeth Cymru sefydlu Gwasanaeth Gwarcheidiaeth i Gymru, gyda chefnogaeth rhwydweithiau cymheiriaid, fel ffordd o gadarnhau ymrwymiad Cymru i groesawu plant ar eu pen eu hunain sy'n geiswyr lloches."*

Yn ei Chynllun Ffoaduriaid a Cheiswyr Lloches (2009), roedd Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i gyflwyno cynllun Gwarcheidiaeth peilot, ond yn anffodus ni wireddwyd mo'r ymrwymiad hwnnw.[15]

Roedd adroddiad Grŵp Monitro Cymru'r UNCRC i Bwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn fel rhan o'r 6ed/7fed broses adrodd yn 2022 unwaith eto'n galw am Wasanaeth Gwarcheidiaeth statudol.[16] Yn yr archwiliad i Wladwriaeth y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig sy'n barti (Mai 18/1h 2023) gofynnodd Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn gwestiynau i holi pam nad oes gan blant ar eu pen eu hunain sy'n ceisio lloches fynediad at warcheidwad annibynnol ym mhob rhanbarth o'r DU. Ailadroddwyd eu hargymhelliad ar gyfer Gwasanaeth Gwarcheidiaeth yn Sylwadau Cloi'r DU 2023:

> *"Datblygu system warcheidiaeth gyson, statudol i bob plentyn ar eu pen eu hunain, a sicrhau bod pob plentyn ar eu pen eu hunain ym mhob rhan o awdurdodaethau'r wladwriaeth sy'n barti'n cael eu canfod a bod gwarcheidwad sydd wedi cael hyfforddiant proffesiynol yn cael eu penodi ar eu cyfer*[17]*."*

Mynegodd y Pwyllgor ei bryderon am fod Plant ar eu Pen eu Hunain yn mynd ar goll o westai. Mae o leiaf 440 o blant wedi cael eu cipio o westai yn y DU lle'r oeddent wedi'u lletya ers 2021.[18] Mae plant a gymerwyd o westai yn Sussex a Chaint wedi cael eu darganfod yn Ne a Gogledd Cymru.[19] Fel sydd wedi'i gydnabod yn yr Alban (gweler Adran 3.3) mae Gwarcheidwaid yn cynnig sefydlogrwydd a help i blant i adnabod camfanteisio a masnachu mewn pobl, sy'n fygythiadau gwirioneddol i Blant ar eu Pen eu Hunain yng Nghymru, ac yn wir, gweddill y DU.

Mynegodd y Pwyllgor bryderon difrifol ynglŷn â'r defnydd mynych o ddulliau annibynadwy o bennu oedran plant. Mae Gwarcheidwaid yn helpu plant i ddilyn prosesau asesu oedran cymhleth i'w hatal rhag cael eu hasesu'n anghywir a diweddu mewn llety neu mewn caethiwed ag oedolion heb oruchwyliaeth, lle byddant yn cael eu gorfodi i rannu ystafelloedd ag oedolion nad ydynt yn perthyn iddynt heb unrhyw fesurau diogelu.[20]

Rydym yn credu y byddai Gwasanaeth Gwarcheidiaeth hefyd yn helpu i roi argymhellion Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn 2023 ar waith:

> *"50 (d) Cryfhau mesurau i sicrhau bod pob plentyn sy'n ceisio lloches, sy'n ffoaduriaid neu fewnfudwyr yn cael mynediad prydlon a chyfartal at addysg, gwasanaethau iechyd, tai, cymorth seico-gymdeithasol, ac amddiffyniad cymdeithasol gan gynnwys yr hawl i gael budd-daliadau;*
>
> *"(50 c) sicrhau bod plant yn cael gwybodaeth a chyngor cyfreithiol sy'n briodol i'w hoedran ar eu hawliau, gweithdrefnau lloches a gofynion am ddogfennaeth; bod eu buddiannau pennaf yn brif ystyriaeth ym mhob proses lloches; bod eu barn yn cael ei chlywed, yn cael ei hystyried ac yn cael sylw haeddiannol; a bod ganddynt fynediad at fecanweithiau a rhwymedïau cyfiawnder sy'n briodol i blant."*[21]

Yn olaf, cafodd yr alwad am Warcheidiaeth ei ategu mewn argymhelliad mewn adroddiad yn 2023, i Lywodraeth Cymru, a ysgrifennwyd gan Dr Jo Wilding[22].

## 2.2 Y Cynllun Cenedl Noddfa

> *"Mae Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yn ganolog i waith Llywodraeth Cymru a'n gweledigaeth i Gymru. Rydym yn credu y dylid trin pob unigolyn yn deg, yn enwedig y rheini sydd wedi eu gwthio bellaf i'r cyrion gan systemau cymdeithasol sy'n atal pobl rhag gallu sicrhau eu hanghenion sylfaenol. Rydym yn gweithio i sicrhau dyfodol tecach sy'n galluogi mynediad teg i wasanaethau ac anghenion dynol er mwyn cefnogi cyfleoedd i bob unigolyn ffynnu."*
>
> Llywodraeth Cymru, Cenedl Noddfa – Cynllun Ffoaduriaid a Cheiswyr Lloches[23]

Mae Cynllun Cenedl Noddfa Llywodraeth Cymru yn cynnig gweledigaeth ar gyfer gweithio mewn meysydd datganoledig i groesawu, cynorthwyo, ac integreiddio pobl sy'n chwilio am noddfa yng Nghymru. Wedi'i ategu gan werthoedd Uchel Gomisiynydd y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Ffoaduriaid (UNHCR), mae'r Cynllun yn gwneud nifer o ymrwymiadau sy'n adleisio Plant ar eu Pen eu Hunain yng Nghymru. Byddai Gwasanaeth Gwarcheidiaeth cadarn sydd wedi'i lunio'n dda'n helpu ac yn ymestyn y gwaith i gyflawni'r ymrwymiadau hyn.

Nod: Uchelgeisiol a Dysgu – *Cam Gweithredu 10: Helpu plant ar eu pen eu hunain sy'n ffoaduriaid a cheiswyr lloches i sicrhau bod ganddynt fynediad at y cyngor a'r eiriolaeth sydd ei angen arnynt.*

Wrth lunio'r Cynllun Cenedl Noddfa, roedd Llywodraeth Cymru'n cydnabod yr effeithiau positif y byddai Gwasanaeth Gwarcheidiaeth yn eu cael ar fynediad Plant ar eu Pen eu Hunain at gyngor ac eiriolaeth. I gefnogi'r nod, cafwyd ymrwymiad yn y Cynllun Cenedl Noddfa i ariannu mesur peilot ar gyfer Gwasanaeth Gwarcheidiaeth :

> *Bydd Llywodraeth Cymru yn:*
>
> *"Darparu cyllid i awdurdodau lleol yn ystod 2019 i gefnogi ymarfer peilot mewn perthynas â Gwarcheidiaeth, gan adeiladu ar gymorth eiriolaeth cyfredol a pharhaus o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a'r gwasanaeth Eiriolwyr Masnachu Plant Annibynnol."*

Ni chafodd y peilot hwn ei roi ar waith.

Mae'r amser am gynllun peilot wedi'u goddiweddyd gan ddatblygiadau cyflym yn y system lloches a'r ddarpariaeth gyfreithiol, sy'n mynnu amddiffyniad i Blant ar eu Pen eu Hunain yng Nghymru yn awr (gweler Adran 3.1). Mae adnewyddu'r Cynllun Cenedl Noddfa yn gyfle perffaith i adnewyddu'r ymrwymiad hwn i fynediad at gyfiawnder ac i weithredu Gwasanaeth Gwarcheidiaeth i bob plentyn ar eu Pen eu Hunain yn llawn.

Canfu gwerthusiad o gynllun tebyg yn yr Alban fod safle annibynnol Gwarcheidwaid yn eu helpu i ennyn ymddiriedaeth y plant (gweler Adran 3.3). Mae Gwarcheidwaid yn helpu plant drwy'r system lloches. Maent yn mynd gyda phlant i gyfarfodydd â'r Swyddfa Gartref, yn egluro llythyrau a phenderfyniadau wrthynt, yn hwyluso mynediad at gynrychiolwyr cyfreithiol, yn helpu plant i rannu profiadau trawmatig, ac yn gwella dealltwriaeth eiriolwyr o'r plant maent yn gweithio â hwy. Yn bwysig iawn, gwelwyd fod y cynllun wedi arwain at ganiatáu statws ffoaduriaid a diogelwch dyngarol i fwy o unigolion[24].

Nod: Ffyniannus a Diogel – *Cam Gweithredu 9: Gweithio i atal pobl sy'n chwilio am noddfa, gan gynnwys rhai Heb Hawl i Gyllid Cyhoeddus (NRPF), rhag dioddef masnachu mewn pobl neu gaethwasiaeth fodern.*

Mae'r Gwasanaeth Gwarcheidiaeth Masnachu Plant Annibynnol yng Nghymru a Lloegr yn cynnig cyngor, arweiniad, a chymorth i blant sydd wedi dioddef camfanteisio drwy fasnachu a Chaethwasiaeth Fodern (gweler Adran 3.2). Fodd bynnag, ni ellir defnyddio'r gwasanaeth oni bai bod y plentyn wedi dioddef

camfanteisio neu Gaethwasiaeth Fodern, a dim ond wedyn y gellir eu hatgyfeirio at y gwasanaeth.

Drwy ennyn ymddiriedaeth yn gynnar a darparu cymorth cyfannol, byddai Gwasanaeth Gwarcheidiaeth i bob Plentyn ar eu Pen eu Hunain mewn gwell sefyllfa i adnabod arwyddion o fasnachu a chamfanteisio, ac i helpu plant i ddeall eu bod yn dioddef camfanteisio neu'n cael eu paratoi ar gyfer camfanteisio. Byddai'n fwy effeithiol i atal hyn na'r gwasanaeth presennol ar ei ben ei hun, a byddai'n golygu diogelwch gwell a mwy eang i blant sy'n agored i fasnachu a Chaethwasiaeth Fodern.

## 2.3 Cydymffurfio â dyletswyddau cyfreithiol i Blant ar eu Pen eu Hunain

Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yw'r brif ddeddfwriaeth sy'n disgrifio sut y dylai Plant ar eu Pen eu Hunain gael eu helpu. Yn ôl Adran 21 o Ran 3 o'r Ddeddf, mae gofyniad ar awdurdodau lleol i gynnal asesiad o anghenion i ganfod a yw darparu, ymhlith pethau eraill:

> *"...gofal a chymorth, gwasanaethau ataliol, neu wybodaeth, cyngor neu gynhorthwy, gyfrannu at sicrhau'r canlyniadau hynny neu fel arall ddiwallu'r anghenion hynny, ac os felly, i ba raddau, asesu a allai materion eraill gyfrannu at sicrhau'r canlyniadau hynny neu fel arall ddiwallu'r anghenion hynny, ac os felly, i ba raddau, ac ystyried unrhyw amgylchiadau eraill sy'n effeithio ar lesiant y plentyn."*[25]

Yn gysylltiedig ag "asesu a allai materion eraill gyfrannu at sicrhau'r canlyniadau hynny neu fel arall ddiwallu'r anghenion hynny", dywedodd Llywodraeth Cymru mewn briff ar helpu Plant ar eu Pen eu Hunain y dylai'r asesiad o anghenion roi sylw i faterion fel "cefnogi cais y plentyn/person ifanc am loches a darparu llety priodol".[26]

Hefyd, mae'r Cod Ymarfer ar gyfer Rhan 6 o'r Ddeddf yn cynnwys adran ar gymorth i "rai sy'n gadael gofal sydd angen cymorth ychwanegol." Dywed yr adran:

> *"...Gall y broses o geisio lloches fod yn gymhleth, a dylai gweithwyr cymdeithasol/CP*[2] *weithio gyda chynrychiolydd cyfreithiol y person ifanc a*

[2] Cynghorwyr Personol. Penodir Cynghorwyr Personol i gynnig cyngor, cymorth, a gwybodaeth i rai sy'n gadael gofal, i'w helpu i symud at fod yn annibynnol.

*pherchennog dynodedig yr achos yn Asiantaeth Ffiniau'r DU*[3] *i sicrhau bod y person ifanc yn deall y broses o geisio lloches a'r canlyniadau posibl, ac i roi'r cymorth gofynnol iddo".*[27]

Mae Canolfan Gyfreithiol y Plant Cymru wedi datblygu canllaw i weithwyr cymdeithasol sy'n gweithio â Phlant ar eu Pen eu Hunain. Mae'r canllaw, ymhlith pethau eraill, yn cynnwys gwybodaeth am anghenion sylfaenol (cyfieithu, diogelu, llety, iechyd a lles, ac addysg a hyfforddiant), yn ogystal â gwybodaeth am y broses asesu oedran ac ymateb i amheuon o fasnachu. Mae hefyd yn cynnwys canllaw ar sut y gall gweithwyr cymdeithasol helpu Plant ar eu Pen eu Hunain â'r broses ceisio lloches, fel helpu plant â chyfweliadau cychwynnol a manylach a chael cyngor cyfreithiol. Dywed y canllaw bod yn "rhaid i'r awdurdod lleol helpu'r plentyn i gael cyngor cyfreithiol".[28]

Fel y gwelsom uchod, mi all Gwarcheidwad wneud cyfraniad mawr at y broses asesu anghenion a gall fod yn bwynt cyswllt i gydlynu rhwng y plentyn, y gweithiwr cymdeithasol, y cynrychiolydd cyfreithiol, a gweithiwr achos y Swyddfa Gartref. Canfu ein Cais Rhyddid Gwybodaeth fod gwaith â Phlant ar eu Pen eu Hunain sy'n ceisio lloches yn ychwanegu'n sylweddol ar lwyth gwaith gweithwyr cymdeithasol yng Nghymru. Er hyn, nid yw dros hanner y plant yn cael y cymorth sydd ei angen arnynt i ddeall y broses hawlio lloches ac i gael cymorth cyfreithiol (gweler Adran 3.4). Byddai Gwasanaeth Gwarcheidiaeth yn darparu cymorth pwrpasol a fyddai'n diwallu'r angen hwn ac a fyddai'n cyd-fynd â gwaith gweithwyr cymdeithasol yng Nghymru ac yn lleihau peth o'r pwysau sydd arnynt.

[3] Mae Asiantaeth Ffiniau'r DU wedi'i ddisodli gan Fisâu a Mewnfudo y DU (UKVI), y gangen o'r Swyddfa Gartref sy'n gweithredu'r system fisâu ac yn gwneud penderfyniadau ar geisiadau am loches.

# 3. Gwasanaeth Gwarcheidiaeth cenedlaethol yn ei gyd-destun

*"Mi wnes lwyddo i oroesi'r [broses lloches] ond mi wn nad yw pob person ifanc yn llwyddo. Rwyf yn adnabod pobl sydd wedi cyflawni hunanladdiad o ganlyniad i'r pwysau. Yn bwysicach na dim, mae arnynt ofn gorfod mynd yn ôl i'w gwlad."*

Aelod, Comisiwn a Arweinir gan Bobl Ifanc, Cymdeithas y Plant

## 3.1 Y Ddeddf Mudo Anghyfreithlon

Yn ei Sylwadau Cloi 2023, dywedodd Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn pe bai'r Bil Mudo Anghyfreithlon yn cael ei basio y byddai'n mynd yn groes i hawliau plant o dan yr UNCRC a Chonfensiwn Ffoaduriaid 1951, a phwysodd ar Lywodraeth y DU i sicrhau bod y Bil yn cydymffurfio ag ymrwymiadau'r Wladwriaeth sy'n barti o dan y gyfraith hawliau dynol ryngwladol.[29] Erbyn hyn mae'r Ddeddf Mudo Anghyfreithlon yn gyfraith, ac yn fygythiad difrifol i hawliau Plant ar eu Pen eu Hunain.

Mae Canolfan y Gyfraith Plant Cymru, Sefydliad Bevan, a Chymdeithas y Plant wedi cyflwyno papur briffio ar y cyd mewn ymateb i'r alwad am dystiolaeth gan sawl un o Bwyllgorau'r Senedd cyn pleidlais y Senedd ar Gynnig Cydsyniad Deddfwriaethol yn achos y Bil Mudo Anghyfreithlon fel yr oedd ar y pryd, yn 2023 [30].[4] Mae'r papur yn disgrifio'n fanwl y bygythiad i hawliau plant yn sgil y Ddeddf Mudo Anghyfreithlon.

Mae'r ddeddfwriaeth yn creu dyletswyddau sy'n gwrthdaro ar ran yr Ysgrifennydd Gwladol ac awdurdodau lleol yn achos rhai 18 oed sy'n gadael gofal ac sydd wedi cael eu lletya fel Plant ar eu Pen eu Hunain. Mi all ei gwneud yn amhosibl yn y dyfodol i awdurdodau helpu rhai ar eu pen eu hunain sy'n gadael gofal. Ni ellir gorbwysleisio'r effaith a gaiff hyn ar Blant ar eu Pen eu Hunain wrth iddynt gyrraedd eu pen blwydd yn 18 oed.

Fel y nodwyd eisoes, mae cannoedd o blant wedi mynd ar goll o westai lloches.[5] Bydd y pwysau i ddianc a'r peryg o gael eu paratoi ar gyfer perthnasoedd

---

[4] Gwrthododd y Senedd gydsyniad i'r Bil Mudo Anghyfreithlon ar Mehefin 20 2023 https://cofnod.senedd.cymru/Plenary/13381

[5] Ym mis Rhagfyr 2023, dyfarnodd yr Uchel Lys fod arfer y Swyddfa Gartref o letya Plant ar eu Pen eu Hunain mewn gwestai yng anghyfreithlon. Ni cheir defnyddio gwestai i letya plant heblaw am

amhriodol yn cynyddu'n sylweddol pan fydd oedolaeth, ac felly'r posibilrwydd o gael eu cadw yn y ddalfa a'u hallgludo, yn nesáu.[6] Mae gan Warcheidwaid rôl holl bwysig i'w chwarae i sicrhau bod hawliau plant yn cael eu gwarchod, ac i roi sicrwydd ac arweiniad i Blant ar eu Pen eu Hunain a rhai sy'n gadael gofal lle bydd opsiynau cyfreithiol i aros yn y DU. Rydym yn edrych ar hyn yn fanylach yn Adran 4.3.

Mae'n hanfodol bod Plant ar eu Pen eu Hunain sy'n wynebu cael eu cadw yn y ddalfa a chael eu hallgludo'n parhau i gael eiriolaeth a chymorth ar ôl iddynt adael gofal yr awdurdod lleol. Gallai Gwasanaeth Gwarcheidiaeth gynnig y dilyniant hwn mewn cymorth ymlaen i oedolaeth a helpu i warchod hawliau pobl ifanc sy'n wynebu caethiwed, allgludo, neu gael eu symud i lety'r Swyddfa Gartref.

Mae Adrannau 57 a 58 o'r Ddeddf yn ymdrin â'r Bwrdd Asesu Oedran Cenedlaethol ac mae'n ymdrin â dulliau gwyddonol o asesu oedran, a all gynnwys sganio, pelydr-x, neu fesur rhannau o'r corff, archwilio dannedd, samplo DNA, ac archwiliadau corfforol. Mae'r hawl i apelio yn erbyn asesiad oedran wedi'i ddiddymu. Nid yw'r darpariaethau hyn o'r Ddeddf mewn grym eto, ond ym mis Medi 2023 cyflwynodd llywodraeth y DU reoliadau drafft gerbron y Senedd a fydd, os cânt eu pasio, yn awdurdodi defnydd newydd o belydr-x a delweddu atseiniol magnetig (MRI)[31]. Nid oes asesiad o effaith wedi'u gynhyrchu yn achos y rheoliadau hyn.

Canfu'r gwerthusiad o gynllun yr Alban (gweler Adran 3.3) fod Gwarcheidwaid yn chwarae rôl bwysig drwy amddiffyn plant a all gael asesiad oedran. Bydd Gwarcheidwaid yn eiriol yn gryf ar ran plant ac mae eu hannibyniaeth o awdurdodau lleol yn golygu na fyddant yn ddarostyngedig i fesurau posibl yn y dyfodol o dan y Ddeddf a all ei gwneud yn orfodol i awdurdodau lleol rannu gwybodaeth â'r Swyddfa Gartref.

---

gyfnodau byr iawn mewn 'sefyllfaoedd o wir argyfwng' ac ni ddylai ddigwydd yn lle gofal awdurdodau lleol. Gweler: https://www.ecpat.org.uk/News/ecpat-uk-wins-legal-challenge

[6] Mae Plentyn ar eu Pen eu Hunain yng Ngogledd Iwerddon wedi cael caniatâd yr Uchel Lys i herio'r Ddeddf Mudo Anghyfreithlon. Dadleuwyd y gallai'r ddeddfwriaeth fod yn gymhelliad i Blant ar eu Pen eu Hunain i redeg i ffwrdd mewn ymdrech i osgoi cael eu hallgludo ar ôl iddynt gyrraedd 18 oed gan greu cyfleoedd i fasnachwyr mewn pobl gamfanteisio arnynt. Dadleuwyd fod y Ddeddf yn mynd yn groes i Fframwaith Windsor a'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol.

https://www.msn.com/en-us/news/world/teenage-asylum-seeker-secures-high-court-permission-to-challenge-illegal-migration-laws/ar-BB1idaoV

## 3.2 Gwasanaethau presennol ar gyfer Plant ar eu Pen eu Hunain yng Nghymru

Mae Adran 48 o Ddeddf Caethwasiaeth Fodern 2015 yn gwneud darpariaeth ar gyfer Eiriolwyr Masnachu Plant Annibynnol yng Nghymru a Lloegr, sy'n cael eu hadnabod fel Gwarcheidwaid Masnachu Plant Annibynnol ers 2019.[32] Mae'r Gwasanaeth Gwarcheidwaid Masnachu Plant Annibynnol yng Nghymru a Lloegr wedi'i gomisiynu gan y Swyddfa Gartref a'i ddarparu gan Barnardo's.[33] Mae'n cynnig cyngor, arweiniad a chymorth i blant (o dan 18 oed) sydd wedi profi camfanteisio drwy fasnachu a Chaethwasiaeth Fodern. Mae'r gwasanaeth hefyd yn darparu cymorth ac arweiniad i weithwyr proffesiynol sy'n gweithio â phobl sydd wedi dioddef camfanteisio a Chaethwasiaeth Fodern. Mae'r gwasanaeth yn awr yn weithredol yng Nghymru ac mewn sawl rhanbarth yn Lloegr.[34]

O ganlyniad, mae pob plentyn y credir sydd wedi cael eu masnachu'n cael eu hatgyfeirio at y gwasanaeth a bydd y gwasanaeth wedyn yn dyrannu'r achos i gael cymorth uniongyrchol i'r plentyn neu gymorth drwy Gydlynydd Ymarfer Rhanbarthol.

Roedd Llywodraeth y DU wedi ymrwymo i gyflwyno'r Gwasanaeth Gwarcheidwaid Masnachu Plant Annibynnol yn genedlaethol; fodd bynnag nid yw wedi ei gyflwyno hyd yma mewn mwy na dau draean o'r awdurdodau lleol ac mae galw cynyddol am y gwasanaeth.[35] Nid oes amserlen wedi'i chadarnhau ar gyfer cyflwyno'r gwasanaeth yn genedlaethol, er bod Gwarcheidiaeth ar gyfer plant wedi'u masnachu wedi'i ymgorffori mewn cyfraith yng Nghymru a Lloegr ers wyth mlynedd. Mae hyn yn golygu bod niferoedd sylweddol o blant sydd wedi'u masnachu heb gymorth arbenigol.

Yn arwyddocaol, mae'r Gwasanaeth Gwarcheidiaeth ar gyfer plant y credir sy'n ddioddefwyr posibl masnachu a chaethwasiaeth fodern yn unig ac nid plant mudol wedi'u gwahanu, fel yn yr Alban. Rydym yn credu ei bod yn holl bwysig bod pob Plentyn ar eu Pen eu Hunain yn cael cymorth a gwarchodaeth, ac y byddai Gwasanaeth Gwarcheidiaeth cyffredinol yn fwy effeithiol i ganfod ac atal masnachu a chamfanteisio.

## 3.3 Gwasanaeth Gwarcheidiaeth yr Alban

Mae Gwasanaeth Gwarcheidiaeth yr Alban o fudd enfawr i bobl ifanc, gan amddiffyn plant agored i niwed ac ynysig mewn byd sy'n aml yn elyniaethus ac ansefydlog. Mae cynrychiolwyr cyfreithiol hefyd yn uchel eu canmoliaeth i'r

Gwasanaeth. Mae JustRight Scotland sydd, ymhlith gwasanaethau eraill, yn cynnig cynrychiolaeth gyfreithiol ac eiriolaeth i Blant ar eu Pen eu Hunain yn yr Alban, wedi cydweithi'n glos â Gwasanaeth Gwarcheidiaeth yr Alban ers 2010. Mae Gwarcheidwaid wedi cael effaith fawr ar waith JustRight Scotland â Phlant ar eu Pen eu Hunain, gan ymgymryd ag amrywiaeth o rolau o helpu plant drwy'r broses lloches, i sicrhau bod plant sy'n ddryslyd ac wedi dioddef trawma'n cyrraedd eu hapwyntiadau ar amser.

> *Mae'r Gwarcheidwaid yn helpu cyfreithwyr i roi cyngor buddiol ac i gymryd cyfarwyddiadau, maent yn helpu i fagu perthnasoedd sy'n seiliedig ar ymddiriedaeth, ac mi allant fod yn werthfawr i helpu pobl ifanc i roi tystiolaeth sy'n berthnasol i'w hachos ac i siarad am eu profiadau. Yn fwy na hynny, maent yn darparu eiriolaeth holl bwysig er lles pennaf y plentyn, a hynny'n gwbl ddiduedd. Byddaf yn meddwl yn aml am y gwahaniaethau rhwng profiadau fy mhobl ifanc i sydd â Gwarcheidwad a'r rhai sydd heb un. Yn anffodus, mae'r gwahaniaeth yn anferth ac rydym yn gweld bod y peryglon o niwed, camfanteisio, ailfasanchu neu o syrthio drwy'r bylchau yn y system yn llawer uwch yn achos rhai sydd heb Warcheidwad yn eu bywydau.*
>
> Andy Sirel, JustRight Scotland

Y tu hwnt i'r system lloches, mae Gwarcheidwaid yn sicrhau bod plant yn deall ac yn gallu gweithredu eu hawliau, gan egluro prosesau a gwasanaethau, ac eiriol ar eu rhan lle bydd angen. Mae Gwarcheidwaid yn annibynnol ar lywodraeth, awdurdodau lleol, a gwasanaethau statudol eraill. Maent y tu allan i'r system gyfreithiol ac nid ydynt yn ffafrio unrhyw duedd wleidyddol. Mae eu hannibyniaeth yn sicrhau eu bod yn gallu rhoi plant yn gyntaf bob tro.

Canfu gwerthusiad o Wasanaeth Gwarcheidiaeth yr Alban yn 2022[36] fod y gwasanaeth yn cael effaith bwysig ar helpu plant i weithio'u ffordd drwy'r system lloches, i gyfarwyddo â'u hamgylchedd newydd, drwy wella ansawdd yr wybodaeth a roddir i blant gan weithwyr proffesiynol eraill, a thrwy wneud unrhyw ryngweithio â phlant yn fwy addas iddynt gan wneud yn siŵr ei fod y digwydd o safbwynt y plentyn. Mae Gwarcheidwaid yn "allweddol i gynorthwyo â mynediad plant at gyfreithwyr mewnfudo ac i hwyluso apwyntiadau â hwy" ac maent yn helpu plant i gasglu a choladu ffeithiau a thystiolaeth i'w helpu yn eu cais am loches.

Yn bwysig iawn, mae Gwarcheidwaid yn yr Alban sy'n gweithio â'r Gwasanaeth yn cael hyfforddiant neu'n gweithio tuag at Lefel 2 OISC, cymhwyster sy'n rhoi dealltwriaeth dda iddynt o'r gyfraith lloches ac sy'n eu galluogi i weithio â'r broses gyfreithiol, yn ogystal â rhoi cyngor cywir ac o safon uchel eu hunain. Byddai gwasanaeth tebyg yng Nghymru'n cael effaith enfawr ar fynediad plant at gyflawnder mewnfudo, sy'n wynebu bygythiad difrifol o ganlyniad i brinder

cynghorwyr mewnfudo cymwysedig a diflaniad llwyr bron unrhyw gymorth cyfreithiol ar gyfer mewnfudwyr (gweler Adran 3.5).

Canfu gwerthusiad o Wasanaeth Gwarcheidiaeth yr Alban fod Gwarcheidwaid hyd yn oed yn gallu dylanwadu ar weithredu'r broses lloches, gan gyflymu neu arafu rhannau o'r broses, ac annog gwneud penderfyniadau heb gyfweliad, os byddai hynny er lles y plentyn dan sylw. Yn y pen draw, mae Gwasanaeth Gwarcheidiaeth yr Alban wedi arwain at gynnydd mewn penderfyniadau lloches positif, sy'n dangos ei werth i Blant ar eu Pen eu Hunain yn yr Alban.

## 3.4 Awdurdodau lleol

I ddeall yn well pa gymorth sydd ar gael i Blant a phobl ifanc ar eu Pen eu Hunain yng Nghymru, yn enwedig ar lefel leol, gwnaethom gais Rhyddid Gwybodaeth (FOI) i bob un o'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru. Yn y cais hwn, gofynnwyd am wybodaeth am y cymorth sydd ar gael i Blant ar eu Pen eu Hunain sy'n byw yn ardal pob awdurdod lleol i helpu i ddeall ac i ymgysylltu â'r broses geisio lloches. Yr yn a olygir wrth hyn yw:

- Helpu'r plentyn i gael cyngor a chynrychiolaeth gyfreithiol.
- Hysbysu'r plentyn o achosion cyfreithiol ac eraill.
- Cysylltu â chyfreithwyr, gweithwyr cymdeithasol, gweithwyr gofal iechyd proffesiynol, yr heddlu a swyddogion y Swyddfa Gartref ar ran y plentyn.
- Gweithio â phobl ifanc i'w helpu i ddatblygu datganiadau i ategu eu cais am loches.
- Mynychu apwyntiadau'r Swyddfa Gartref gyda'r plentyn.
- Darparu cymorth cyfannol i alluogi integreiddio, cyngor a chymorth emosiynol parhaus.

Gofynnwyd yn ein Cais Rhyddid Gwybodaeth hefyd faint o Blant ar eu Pen eu Hunain sy'n cael gofal neu help gan bob awdurdod lleol, yn ogystal â nifer y Plant ar eu Pen eu Hunain sy'n cael gofal neu help gan eu hawdurdod lleol a gafodd help i geisio lloches rhwng 2020 a 2023. Mae 'cymorth' yn y cyd-destun hwn yn golygu'r math o gymorth a ddisgrifir gennym uchod.

Cawsom ymateb gan 21 o'r 22 awdurdod lleol. Roedd yr ymatebion yn dangos bod 591 o Blant ar eu Pen eu Hunain yn cael gofal neu gymorth gan awdurdodau lleol yng Nghymru, gyda 240 o blant a phobl ifanc yn dod i ofal awdurdodau lleol Cymru drwy'r Cynllun Trosglwyddo Cenedlaethol.

Ar sail yr ymatebion i'n cais Rhyddid Gwybodaeth, mae'r rhan fwyaf o awdurdodau lleol yn darparu cymorth ar hyn o bryd i Blant ar eu Pen eu Hunain sy'n mynd drwy'r broses lloches. Mae gweithwyr cymdeithasol yn adnabod y plant maent yn gweithio â hwy, ac mae'n bwysig i'r plant hyn fod gweithwyr cymdeithasol yn parhau i'w helpu wrthynt ymwneud â'r broses o geisio lloches. Fodd bynnag, dim ond 257 o Blant ar eu Pen eu Hunain, neu 43% o Blant ar eu Pen eu Hunain, a gafodd gymorth yn benodol i ymgysylltu â'r broses o geisio lloches.

Er ein bod yn croesawu'r cymorth sydd ar gael ar gyfer y broses ceisio lloches a ddarperir gan awdurdodau lleol i Blant ar eu Pen eu Hunain, mae gwybodaeth gan awdurdodau lleol yn dangos nad yw mwyafrif y Plant ar eu Pen eu Hunain yng Nghymru wedi cael neu nid ydynt yn cael y cymorth hwn.

Mae'n bosibl bod sawl rheswm am y diffyg hwn, fel llwyth gwaith gweithwyr cymdeithasol neu ddiffyg darpariaeth cyngor cyfreithiol mewn maes penodol. Rydym yn cydnabod bod posibilrwydd y bydd rhai o'r plant hyn wedi cael statws ffoaduriaid eisoes ac nad oes angen y math hwn o gymorth arnynt bellach. Fodd bynnag, mae'n achos pryder bod llai na hanner yr holl Blant ar eu Pen eu Hunain yng Nghymru yn cael cymorth gan eu hawdurdod lleol i ymgysylltu â'r broses lloches. Nid yw hyn yn cydymffurfio â gofynion y Cod Ymarfer ar gyfer Rhan 6 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru).

Lle mae cymorth i geisio lloches yn cael ei ddarparu gan awdurdodau lleol, mae'n golygu bod cyfrifoldeb mawr ar weithwyr cymdeithasol. Yn ôl gwybodaeth a gafwyd yn sgil ein cais Rhyddid Gwybodaeth, mae gweithwyr proffesiynol gwasanaethau cymdeithasol naill ai'n arwain y ddarpariaeth cymorth i helpu Plant ar eu Pen eu Hunain, neu maent yn gyfan gwbl gyfrifol am helpu Plant ar eu Pen eu Hunain i geisio lloches mewn rhwng hanner a bron i draean o ardaloedd awdurdodau lleol yng Nghymru. Mae 'gweithwyr proffesiynol gwasanaethau cymdeithasol' yn y cyd-destun hwn yn golygu gweithwyr cymdeithasol a chynghorwyr personol, sy'n gweithio naill ai ar eu pen eu hunain neu â'i gilydd.

Hefyd, mae'r ymatebion i'r cais Rhyddid Gwybodaeth yn dangos mai gweithwyr cymdeithasol yw'r unig weithwyr proffesiynol mewn 38% o ardaloedd awdurdodau lleol Nghymru, sy'n helpu Plant ar eu Pen eu Hunain ac i gael cyngor a chynrychiolaeth gyfreithiol, ac mewn 33% o ardaloedd awdurdodau lleol yng Nghymru, gweithwyr cymdeithasol yw'r unig weithwyr proffesiynol sydd mewn cysylltiad â chyfreithwyr, gweithwyr gofal iechyd proffesiynol, yr heddlu a swyddogion y Swyddfa Gartref ar ran y plentyn.

Mae'n werth edrych ar hyn yng nghyd-destun ehangach capasiti cyfredol gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru. Yn ôl adroddiad yn 2023 a baratowyd

gan y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg (y Pwyllgor) ar gynlluniau Llywodraeth Cymru i ddiwygio gofal cymdeithasol i blant, mae gweithwyr proffesiynol gofal cymdeithasol yn teimlo bod eu llwyth achosion yn rhy fawr. Dywed yr adroddiad fod gan y rhan fwyaf o weithwyr cymdeithasol lwyth achosion o tua 35 o deuluoedd, a bod gan rai dros 50o deuluoedd. Mewn arolwg diweddar, gofynnodd Cymdeithas Gweithwyr Cymdeithasol Prydain i'w haelodau nodi'r tair her fwyaf a oedd yn eu hwynebu yn y gweithle. O'r 80 o aelodau sy'n gweithio yng Nghymru a ymatebodd, nododd 53.75% ofynion tasgau gweinyddol, cyfeiriodd 46.25% at eu llwyth gwaith, a dywedodd 79.22% na allent gwblhau eu gwaith o fewn oriau eu contract.[37] Rydym yn nodi argymhelliad y Pwyllgor i gyflwyno deddfwriaeth i "osod dyletswydd ar awdurdodau lleol i gyfrifo uchafswm y llwythi achosion diogel ar gyfer gweithwyr cymdeithasol plant".[38]

Dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno Gwarcheidwaid i arwain y gwaith o helpu Plant ar eu Pen eu Hunain â'r broses ceisio lloches. Byddai Gwarcheidwaid a gweithwyr cymdeithasol yn cydweithio â Phlant ar eu Pen eu Hunain, ond Gwarcheidwaid fyddai'n gyfrifol am y gwaith o helpu'r plant hyn i ddeall a gweithio'u ffordd drwy'r broses ceisio lloches, fel eu helpu i gael gafael ar gyngor cyfreithiol a mynd gyda hwy i gyfarfodydd â'r Swyddfa Gartref. Rydym yn credu y byddai hyn yn helpu gweithwyr cymdeithasol i ymdopi'n gwell â'u llwythi achosion a byddai hefyd yn gwella'r cymorth i Blant ar eu Pen eu Hunain.

## 3.5 Mynediad at gyngor mewnfudo a gwasanaethau cyfreithiol

Yn ein cais Rhyddid Gwybodaeth holwyd am y berthynas weithio rhwng awdurdodau lleol a chyfreithwyr mewnfudo neu ddarparwyr cyngor cyfreithiol. Yn benodol, gofynnwyd a oeddent yn gweithio â chyfreithwyr mewnfudo neu ddarparwyr cyngor cyfreithiol i helpu plant â'u ceisiadau am loches. Yn ôl yr wybodaeth a gawsom, dim ond 38% o awdurdodau lleol sydd â pherthynas weithio â chyfreithwyr mewnfudo neu ddarparwyr cyngor cyfreithiol yn eu hardal leol, a dim ond 47% o awdurdodau lleol sy'n gweithio â chyfreithwyr mewnfudo neu ddarparwyr cyngor cyfreithiol, o fewn neu'r tu allan i'w hardaloedd lleol, i helpu Plant ar eu Pen eu Hunain â'u ceisiadau am loches.

Gellir priodoli'r diffyg cydweithio hwn i raddau i'r prinder gwasanaethau cyfreithiol yng Nghymru, fel yr amlygwyd yn adroddiad Dr Jo Wilding *The Adequacy and Availability of Immigration Legal Advice for Forced Migrants in Wales*[39] a gyhoeddwyd fis Ionawr 2023. Amcangyfrifa Dr Wilding fod y Diffyg Cymorth Cyfreithiol Cychwynnol yng Nghymru yn 2,266. Mae'r ffigur hwn yn cyfeirio at nifer

yr achosion sy'n dod o fewn cwmpas llawn cymorth cyfreithiol ond lle nad oes cynrychiolaeth ar gael. Nid yw'n cynnwys achosion lle cafodd achos ei ollwng gan gynrychiolydd cyfreithiol rhwng gwaith achos cais ac apêl.

Canfu ymchwil gan Sefydliad Bevan ym Medi 2023[40] fod y sefyllfa o ran gwasanaethau cyfreithiol mewnfudo a lloches wedi gwaethygu'n sylweddol yng Nghymru ers Ionawr 2023, pan gyhoeddwyd adroddiad Wilding. Yn ystod y pum mlynedd diwethaf, mae Cymru wedi colli hanner y swyddfeydd a oedd yn darparu gwasanaethau cymorth cyfreithiol ar fewnfudo.

Ar hyn o bryd, mae cyfanswm o saith darparwr cymorth cyfreithiol yng Nghymru, gydag wyth swyddfa rhyngddynt, a heb fawr ddim darpariaeth mewnfudo gan y trydydd sector. Mae'r sefyllfa yn Ne-ddwyrain Cymru, a ddisgrifiwyd yn adroddiad Dr Wilding yn gynharach fel "wedi'i gwasanaethu'n gymharol dda" wedi newid yn sylweddol. Mae'r darparwr cymorth cyfreithiol mwyaf yng Nghymru, a oedd yn arfer bod yn gyfrifol am 47% o'r holl achosion cymorth cyfreithiol yng Nghaerdydd wedi gadael y maes, ac mae hyn wedi cael effaith fawr ar y darparwyr sy'n weddill. Mae'r rhan fwyaf yn awr wedi'u llethu gan y galw ac nid ydynt ar hyn o bryd yn gallu derbyn atgyfeiriadau. Mae pobl, gan gynnwys Plant ar eu Pen eu Hunain, yn cael eu gadael yn gyson heb gynrychiolaeth mewn apelau. Dywedodd cynrychiolydd cyfreithiol mewnfudo, un a gyfrannodd at adroddiad Sefydliad Bevan:

> *Nid ydym wedi gweld dim byd tebyg o'r blaen. Nid ydym yn cofio adeg pan nad oedd ymgeiswyr cychwynnol am loches, gan gynnwys [Plant ar eu pen eu hunain sy'n ceisio lloches], yn gallu dod o hyd i gyfreithiwr cymorth cyfreithiol i'w cynrychioli.*

Mae tystiolaeth ddiweddar gan ddarparwyr cymorth lloches yn dangos nad yw methu â dod o hyd i gynrychiolaeth gyfreithiol i geiswyr lloches yn beth anghyffredin.

Rydym o'r farn y byddai Gwasanaeth Gwarcheidiaeth Cymru gyfan yn helpu i fynd i'r afael â'r bylchau yn y ddarpariaeth gyfreithiol ac yn sicrhau cymorth mwy cyson i bob Plentyn ar eu Pen eu Hunain yng Nghymru tra bydd gwaith yn cael ei wneud i gynyddu'r ddarpariaeth. Fel y trafodwyd yn Adran 3.4, byddai gwneud hynny'n symud y cyfrifoldeb oddi ar weithwyr cymdeithasol a chynghorwyr personol ac yn ei drosglwyddo i staff â gwybodaeth a chymwysterau arbenigol. Byddai hyn yn ei dro'n helpu i ysgafnhau llwyth gwaith gweithwyr cymdeithasol a chynghorwyr personol.

Mae’r gwerthusiad o Wasanaeth Gwarcheidiaeth yr Alban yn dangos gwerth Gwarcheidwaid wrth helpu Plant ar eu Pen eu Hunain drwy’r broses ceisio lloches (Gweler Adran 3.3). Mae Gwarcheidwaid yn yr Alban yn cael eu hyfforddi hyd Lefel 2 OISC, sy’n golygu bod ganddynt ddealltwriaeth drylwyr o’r maes cymhleth hwn o’r gyfraith. Er na ddylai Gwarcheidwaid gymryd lle gwasanaethau cyfreithiol arbenigol, mi all Gwarcheidwad sydd wedi cael hyfforddiant hyd Lefel 2 OISC allu cynnig cyngor ac arweiniad da fel rhan o berthynas hygyrch a chyson. Mae gwybodaeth o’r fath yn eu rhoi mewn sefyllfa gref i ddod o hyd i wasanaethau cyfreithiol o safon, i helpu pobl ifanc drwy’r broses lloches, ac i helpu ag ymgysylltiad pobl ifanc â chynrychiolwyr cyfreithiol. Lle mae bylchau mewn cynrychiolaeth gyfreithiol, gallai Gwarcheidwad am gyfnod rwystro’r perygl y gallai plentyn ‘syrthio drwy’r craciau’’. Yn y pen draw, byddai cynllun o’r fath yng Nghymru yn gwella canlyniadau cyfreithiol i Blant ar eu Pen eu Hunain.

# 4. Sut allai Gwasanaeth Gwarcheidiaeth yng Nghymru edrych?

Rhaid i Wasanaeth Gwarcheidiaeth yng Nghymru ystyried anghenion y plant mae'n eu gwasanaethu, ond rhaid iddo hefyd yn ystyried cyd-destun penodol Cymru. Yn yr adran hon, rydym yn edrych ar rai o'r ffactorau allweddol y credwn y dylai gael eu cynnwys mewn Gwasanaeth Gwarcheidiaeth cenedlaethol ar gyfer Plant ar eu Pen eu Hunain. Nid ydym wedi ceisio cynnwys fframwaith manwl, ond yn hytrach yr egwyddorion sylfaenol a ddylai fod yn sail i wasanaeth.

## 4.1 Ffactorau allweddol

- Ar gael i bawb: Gwasanaeth cenedlaethol a ddarperir ledled Cymru ac sydd ar gael i bob Plentyn ar eu Pen eu Hunain, yn unol â galwadau Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn.
- Ar gael wrth gyrraedd: Dylai Gwarcheidwad gael eu penodi ar gyfer pob Plentyn ar eu Pen eu Hunain cyn gynted ag y byddant yn cyrraedd Cymru. Byddai hyn yn sicrhau bod hawliau plant yn cael eu gwarchod o ddechrau eu bywyd yng Nghymru, eu bod yn cael help, ac nad oes yr un Plentyn ar eu Pen eu Hunain yn cael eu gadael ar eu pen eu hunain. Dylai'r gwasanaeth weithio'n glos â Mecanwaith Atgyfeirio Cenedlaethol y Swyddfa Gartref, y Cynllun Trosglwyddo Cenedlaethol, llety lloches, a gwestai lloches, i sicrhau bod plant yn cael eu canfod, eu helpu a'u lleoli'n briodol, yn gyflym.
- Gwasanaeth annibynnol: Dylai Gwasanaeth Gwarcheidiaeth yng Nghymru fod yn annibynnol ar unrhyw gorff statudol. Yn yr un modd ag y mae Gwarcheidwaid Plant yn cael eu penodi gan y Llysoedd, rydym yn credu y dylai Gwarcheidwaid ar gyfer Plant ar eu Pen eu Hunain fod yn annibynnol ar y wladwriaeth, awdurdodau lleol, y Llysoedd, a phob corff statudol arall. Byddai hyn yn galluogi Gwarcheidwaid i amddiffyn hawliau a buddiannau plant yn gwbl ddiduedd.
- Hyfforddedig ac Arbenigol: Yn ogystal â meddu ar arbenigedd a phrofiad o weithio â phlant, dylai pob Gwarcheidwad yn y Gwasanaeth fod wedi'u hyfforddi hyd Lefel 2 OISC 2 neu sy'n cyfateb i IAAS neu'n gweithio i ennill y cymwysterau hyn. Bydd hyn yn arwain at fuddiannau enfawr i blant wrth iddynt weithio'u ffordd drwy'r broses lloches a bydd yn gwneud iawn am rai o

effeithiau'r dirywiad difrifol yn y ddarpariaeth gyfreithiol i fewnfudwyr yng Nghymru.

- Integredig ac effeithlon: Dylai'r Gwasanaeth gydweithio'n glos ac yn gefnogol â gweithwyr cymdeithasol, cynghorwyr cyfreithiol, gweithwyr achos y Swyddfa Gartref, Migrant Help, ysgolion, colegau, ysbytai, ac asiantaethau trydydd sector sy'n gweithio i helpu ceiswyr lloches ac i hybu llesiant plant. Dylai gwasanaethau statudol fod yn ymwybodol o rôl a diben Gwarcheidwad a'r buddiannau a all ddod yn sgil hynny.

- Cefnogol ac ysgogol: Dylai Gwarcheidwaid ddarparu'r mathau canlynol o gymorth:

  - Meithrin ymddiriedaeth a pherthynas gefnogol â phlant.
  - Helpu'r plentyn i gyfarwyddo ac addasu'n gymdeithasol.
  - Helpu'r plentyn i gael cyngor a chynrychiolaeth gyfreithiol.
  - Hysbysu'r plentyn o achosion cyfreithiol ac eraill.
  - Gweithio â phobl ifanc i'w helpu i ddatblygu datganiadau i ategu eu cais am loches.
  - Mynychu apwyntiadau'r Swyddfa Gartref â'r plentyn.
  - Cysylltu â chyfreithwyr, gweithwyr cymdeithasol, gweithwyr gofal iechyd proffesiynol, yr heddlu a swyddogion y Swyddfa Gartref ar ran y plentyn.
  - Egluro prosesau (e.e. cyfreithiol, gofal, ac addysg), i sicrhau bod y plentyn yn deall beth sy'n digwydd iddynt, y penderfyniadau sy'n cael eu gwneud, a'r opsiynau sydd ar gael iddynt.
  - Sicrhau bod lleisiau a dewisiadau plant yn cael eu clywed a'u parchu.
  - Hwyluso presenoldeb a chyfranogiad plant mewn cyfarfodydd.
  - Darparu cymorth cyfannol i blant i alluogi integreiddiad, parhad cyngor a chymorth emosiynol.
  - Gwneud atgyfeiriadau at wasanaethau arbenigol (e.e. i roi sylw i bryderon ynglŷn ag iechyd meddwl neu gorfforol, gwasanaethau sy'n ystyriol o drawma, gwasanaethau diwylliannol, neu gymdeithasu a chwarae sy'n briodol i anghenion y plentyn).

- Parhaol a grymusol: Dylai'r Gwasanaeth Gwarcheidiaeth barhau gyda Phlentyn ar eu Pen eu Hunain i weithredu fel ffynhonnell barhaus o gymorth ac amddiffyniad wrth iddynt gyrraedd annibyniaeth ac oedolaeth. Dylai'r

gwasanaeth barhau mewn cysylltiad boed y plentyn wedi gadael gofal ai peidio, naill ai'n wirfoddol, neu o ganlyniad i'w statws mudo.

- Amddiffyn hawliau a chyfiawnder: Dylai Gwarcheidwaid gael eu grymuso i siarad ar ran y plant maent yn gweithio â hwy, i amddiffyn eu buddiannau, ac i hyrwyddo eu hawliau.
- Tîm ag adnoddau digonol: Dylai'r Gwasanaeth Gwarcheidiaeth gael digon o adnoddau i ddarparu cymorth parhaus a chynhwysfawr i Blant ar eu Pen eu Hunain. Bydd mynediad at hyfforddiant parhaus, adnoddau a gwybodaeth sy'n cael eu diweddaru'n hanfodol.
- Ymatebol ac yn canolbwyntio ar y plentyn: Mae'n bwysig bod Plant ar eu Pen eu Hunain yn cael eu cynnwys cymaint â phosibl yn natblygiad Gwasanaeth Gwarcheidiaeth yng Nghymru, i sicrhau bod y gwasanaeth yn diwallu eu hanghenion. Mae prosiectau eisoes ar hyd a lled y wlad sy'n gweithio â Phlant ar eu Pen eu Hunain a allai gyfrannu at ddatblygiad y gwasanaeth.

## 4.2 Costau

Nid ydym wedi cynnwys dadansoddiad manwl o gostau'r gwasanaeth arfaethedig. Cafodd rhywfaint o waith, sy'n seiliedig ar Wasanaeth Gwarcheidiaeth yr Alban a'r Nidos[7], Gwasanaeth Gwarcheidiaeth yn yr Iseldiroedd, ei gwblhau yn 2014 gan Gronfa Plant y Cenhedloedd Unedig y DU (UNICEF UK) a Chymdeithas y Plant ar gostau a buddiannau cynllun Cymru a Lloegr.[41] Am asesiad manwl o gostau, byddai angen diweddaru hwn, ac ystyried y costau yn achos Cymru'n unig.

Byddai angen i'r gwasanaeth hwn gael ei ddarparu gan dîm o Warcheidwaid sy'n gweithio'n uniongyrchol â Phlant ar eu Pen eu Hunain, rheolwyr gwasanaeth, a staff cymorth. Byddai'r costau a ddylai gael eu hystyried gynnwys, ond heb eu cyfyngu i, costau recriwtio, cyflogau, gofod swyddfa, a chyfieithu a chyfieithu ar y pryd, gyda'r olaf y costau mwyaf. I roi syniad o'r gost, mae Llywodraeth yr Alban yn talu swm blynyddol i Guardianship Scotland o £1 miliwn am 13 o Warcheidwaid, gyda chyllid am 12 Gwarcheidwaid ychwanegol yn cael ei ddarparu'n allanol.

Mae llawer o Blant ar eu Pen eu Hunain sy'n cael gofal gan awdurdodau lleol Cymru wedi'u lleoli yn Lloegr, felly byddai'n rhaid ystyried costau teithio y tu hwnt i

---

[7] Nidos yw'r sefydliad gwarcheidiaeth cenedlaethol annibynnol yn yr Iseldiroedd sy'n darparu gwarcheidiaeth i bobl plentyn ar eu pen eu hunain sy'n ceisio lloches yn yr Iseldiroedd. https://www.egnetwork.eu/member/nidos/#:~:text=Nidos%20is%20the%20national%20independent,the%20child%20and%20their%20development.

Gymru, er ein bod yn nodi bod llawer o'r rhyngweithio yn yr Alban rhwng Gwarcheidwaid a phlant yn digwydd drwy alwadau fideo.

## 4.3 Buddiannau

Rydym wedi sôn drwy gydol y ddogfen hon am yr holl ffyrdd mae Gwarcheidiaeth yn cael effaith bositif ar fywydau Plant ar eu Pen eu Hunain. Mae Gwasanaeth Gwarcheidiaeth yr Alban yn fodel enghreifftiol o sut y gall gwasanaeth o'r fath ddiwallu anghenion Plant ar eu Pen eu Hunain. Rydym yn cydnabod na fydd costau Gwasanaeth Gwarcheidiaeth i bob plentyn ar eu Pen eu Hunain yn fychan. Fodd bynnag, byddai'r buddiannau gwasanaeth o'r fath i ddiogelu hawliau plant a gwella canlyniadau i blant yn enfawr. Byddai'r effeithiau ar gyfiawnder cymdeithasol, integreiddio, ac addysg yn bositif a pharhaol.

Yn ychwanegol at yr effaith bositif y byddai'n ei gael ar fywydau Plant ar eu Pen eu Hunain, byddai Gwasanaeth Gwarcheidiaeth yn arwain at fuddiannau i randdeiliaid sy'n gweithio â Phlant ar eu Pen eu Hunain. Un o'r buddiannau hyn fyddai'r amser y byddai gweithwyr cymdeithasol yn ei arbed, o ganlyniad i weithio â Gwarcheidwaid. Yn yr arfarniad ar y cyd gan Gymdeithas y Plant ac UNICEF UK y cyfeiriwyd ato yn (4.2) uchod, nodwyd buddiannau mewn meysydd allweddol yn sgil cydweithredu rhwng Gwarcheidwaid a gweithwyr cymdeithasol. Mae'r meysydd hyn yn cynnwys, ond heb eu cyfyngu i, asesiadau oedran ac anghydfodau (i), a Phlant ar eu Pen eu Hunain sy'n mynd ar goll (ii).

i) O ran asesiadau oedran, budd disgwyliedig a fyddai'n deillio o'r rhyngweithio rhwng Gwarcheidwaid, gweithwyr cymdeithasol ac asiantaethau sy'n rhan o'r broses asesu oedran fyddai "gwybodaeth fwy eglur a chryno gan, ac ar ran, y plentyn",[42] yn ogystal â'r amser y byddai gweithwyr cymdeithasol ac asiantaethau'n ei arbed wrth gynnal asesiadau oedran. Byddai hyn hefyd yn dod ag arbedion ariannol yn ei sgil. Hefyd, gallai presenoldeb a'r gwaith a wneir gan Warcheidwad leihau'r perygl o benderfyniadau anghywir mewn asesiadau oedran, a thrwy hynny osgoi'r angen am ragor o asesiadau oedran.

ii) Pan fydd Plentyn ar eu Pen eu Hunain yn mynd ar goll, daw'r gweithdrefnau priodol yn weithredol, a byddant yn cynnwys gweithwyr cymdeithasol – er enghraifft, ar gyfer cyfweliadau dychwelyd adref (os ydynt yn cael eu darparu'n fewnol gan staff yr awdurdod lleol). Budd disgwyliedig a fyddai'n deillio o'r perthnasoedd a'r cymorth sy'n cael ei ddarparu gan Warcheidwaid, yw y byddai Plant ar eu Pen eu Hunain yn mynd ar goll yn llai aml, llai o achosion lle byddai hynny'n cael ei ailadrodd, a chynyddu'r posibilwydd o atal rhai Plant ar eu Pen eu Hunain rhag mynd ar goll. Yn ôl arfarniad Cymdeithas y

Plant/UNICEF UK, "y disgwyl yw y byddai Gwarcheidiaeth gyfreithiol yn lleihau nifer y plant sydd ar goll ac felly'n lleihau'r gofynion ar amser gweithwyr cymdeithasol".[43] Disgwylir y byddai hyn hefyd yn arwain at arbedion ariannol.

Hefyd, rhagwelir y byddai arbedion o ran amser cyfieithwyr fel rhan o'u cyfraniad at asesiadau oedran a gweithdrefnau ar ôl i blant fynd ar goll, a fyddai hefyd yn golygu arbedion ariannol.

Mae gwerthusiad 2013 o beilot Gwasanaeth Gwarcheidiaeth yr Alban yn nodi "bod tystiolaeth glir fod Gwarcheidwaid yn helpu pobl ifanc i ddeall cymhlethdodau'r broses lloches, sy'n arwain at ganlyniadau clir, amserol a phositif yn aml i rai sy'n ceisio lloches neu sydd wedi cael eu masnachu"[44] a nodwyd hyn yng ngwerthusiad 2021 hefyd.[45]

O gofio bod Plant ar eu Pen eu Hunain hefyd yn debygol o gael gofal gan awdurdodau lleol, byddai'r tebygrwydd uwch o ganlyniad lloches positif pan fydd Gwarcheidwad yn gysylltiedig â'r broses yn cyflymu'r broses i'r Plant ar eu Pen eu Hunain i symud o ofal i fyw'n fwy annibynnol. Mae llai o heriau ac apelau yn erbyn penderfyniadau gwreiddiol yn debygol o olygu y byddai llai o rwystrau yn sefyll yn y ffordd at broses fwy esmwyth o symud o ofal i fyw'n fwy annibynnol.

# 5. Casgliad

Er bod peth gwaith rhagorol yn cael ei wneud eisoes i helpu Plant ar eu Pen eu Hunain yng Nghymru, nid oes digon o gymorth ar gael i bob plentyn ar eu Pen eu Hunain. Yn benodol, mae diffyg help iddynt i weithio'u ffordd drwy'r broses gymhleth o geisio lloches.

Rydym o'r farn bod ffactorau fel llwythi gwaith, gwasanaethau dan bwysau a pherthnasoedd gweithio annigonol rhwng awdurdodau lleol a chyfreithwyr mewnfudo'n rhwystrau rhag sicrhau bod pob Plentyn ar eu Pen eu Hunain yng Nghymru yn cael cynnig help i geisio lloches, sydd wedi dod yn fwy angenrheidiol fyth o gofio'r prinder gwasanaethau cyfreithiol, a'r heriau ychwanegol sy'n codi yn sgil deddfwriaeth fel y Ddeddf Mudo Anghyfreithlon.

Rydym yn pwyso ar Lywodraeth Cymru i gyflwyno Gwasanaeth Gwarcheidiaeth a fyddai ar gael i bob Plentyn ar eu Pen eu Hunain yng Nghymru ac a fyddai'n eu helpu i weithio'u ffordd drwy'r broses gymhleth o geisio lloches. Dylai'r gwasanaeth gael ei gynnig i bob Plentyn ar eu Pen eu Hunain sydd yng Nghymru'n barod ac i bobl Plentyn ar eu Pen eu Hunain pan fyddant yn cyrraedd Cymru.

Ar adeg ysgrifennu, mae'r Cynllun Cenedl Noddfa yn cael ei ddiweddaru ac mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i gyflwyno bil gofal cymdeithasol gerbron y Senedd. Rydym o'r farn bod y ffrydiau gwaith hyn yn gyfle i gyflwyno Gwasanaeth Gwarcheidiaeth i bob plentyn ar eu Pen eu Hunain yng Nghymru, a thrwy wneud hynny, gwella mynediad at y cymorth holl bwysig sydd ei angen ar rai o aelodau mwyaf agored i niwed ein cymdeithas.

---

[1] Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, https://www.ohchr.org/en/instruments-mechanisms/instruments/convention-rights-child

[2] Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011 https://www.legislation.gov.uk/mwa/2011/2/contents/enacted/welsh

[3] Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 https://www.legislation.gov.uk/anaw/2014/4/contents/enacted/welsh

[4] Datganiad Ysgrifenedig Llywodraeth Cymru (2023) Llwybrau Diogel a Chyfreithiol i Geiswyr Lloches https://www.llyw.cymru/datganiad-ysgrifenedig-llwybrau-diogel-chyfreithiol-i-geiswyr-lloches

[5] Deddf Mudo Anghyfreithlon 2023 https://www.legislation.gov.uk/ukpga/2023/37/contents/enacted

[6] Llywodraeth Cymru (2019) *Cenedl Noddfa – Cynllun Ffoaduriaid a Cheiswyr Lloches* https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-03/cenedl-noddfa-cynllun-ffoaduriaid-a-cheiswyr-lloches_1.pdf

[7] Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 https://www.legislation.gov.uk/anaw/2015/2/contents/enacted/welsh

[8] Achub y Plant Cymru (2005) *Uncertain Futures*. (Achub y Plant: Caerdydd) t.70. https://orca.cardiff.ac.uk/id/eprint/86379/1/uncertain_futures_-_report_1.pdf

[9] Croke R & Crowley A (eds) (2006) *Righting the wrongs: the reality of children's rights in Wales* (Achub y Plant: Caerdydd). https://resourcecentre.savethechildren.net/document/righting-wrongs-reality-childrens-rights-wales/

[10] Croke R & Crowley A (eds) (2006) *Stop, look, listen: the road to realising children's rights in Wales* (Achub y Plant: Caerdydd).

[11] Achub y Plant Cymru (2008) *The care and protection of young asylum-seeker and trafficked children in Wales: agenda for action* https://orca.cardiff.ac.uk/id/eprint/86376/1/Agenda%20for%20Action.eng.Dec.08.pdf

[12] Llywodraeth Cymru (2008) *Strategaeth Cynnwys Ffoaduriaid* https://ec.europa.eu/migrant-integration/sites/default/files/2009-01/docl_7337_501075745.pdf

[13] Croke R & Williams J (2015) *Wales UNCRC Monitoring Group to the UN Committee on the Rights of the Child* (Swansea University Press).

[14] Y Pwyllgor ar Hawliau'r Plentyn (2016) *Concluding observations on the fifth periodic report of the United Kingdom of Great Britain and Northern Ireland* https://docstore.ohchr.org/SelfServices/FilesHandler.ashx?enc=6QkG1d%2FPPRiCAqhKb7yhskHOj6VpDS%2F%2FJqg2Jxb9gncnUyUgbnuttBweOlylfyYPkBbwffitW2JurgBRuMMxZqnGgerUdpjxij3uZ0bjQBOLNTNvQ9fUIEOvA5LtW0GL

[15] Llywodraeth Cymru (2019) *Lansio Cynllun Ffoaduriaid a Cheiswyr Lloches Newydd i Gymru* Cenedl Noddfa Cynllun Ffoaduriaid a Cheiswyr Lloches Newydd (llyw.cymru)

[16] Grŵp Monitro Cymru'r UNCRC (2022) *Report to the UN Committe on the Rights of the Child* https://www.childreninwales.org.uk/application/files/6416/7533/1287/Wales_UNCRC_Monitoring_Group.pdf

[17] Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (2023) *Concluding observations on the sixth and seventh periodic report of the United Kingdom of Great Britain and Northern Ireland* https://tbinternet.ohchr.org/_layouts/15/treatybodyexternal/Download.aspx?symbolno=CRC%2FC%2FGBR%2F6-7&Lang=en

[18] Tŷ'r Arglwyddi (2023) https://parliamentlive.tv/Event/Index/f211ff37-a70b-42fb-b81d-285bfcb4414b

[19] Mark Townsend, The Guardian (2023) https://www.theGuardian.com/uk-news/2023/feb/18/uk-missing-child-refugees-put-to-work-manchester-gangs (The Guardian, 18 Chwefror 2023)

[20] Helen Bamber Foundation, Humans for Rights Network, Refugee Council (2024) The Home Office's incorrect determination of age and how this leaves child refugees at risk

https://helenbamber.org/resources/reportsbriefings/forced-adulthood-home-offices-incorrect-determination-age-and-how-leaves

[21] Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (2023) (n18)

[22] Wilding, Jo i Lywodraeth Cymru (2023) *The adequacy and availability of immigration legal advice for forced migrants in Wales.* https://www.gov.wales/adequacy-and-availability-immigration-legal-advice-forced-migrants-wales-executive-summary-html (Llywodraeth Cymru)

[23] Llywodraeth Cymru (2019), *Cenedl Noddfa - Cynllun Ffoaduriaid a Cheiswyr Lloches* https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-03/cenedl-noddfa-cynllun-ffoaduriaid-a-cheiswyr-lloches_1.pdf

[24] Stott, H and Kohli, Ravi KS (2021), *An Evaluation of the Scottish Guardianship Service ; The work of Guardians within asylum determination and National Referral Mechanism processes* (Scottish Refugee Council, Aberlour, Safe to Grow) https://www.scottishrefugeecouncil.org.uk/wp-content/uploads/2022/02/An-evaluation-of-the-Scottish-Guardianship-Service-2022.pdf

[25] Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 https://www.legislation.gov.uk/anaw/2014/4/contents/enacted/welsh

[26] Llywodraeth Cymru (2021) *Briff: cefnogi plant ar eu pen eu hunain sy'n ceisio lloches yng Nghymru* (Llywodraeth Cymru) https://www.llyw.cymru/briff-cefnogi-plant-ar-eu-pen-eu-hunain-syn-ceisio-lloches-yng-nghymru-html

[27] Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru), 2014 Cod Ymarfer Rhan 6 https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-05/cod-ymarfer-rhan-6-plant-yn-derbyn-gofal-a-phlant-syn-cael-eu-lletya.pdf, t.98

[28] Canolfan Gyfreithiol y Plant Cymru (2022) *Canllaw Arferion Gorau ar gyfer Gweithwyr Cymdeithasol yng Nghymru: cynorthwyo plant sy'n hawlio lloches* (Canolfan Gyfreithiol y Plant Cymru) https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2022-11/canllaw-arferion-gorau-ar-gyfer-gweithwyr-cymdeithasol-yng-nghymru-syn-cynorthwyo-plant-syn-hawlio-lloches.pdf t.15.

[29] Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (n18)

[30] Canolfan Gyfreithiol y Plant, Sefydliad Bevan, Cymdeithas y Plant (2023) *Briefing on the issue of legislative consent in relation to the Illegal Migration Bill and its impact on unaccompanied children in Wales* https://business.senedd.wales/documents/s137310/Response%20from%20Legal%20Centre%20Wales%20the%20Bevan%20Foundation%20and%20the%20Childrens%20Society.pdf

[31] Rheoliadau Mewnfudo (Asesiadau Oedran) 2023 https://www.legislation.gov.uk/ukdsi/2023/9780348251593

[32] Y Swyddfa Gartref (2021) *Interim Guidance for Independent Child Trafficking Guardians* https://www.gov.uk/government/publications/child-trafficking-advocates-early-adopter-sites/interim-guidance-for-independent-child-trafficking-Guardians-accessible-version

[33] Am wybodaeth am raglen waith Barnardo's ar fasnachu mewn plant ar Gwasanaeth Masnachu Plant Annibynnol, gweler: https://www.barnardos.org.uk/get-support/support-for-parents-and-carers/child-abuse-and-harm/child-trafficking

[34] Gweler: https://www.barnardos.org.uk/get-support/services/ictg-cymru

[35] Y Swyddfa Gartref (n33)

[36] Stott, H and Kohli, Ravi KS (n25)

[37] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc, ac Addysg (2023) *Os nad yn awr, pryd? Diwygio radical ar gyfer plant a phobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal* https://senedd.cymru/media/4h2di5vj/cr-ld15849-w.pdf, t.25-26. (Senedd)

[38] Ibid, p.37.

[39] Wilding, Jo (n15)

[40] Sefydliad Bevan, *Firefighting: Protecting legal aid funded immigration services in Wales*, Medi 2023 https://www.bevanfoundation.org/resources/firefighting-protecting-legal-aid-funded-immigration-services-in-wales/ (Sefydliad Bevan)

[41] UNICEF UK a Chymdeithas y Plant (2014) *Cost benefit appraisal of legal guardianship for unaccompanied and separate migrant children in England and Wales* https://www.unicef.org.uk/wp-content/uploads/2014/07/Guardianship-CBA-CHTB-End-Report_2014_FINAL_FOR-CIRCULATION.pdf, p.23.

[42] Ibid.

[43] Ibid.

[44] Crawley, H and Kohli, Ravi KS (2013) *"She Endures With Me", an evaluation of the Scottish Guardianship Service pilot*, Swansea University, University of Bedfordshire https://www.scottishrefugeecouncil.org.uk/wp-content/uploads/2019/10/She-endures-with-me-Final-evaluation-of-the-Scottish-Guardianship-Service-Pilot-PDF.pdf

[45] Stott, H and Kohli, Ravi KS (n25)

**Jayne Bryant AS/MS**
**Y Gweinidog Iechyd Meddwl a'r Blynyddoedd Cynnar**
**Minister for Mental Health & Early Years**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf: MA-JB-5117-24

Buffy Williams AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

seneddchildren@senedd.cymru

1 Mai 2024

Annwyl Buffy,

Rwy'n ysgrifennu i roi gwybod i'r Pwyllgor am y bwriad i gydsynio i Lywodraeth y DU wneud a gosod y Rheoliadau Honiadau Iechyd (Dirymu) 2024 (y Rheoliadau). Gwneir y Rheoliadau gan ddefnyddio pwerau yn Adran 14 o Ddeddf Cyfraith yr UE a Ddargedwir (REUL) (Dirymu a Diwygio) ("Deddf REUL").

Bydd y Rheoliadau'n dirymu deddfwriaeth y nodwyd ei bod yn ddiangen ar ôl i'r DU ymadael â'r UE, na chafodd ei chynnwys yn Atodlen 1 i Ddeddf REUL. Ni fydd dirymu'r offerynnau hyn yn cael unrhyw effaith ar bolisi yng Nghymru a bydd yn lleihau cymhlethdod diangen yn y llyfr statud.

Er mai egwyddor gyffredinol Llywodraeth Cymru yw y dylai'r gyfraith sy'n ymwneud â materion datganoledig gael ei gwneud a'i diwygio yng Nghymru, y tro hwn, ystyrir ei bod yn briodol i Lywodraeth y DU ddeddfu ar lefel Prydain Fawr. Byddai'r dull gweithredu hwn yn sicrhau bod deddfwriaeth ddiangen yn cael ei dirymu'n gyfartal ar draws y gwledydd yr oedd yn berthnasol iddynt.

Bydd y Rheoliadau'n cael eu gosod gerbron Senedd y DU ym mis Mehefin 2024.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Jayne.Bryant@llyw.cymru
Correspondence.Jayne.Bryant@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Rwyf hefyd wedi ysgrifennu at Sarah Murphy AS, Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad ac at Russell George AS, Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol.

Yn gywir



**Jayne Bryant AS/MS**
Y Gweinidog Iechyd Meddwl a’r Blynyddoedd Cynnar
Minister for Mental Health & Early Years